Dyledſwyddau tu ag at Dduw *a dyn, neu Gynheddfau* Criſtion.

1 DUW, pwy a ddring i'th nefoedd fry
A thrig ger bron dy Wyneb cu?
Y dŷn trwy ffŷdd *yng Nghriſt* fy 'n byw,
A rhodio 'n iſel gyd a Duw.

2 Un a llaw lân, a chalon bur,
Ni thraetha o'i enau ond y gwir;
Ni thrig ar dafod hwn ddrwg air,
A gwneuthur cam a neb ni's cair.

3 (Ni dderbyn Athrod, ac ni's dwg,
I wneuthur yw gymmydog ddrwg:
Gwael yw 'r drygionus ger ei fron;
Ond Saint, 'ſe 'u hanrhydedda 'n llon.)

4 Di yſgog wrth ei air y fai',
A'i addewydion mae 'n gwplau:
Y peth a dwng ni newid chwaith,
Pa golled bynna ddel o'r gwaith.

5 Ymdrin a gwobron aur ni's gwna;
Gwel d gwerthu uniondeb a'i triſta:
Tra gwaſgo rhai y tlawd di ſtor
Bydd per Eluſen wrth ei ddôr.

6 Fe gar ei gas, gweddia 'n rhwydd
Dros a'i melldithio yn ei wydd;
Gan wneud yn waſtad i bob dyn
'R hyn a ddymunai iddo 'i hun.

7 Etto pan whel bob gweithred dda,
Ar ras yn unig pwyſo 'wna:
Hwn ydyw 'r dŷn, caiff weled Duw,
A chyd ag e'n drag'wyddol fyw.

S A L M XVI. Y Rhan gynta. Meſur hir.

Cyffes o'n Tlodi; a'r Saint y gyfeillach oreu neu, Weithredoedd da yn lleſau Dyn, nid Duw.

1 O Dduw, amddiffyn fi wrth raid,
At Orſedd Gras y dof am blaid,
Ond pledio haeddiant ofer im,
I ti nid yw 'm daioni ddim.

2 Addefais lawer gwaith yn brudd,
Mor wag, mor dlawd wyf; a di-ſudd;
Ni all fy mawl chwanegu 'th Fri,
D' Ogoniant, na'th Ddedwyddwch di.

3 Ond etto 'th Saint all gael lleſâd,
Oddi wrth fy Na, a'm rhoddion rhad:
Hwy yw nghymdeithias i'n y Bŷd,
Hwy yw nghyfeillion goreu i gyd.

4 Dewiſed eraill ger eu bron,
I fiaſu 'u gwin, gellweirwyr llon:
Mi garaf wyr o neſol ryw,
Sy 'n meddu Dawn a Delw Duw.

S A L M XVI. Yr ail Ran, Meſur hir.

Holl ddigonedd Criſt.

1 O C H gynted y daw ing a' gwae,
I'r rhai a geiſiant dduwiau gau:
Ni phrofa 'u haberth byth, trwy Ras
Na 'u hoffrwm gwaharddedig câs.

2 Gwell Cwppan a ddarparodd Duw,
Ac amgen Fwyd im' arno fyw:

Ei

Ei anwyl Fab offrymai 'n ffri
Yn Aberth dros fy mywyd i.

3 Ei Gariad yw 'ngwaſtadol wledd;
Byth moler fy Arglwydd am ei hedd;
Mae 'n fy nghynghori 'r hyd y dydd;
A'r nos, f' addyſgu 'n felus bydd.

4 O'm blaen yn waſtad rhois fy Nuw,
Ar fy neheu-law parod yw
I gadw f' enaid rhag pob braw,
A byth f' ymddiffyn yma a thraw.

SALM XVI. Y drydedd Ran Meſur hir.

Calondid yn Angau, a Gobaith o'r Adgyfodiad

TR'O Duw ger llaw mae 'm ffydd yn gref
Fy nghynnal mae 'i Fraich rymmus ef:
Fy nghalon can a llawenhâ,
Fy nghnawd a drig mewn gobaith da.

2 Er rhoi fy mhen dan ddaear ddu,
Ni edy Duw mo'm henaid cu
I aros gyd a'r meirw oll;
Na llwch ei blant i fyn'd ar goll.

3 Fy nghnawd, pan alwech yn y ſan,
A gwyd o lwch y bedd i'r lan:
Arweini fi, trwy 'r nefol len
I'th Orſedd bur ſydd fry uwch ben.

4 Mae yno ffrydiau per eu blas,
I datguddiadau llawn o'th ras:
O rhai 'n ni chawſom yma ond rhan,
Maent yno 'n llawenhau 'r holl ſan.

SALM VI. 1——8. Y rhan gyntaf. Meſur cyffredin.

Ymbaliaith a Chyngor oddiwrth Dduw, *heb eu haeddu.*

DUW, rhag pob gelyn gwered fi,
Rhois ynot ti f' ymddiried:

Er nad yw 'm da yn haeddu dim
O'th Ffafor i'm ('rwy 'n gweled.)

2 Ond os Duw 'eſtyn f' einioes ferr,
Gall hyn fod er daioni:
I'r Saint, tylyſau 'r ddaear hon,
Y dŷmion wyf yn hoffi.

3 Gadewch i'r di-gred fyn'd heb oed
I 'ddoli coed a meini:
Fy nghoelbren i ſyrthiedig yw
Lle mae am Dduw oleuni.

4 Ei Law a ddarpar im' fwrdd llawn,
A chwppan cyflawn beunydd:
'R wy 'n toddlon i'r preſennol dda,
Ond gwell ddiſgwylia 'i ryw-ddŷdd.

5 Fy rhan a'm cyfur i yw Duw;
Ei Air ef yw 'ngoleuni:
Rhydd gyngor melus im' y dŷdd
A'r nos y bydd i'm dyſgu.

6 Dymunwn roi 'meddyliau 'n rhwydd,
Oll yn ei wydd, heb ddichell:
Nid angau prudd am dŷd mewn braw,
Tra bo ger llaw 'r fath gyfell.

SALM XVI. Yr ail ran. Meſur cy
Merwolaeth ac Adgyfodiad Criſt.

1 "GOſodais f' *Arglwydd* ger fy mro
"Mae 'n dal fy nghalon 'fynu:
" Fy nghnawd a drig mewn gobaith llaw
" 'R wy 'n llawen iawn am hynny.

2 " Ni edy 'r Jôn mo 'm hyſpryd byth
" I drigo 'mhlith y meirw:
" Na'm corph i aros yſi y bedd,
" I weled llygredd hwnnw.

3 " Datguddi ffordd y bywyd fry,
" Gan fy nyrchafu i'th Orſedd:

"Lle mae hyfrydwch ger dy fron,
"Llawenydd llon heb ddiwedd.

4 Fel hyn, yn Enw Criſt, trwy ffŷdd,
Y Prophwyd Dafydd, canodd:
A'i Brophwydoliaeth e'n ddi lai
Rhagluniaeth a'i cyflawnodd.

5 *Jeſu*, oedd Seintiau 'n garu, a gadd,
Ei hoelio 'i ladd, a'i gladdu:
A'r bedd rhoes 'fynu Gorph Mab Duw;
Ac wele, byw yw 'r *Jeſu*,

6 Pa bryd y caiff fy enaid fyn'd
I'r Nefol Fryn trag'wyddol:
Criſt ar Ddeheulaw Duw ſy fry;
A'r Tad yn gwenu 'n ſiriol.

SALM XVII. Adn. 13. Meſur cyff. *Rhan* Saint *a Phechaduriaid*; *neu*, *Obaith ac Anobaith yn Angau.*

1 DUW, cyfod gyrr i ffoi ar frys
Y rhai drygionus anfad:
Nid ynt ond gwialen Gerydd frau
I yrru 'th Seintiau attad.

2 Wele 'r pechadur marw 'wna,
Er maint ei dda a'i feddiannau:
Mae 'n cael ei wynfyd yma i gŷd;
Tu draw i'r bŷd, mae 'i boenau.

3 Gadewch i hwn falchio 'n fawr.
A boſtio 'i ddirfawr dryſor:
Duw yw fy etifeddiaeth wych,
Nis gallaf chwennych rhagor.

4 Caf etto weled Duw a'i Wedd
Mewn cyflawn hedd a chariad:
bod yn gyfion ger ei fron,
Trwy Waed fy nghyfion geidwad.

5 Caf nefoedd newydd yn fy rhan,
O angau pan fwy 'n deffro :
'A'm gwiſgo a Delw *Criſt* ei hun,
A byw heb derfyn yno.

SALM XVII. Meſur hir.

1 DUW, d'eiddo wyf; ond profi di
F' amynedd, ffydd, a'm cariad i :
Os dynion drwg im herbyn ddaw,
Hwynt hwy yw 'r cleddyf ti biau 'r llaw

2 Mae 'u gobaith a'ù 'tiſeddiaeth hwy
Yn hyn o fyd, ni cheiſiant fwy:
Mwynhant eu rhan o hwn tra 'bont ;
A'r gweddill rhwng eu plant a ro'nt.

3 Eu tryſor a ddibriſiaf fi ;
Duw, digon im' dy feddu di
Caf wel'd dy Wyneb hyfryd llon,
Mewn pur gyfiawnder ger dy fron.

4 Y bywyd hwn fydd freuddwyd brau ;
I fyd o fylwedd 'r wy 'n neſau :
Law enydd purach yno fy'
Pa bryd dihuna' i gael bod fry.

5 O ddedwydd awr! O drigfan wiw?
Caf fod gerllaw, ac fel fy Nuw
Pechod a chnawd ni rwyſtrant hwy
Ddiddanwch Sanctaidd f' enaid mwy.

6 Fy nghnawd a gwſg yn llwch y llawr,
Nes clywed ſain yr Udgorn mawr,
Yna fe gwyd mewn melus hedd,
Ar ddelw Mhrynwr fynu o'r Bedd.

SALM XVIII. Y rhan gyntaf, Meſur hir. Adn. 1——6, 15——18. *Ynwared o Awchaith* ; neu, *Orchfygu Profedigaethau.*

TYDI a geraf, Arglwydd nef,
Fy Nghraig, fy Nhŵr, fy noddfa gref

Rhof

Rhof ar d' alluog Fraich fy mhwys
Trwy hon ces Jachawdwriaeth ddwys.

2 Angau a dychrynfeydd y bedd
Amgylchent fi mewn erchyll wedd:
A'r lliſ o demtaſiynau mawr,
Nes ſoddi f' enaid gwan i lawr.

3 Mi welais byrth uffernol ffau,
Lle mae wylofain byth a gwae:
Ni ddichon neb dd'w'dyd doſted yw,
Ond y damnedig ſ' yno 'n byw.

4 Yn fy nghyſyngder gelwais Dduw;
Braidd gall'ſwn dd'we'yd, fy eiddo yw;
Goſtyngai Gluſt i wrando 'm cwyn,
A'i Ras 'mlygodd imi 'n fwyn.

5 (Mewn brys i'm cadw 'hedeg 'wnaeth;
Fel ar adenydd Cerub daeth
Fel mellten, diſglair iawn a ſyn,
Oedd gwedd f' Achubŵr, Duw bryd hyn.

6 Profedigaethau ffoiſant 'ffwrdd,
Pan ddaeth ei gerydd ef i'w cŵrdd:
Anfonodd Jachawdwriaeth 'lawr.
A chododd fi o'r dyfnder mawr.

7 Gelynion aml, a mawr eu grym,
A mwy eu llid, oedd imi 'n llym:
Ond Criſt ſy 'n dwyn y dŷdd heb goll,
Ar ddiafol a'i fyddinoedd oll.

8 Fy nghan a gaiff adgoffa o hyd,
Fy ngwaredigaeth hyn o bryd;
A rhoi 'r Gogoniant, teilwng yw
I allu a thrugaredd Duw.

SALM XVIII. Yr ail Ran, Meſ. hir.
Proſi diragrithriwydd, a'i wobrwyo.

DI dwyll yw f' enaid, gwel o Dduw!
Dy Wir a'th Gariad amlwg yw:

o'm

O'm blaen y rhois dy ddeddfau di ;
Arddelaiſt f' achos cyfiawn i.

2 Er pan adnabum dy ffyrdd glan
Yn uniawn rhodiais i o'th fla'n ;
Neu os fy nhraed erioed a drodd,
Nid o ddim bwriad, nag o'm bodd.

3 Pa demtaſiynau i'm blino ſydd !
Pa ryfel yn ſy nghalon brudd !
Ond trwy dy ras o'm mewn y ſy
'R wy 'n cadw rhag fy mhechod cu.

4 Y pechod ſy 'n f' amgylchu o hyd,
Gan weithio 'n erbyn fy holl fryd ;
Pa bryd y daw dy allu mawr
I lwyr ddiniſtrio hwn i lawr ?

5 (A llaw ddi-duedd y mae Duw.
Yn gwabro pawb o ddynol-ryw :
Eneidiau ffyddlon cant eu dwyn,
I wel'd Duw 'n ffyddlon ac yn ſwyn.

6 Y pur a'r cyfiawn d'wedant mwy
Cyfiawnach, purach wyt na hwy :
Ac ymddialwyr cant (gwir yw)
Wel'd braich o 'mddial drom gan Dduw.)

SALM XVIII. Y drydedd ran.

Adn. 30, 31, 34. 35, 46, &c. Meſur hir. *Llawenhau yn* Nuw ; neu *Jachawdwriaeth a Gorfoledd.*

CYfiawn yw 'th Ffyrdd, a'th air ſy wir
Craig fawr, fy nïogel drigfan hir :
Pwy ſydd yn Dduw heb law ty di ;
Neu 'n Noddfa debig i'n Duw ni ?

2 Efe 'm gwregyſodd I a'i Rym,
A'i Gleddyf ſanctaidd rhoddes ym :
Tr'wy 'n ymladd a gelynion f' oes,
O'm cylch ei darian iechyd rhoes.

Byw

3 Byw ydyw ef' (bendithier Duw)
Sef Craig fy Jachawdwrieth yw;
Fe dorrodd amcan Uffern ddu,
Rhoes felus hedd i'm henaid cu.

4 O flaen gwatwarwyr yr oes hon
Dyrchafaf Enw 'Nhad yn llon:
Ni chrynaf er eu dirfawr lid,
Ond dygaf W'radwydd yn ddi-wrid.

5 I *Ddafydd* a'i frenhinol had
Hyd byth ymeſtyn dy Ras rhad;
Dy Gariad di yng *Nhriſt* i'th Saint,
Mawr ac anfeidrol yw ei faint

SALM XVIII. Y Rhan gyntaf. Meſ. cyff. *Buddugoliaeth a gorfoledd ar Elynion Tymhorol.*

1 NI 'th garwn, Arglwydd, cadarn wyd
Dy Fraich ddatguddiwyd allan:
Ein Nerth, ein Hamddiffynfa ſiwr,
Ein huchel Dŵr, a'n tarian.

2 I'n Craig drag'wyddol ffoi a wnawn,
Cawn ſicir lawn ddiffynfa
A thynnwn Jachawdwriaeth gref,
O'i Enw ete' *Y EHOFA.*

3 Mewn Arfau pan ddiſgleirio Duw,
Pa Galon fyw all odde'?
Ei uchel ſŵn, a lluched ſynn
Ei waywffyn a'i ſaethe!

4 Mae 'n marchog ar adeinog wynt,
Angylion ynt yn gweini,
Fyrddiynau, i wneud ei 'Wyllys glân,
Fel fflamiau tan mor heini.

5 Ac wrth ei gerydd ef ar g'oedd,
Byddinoedd a lewygant
Ei Lais a'i 'drychiad llidiog llym
A dery 'u grym yn fethiant.

Mae

6 Mae 'n rhoi i'n tywyſogion llu
Wroldeb hy a meder:
A'i Cleddyf mawr ofnadwy pur,
A chalon ddur i'w arfer.

7 (Efe i'r gad 'arfoga 'n gwyr,
Er yr anghofir yno:
Gwregyſodd *Cyrus* fawr a'i rym,
Na 'dwaenai ddim o hono.

8 Er mwyn ei eglwys, 'darfu i Dduw
Fendithio amryw bobloedd:
Pwerau ſy 'n rhoi hedd i'w blant,
Eu cadw cant o'r nefoedd.)

SALM XVIII. Yr ail ran
Meſur cyffredin. *Can y Gorchfygwr.*

1 DY Hollalluog Fraich ein *JOR*
A biau 'r Oruchafiaeth:
Dy fraw a ddeil y gelyn llym,
Nes toddo 'i rym ef ymaith.

2 Trwy 'th gymmorth di y meudda 'n gwyr
Eu gwrthwynebwyr erchyll;
Lloſgi eu llongau, torri 'lawr
Eu huchel goſtfawr geſtyll.

3 O fel yr ymlidiaſom hwy!
I lawr fwy fwy fe 'u ſathred;
Tra cadwai 'th darian lechyd ni,
Hwynt hwy oedd ddi-ymwared.

4 Nid gwiw oedd gwaeddi ar eilun ſaint,
Can's trengu wnaent yn ebrwydd:
Pa le mae craig mor fawr, mor gref,
Ag ydyw ef, ein Harglwydd?

5 Craig *Iſrael* lan byth a fydd byw,
Ei Enw gwiw molianner,
Ei Fraich ſy 'n rhoi i'w bobl y dŷdd,
A llonydd ac eſmwythder.

6 Brenhinoedd 'nawr fel *Dafydd* gynt,
DUW arnynt rhydd Fendithion:
A'u hurddas 'fe 'i ficrha i'w had,
A deil heb frad y goron.

SALM XXI. Y Rhan gyntaf.
Meſur cyffredin *Llyfr Natur, a'r Yſgrythyr.*
Ar Foreu-ddŷdd yr ARGLWYDD

1 WEE E' yr wybren uchel yw,
Gogoniant Duw mai 'n ddatgan;
A'i holl ſerennog waith ſy fry,
Yn traethu 'i Allu allan.

2 Y t'w'llwch a'r goleuni glan,
A gadwan' eu hamſerau:
A nos i ddŷdd. a dŷdd i nos,
Sy 'n dangos nefol werſau.

3 Ymhob rhwy dalaith trwy 'r holl dîr
Adwaenir eu lleferydd;
Dangoſant dreſn ei Orſedd draw,
Gwaith rhyfedd Llaw ein Llywydd.

4 Holl ynys *Brydain*, llawenha;
Ei Air ſydd yma 'n barod:
Nid wrth lais natur darſu i DDUW
Ein gadel i'w adnabod.

5 Ei Ddeddfau a'i Orch'mynion glân
A roed o flaen ein llygaid:
A'r Fengyl fwyn. lle cawn ni faeth,
A Iachawdwriaeth enaid.

6 Mae 'i Ddeddfau 'n gyfiawn ac yn bur,
A'i Wir yn gywir union;
A'i Addewidion ficir y'nt,
A'i Wobrau ydynt fawrion.

7 Ni ddyru mêl i archwaeth dŷn,
Na dim yr un felufder,
Nag aur a goethwyd lawer gwaith,
I'w olwg, 'chwaith fath hoffder.

Ta

8 Tra byddwyf, canaf am dy waith,
I draethu 'th faith Ogoniant :
Yn Enw Crift fy Mhrynŵr cu,
Duw derbyn di fy moliant.

SALM XIX. Yr ail Ran. meſ. cyff.
Gair Duw *yn dra rhagol* ; neu *ddiaragreith-rwydd a Gwiliadwriaeth.*
Ar Foreu-ddydd yr Arglwydd.

WELE, yr haul cyfodi 'wna,
I ddechreu 'i yrfa heini :
A'i beledr diſglair ant trwy 'r bŷd,
Rhont fywyd a goleuni.

2 Ond 'Fengyl *Criſt* lle ' delo hi,
Rhydd well goleuni i ddynion ;
Bywhau eneidiau meirw bydd,
A'u golwg rhydd i'r deillion.

3 O pa mor berffaith yw dy Air !
A'th Farnau cair yn gofion :
Byth ficir yw d' addewid di,
A'i chredu hi all dynion.

4 A pha mor eglur, Arglwydd mau,
Yw 'th hyfforddiadau cyhoedd :
Byth na ddarllenwyf hwy 'n ddi-les,
Ond bod yn nes i'r nefoedd.

Gorphwyſiad.

5 'R wyf gyda ferch yn gwrando 'th Air,
Am ufuddhau'r wyf iddo :
O anfon d' Yſpryd oddi fry,
I'm tywys i rhag gwyro.

6 O pwy all gwybod yn y bŷd
Y ffyrdd i gyd mae 'n pechu ?
Etto mewn modd rhyfygus hŷ
Ni feiddaſ fi droſeddu.

Rho

7 Rhybyddia ſi o bob rhyw fai,
A maddeu 'r rhai dirgele'dd;
Glanha ſy enaid, euog yw,
Mawr ydyw ei anwiredd.

8 Yna caf draethu maes dy Glod
A'm tafod ac a'm Calon;
Fy Nuw, fy Nghraig a'm prynwr glan,
I'm gwaith a'm cân fydd boddlon.

SALM XIX. Meſur hir.

Cynmaru Llyfr Natur a'r Yſgrythur neu Ogoniant a lluyddiant yr Efengyl.

1 MYNEGA 'r Nef d' ogoniant Ner,
A'th ddoeth-waith ſy wel'd yn y ſer
Ond pan edrychom yn dy air,
Datguddiad gwell o honot cair.

2 Yr Haul, a'r Lloer, a nos a dydd,
Sy 'n dangos d' allu mawr heb gudd;
Ond 'ſgrythur lan a ddyd i ma's
Dy bur Gyfiawnder di a'th Ras.

3 Haul Lloer a Ser ſy 'n dwyn o hyd
Dy fawl o amgylch yr holl fŷd,
Ac felly 'th air wrth ddechreu 'i hynt,
Twynnodd ar bob tiroedd gynt.

4 A'th Fengyl ni chaiff orphwys 'chwaith,
Nes rhedeg trwy 'r holl Ddaear faith:
A galw o *Grift* bob rhai er lles,
Sy 'n gweld yr Haul neu 'n teimlo 'i wres.

5 Haul y Cyfiawnder c'od yn awr,
Bendithia 'r Bŷd a'th lewyrch mawr,
Dy 'fengyl ddyd y ffôl yn ddoeth,
Mae 'th farnau 'n iawn a'th ddeddfau 'n goeth

6 Yn hon y gwelwn d' wyrthiau gwiw,
Yn gwneud eneidiau meirw 'n fyw:
Bywha ſy enaid maddeu 'm drwg,
A mi, a'th Air i'r Nefoedd dwg.

SALM XIX. ar ſeſur *ſalm* 113.

Llyfr natur a'r Yſgrythur.

1 DUW mawr, mae dull y neſoedd fry
Yn datgan clod dy enw cu;
Yno diſgleiria 'th ryfedd waith:
Miloedd o ſer llewyrchog llawn,
Miloedd o nodau eglur iawn,
O'th allu a'th ddoethineb maith.

2 O nos i ddŷdd, o ddŷdd i nos,
Y wawr a'r hwyr ſydd (ym mhob o's,)
Yn dangos nefol werſi maith:
Yn ddiſtaw dyſgant i ny-ni
I ſoli ein Creawdwr fry,
Heb lafar nac ymadrodd 'chwaith.

3 Ac etto 'u nefol addyſg rhed,
Mor bell a theithiau 'r Haul ar lled,
A'u llais a edwyn Pobloedd bŷd;
Yr Haul fel hardd Briod-fab ddaw,
O 'ſtefyll pell y Dwyrain draw,
A'r ddaear mae 'n ei lonni o hyd.

4 P'le bynna tanno 'i hyfryd * Wawl
A'i Wres, mae 'n rhoi i'w Grewr fawl:
Holl Natur ddyd dy Glod i ma's:
Ym mhob Creadur gwelir Duw;
Yn Llyfyr natur eglur yw,
Mwy eglur etto 'n Llyfyr Gras.

Gorphwyſiad.

5 'R wy 'n hoffi Llyfrau 'th hyfryd air,
Goleuni a chyſur yno gair
I'r enaid blin mewn t'w'llwch ſydd;
D' Orchymmyn ſy hyfforddi mae,
Dy ofn a'm gwardd o'r llwybrau gau,
Dy addewid lonna' nghalon brudd,

6 O ddatguddiadau 'th Gyfraith dda,
Rheolau pur o fywyd ca';

* *Goleuni.* Fy

Fy hoffder a'm myfyrdod yn',
Nid ydyw mel o gyſtal Blas,
Na 'r aur o'r ffwrnais ddaeth i ma's
Mor hyfryd 'chwaith i olwg dŷn.

7 Mae dy fygwthion i'm deffroi,
A Rhybydd rhag y drwg i ffoi;
Ond dy fendigaid Fengyl di
Lânha 'nghydwybod a Gwaed *Criſt*,
Try ſ' enaid, tynn ſ' euogrwydd triſt,
Rhydd Wobor rad, ond mawr fydd hi.

8 Ei holl gamweddau pwy a'u gwyr?
Duw, maddeu nirgel feiau 'n llwyr,
Rhag rhai rhyfygus cadw 'th Wâs:
Derbyn fy nheyrnged dlawd o glod
Na chefais i yn ddi-les fod,
Wrth wrando a darllen llyfyr Gras.

S A L M XX. Meſur cyffredin.
Gweddi a gobaith o fyddugoliaeth Ar ddydd o Weddi yn amſer Rhyfel.

YN awr Duw, 'r Gras a'r Nerth o'r nef
Fo 'n gwrando llef ei bobol,
Clyw 'r Arglwydd *Iſrael* pan fo gaeth,
Rhydd Waredigaeth raſol.

2 Enw Duw *Jago* wna well lles
Na Muriau pres i'n cadw;
Fe enfyn borth o'i ſanctaidd Fan,
I Seïon pan fo i'n galw.

3 Fe glyw ein holl ochneidiau o bell,
Mae 'i Ras yn well na 'n haeddiant;
Fe dderbyn aberth drylliog fron,
A'r Weddi fo 'n ddi-ffuant.

4 Mae 'n ffydd yn lechydwriaeth Duw,
Ac yn ei Enw 'n ddiau,
Ein llu cant godi banner hy,
A'n Llongau ledu Hwylau.

Rhai yn eu Meirch hyderu wnant,
Rhai foſtiant eu Cerbydau ;
Oddi wrth Dduw 'r lluoedd yn ddi-wâd
Mae 'n holl ddiſgwyliad ninnau.

6 O bydded coſ o'th Enw eu,
Yn gwneud ein llu yn lewion !
A'n holl elynion meirw cant,
Neu gilio wnant heb galon.

7 Duw, gwared ni rhag ofnau caeth,
A bid ein gobaith nerthol,
Nis gwnelo 'th lechydwriaeth glau,
I'n lawenhau a'th ganmol.

SALM XXI. Meſur cyffredin.
Ein Brenhin *yw Goſal y Nef.*

1 O Arglwydd, yn dy Nerth a'th Rin
Y Brenhin llawenyched ;
Ac am dy lechydwriaeth gref
Dy fawl hyd nef dyrchafed.

2 Dy noddèd ſiccir trwy holl gred,
A roes ar lled ei fawredd ;
A'i Waith a lwyddaiſt ti mor dda
Goronwyd â chlodforedd.

3 Am hyn diſgwyled am dy borth
A'th gymmorth bob amſerau ;
Dy law a ddeil ei Orſedd lân,
Ac a ddiwalla n heiſiau.

4 Ond dy Elynion cyndyn cant
Deimlo dy ſorriant arnynt
Dy fraich a'm ddial ar y rhai
Sydd yn caſau d' orchymmyn.

5 Pan lidiech yn eu herbyn hwy,
Dŷ farn ofnadwy gyfion
Fel tanllyd ffwrn a'i hyſa 'n glau,
Ynghyd a'u gau obeithio n.

ſalm

SALM XXI. Meſur newydd deg a deg
Criſt *wedi ei ddyrchafu i'r* Frenhiniaeth.

1 *Dafydd* yn Nuw ei nerth, a lawenh'odd
Pan godwyd ef i'r orſeddfaingc ar go'dd
Ond *Criſt* y Mab, un mwy, o'r diwedd daeth
Cyflawni 'r clod a'r fawr orfoledd wnaeth.

2 Gorfoledd y *Meſſiah* 'n ddirfawr ſy'
Yn Iechydwriaeth dy ddeheulaw gu;
Ei deyrnas, Arglwydd, codaiſt fynu 'n gref,
A rhoiſt y Bŷd dan ei Lywodraeth ef.

3 Beth bynna gais, ti caniattau o'r nef
Heb attal un dymuniad iddo ef;
Bendithion cariad gyd ag ef y gair,
A ch'ronau pur o Ogoniant nid o aur.

4 Anrhydedd a Mawrhydi dwyfol ſy
'N dlſgleirio nghylch ei ſanctaidd ben ef fry
Bendithiwyd ef â llewyrch Wyneb Duw,
Ac einioes hir o fythol ddyddiau i fyw.

5 Dy Law ei holl elynion allan myn;
Ac megis tanllyd ffwrn fo 'n poethi 'n wyn
Gan Angerdd gwres a marwor tanllyd byw,
Fel hyn difair hwy gan ddigofaint Duw.

SALM XXII. Ad. 1——19 y rhan gyntaf, meſur cyffredin.
Dioddefiadau a Marwolaeth Criſt.

1 FY Nuw, pa ham i'm gadodd heb
Un Wen o'i Wyneb hoyw?
Fel hyn mewn Ing gwnaeth *Dafydd* gwyn,
A'n Harglwydd mwyn wrth farw.

2 Er bod d' hyfrydwch mwya 'i faint
Ymhlith dy ſaint a'th folant;
Gwrandewi gwyn cyſtuddiol rai,
A thrugarhai pan lefant.

3 Ein Tadau ynnot rhoiſant gred,
A mawr ymwared cawſant :
Ond minneu pryf dirmygus wy'
Gan ddynion, hwy a'm ſathrant.

4 Dan yſgwyd pen ant heibio ym,
A'm gwawdio 'n llym eu dirmyg,
" *Dweyd credu 'n ofer mae yn Nuw.*
" *Di gariad yw ac unig.*

5 Ond ti a'm ffurſiodd yn y bru,
A'th air a'th allu hynod,
Ac er pan fum i ar y fron,
Fy Ngobaith llon ſydd ynnod.

6 Dad, pa'm y cuddi d' wyneb cu,
A'm câs o ddautu 'n bentwr ;
Mewn tywyll awr gyfynga o f' oes
Y pryd nad oes gwaredwr.

Gerphwſiad.

7 Wele dy anwyl Fab ymmyſg
Y beilch a'u terfyſg dirfawr ;
Fel Teirw *Baſan* yw eu grym,
Fel llewod llym rhuad-fawr.

8 Goſydiau o'r bŷd ac uffern ſy
Yn cyd lioſi 'm loeſon
Fy rhraed a'm dwylo 'u hoelio wnaent,
Am ſlino maent fy Nghalon.

9 Os caiff y bŷd ac uffern a'u
Cynddaredd arna 'i mddial :
Ond pam o Dâd y drylli di
Y Mab y geri cyſtal ?

10 Fy Nuw, fy Nhad, os poſibl yw
Tro 'r cwppan chwerw o'r neilldu
Ond etto gwneler d' 'wllys di,
Mi hyfaf fi ef fynu.

11 Fy Nghalon dawdd gan Loeſau blin,
'R wy 'n treulio 'm ſſun mewn ochau
Dy bwyſig Law a'm dug yn awr
Hyd lwch y llawr ac angau.

12 I ſynu o Dâd i'tn ddwylaw di
Y rhoddaf fi fy Yſpryd;
Fy Nghnawd mewn gobaith drig bryd hyn,
Ac with d' orchymmyn cyfyd.

SALM XXII. Adn. 20. 21. 27 31.
Yr ail ran Meſur cyffredin.
Dioddefiadau a Theyrnas Criſt.

1 O *Arglwydd cadw 'th Fab yn awr*
" *Rhag y llaw mawr i'm llyngcu.*
" *Nad im' fy hun ymdrechu a grym*
" *Ellyllon llym y fagddu.*

2 Fel hyn gweddiei 'n Prynwr cu,
A llefain cry a dagrau:
Duw, y dydd hwnnw clybu 'i lef,
Gwaredodd ef o'i ofnau.

3 Yn angau gwnaeth Or'chafiaeth, gre,
I'r orſedd fe aeth fyntu,
A rhaid i genhedlaethau 'r byd
'Addoli gyd neu drengu.

4 O'i farwol boenau ef a'i Wa'd
Y cyfyd had afrifed:
A hwy gyfrifir ger ei fron
Yn feibion ac yn ferched.

5 Eneidiau addfwyn iſel gwael
Rai fydd am gael yr Arglwydd,
Diwellir hwynt ar fwrdd eu Duw,
A byddant fyw 'n dragywydd.

6 Adnabod caiff ynyſoedd pell
Gyfiawnder gwell y *Jeſu*;

A Jechydwriaeth yn ei Wa'd,
Caiſt etto 'r had ſ' heb eni.

SALM XXII. meſur hir.
Dioddefiadau a Marwolaeth Criſt.

1 COFFAWN a chân alarus driſt,
Am farwol boenau 'n Harglwydd *Criſt*
Pan gwynodd ef mewn dagrau a gwa'd
Fel un adawd gan Dduw ei Dad.

2 *Juddewon* pan oedd ar y Pren
Gwawdiaſant ef gan yſgwyd pen;
" Fe gadwodd eraill rhag y bedd,
" *A*chubed 'n awr ei hun un-wedd.

3 "On'd hwn yw 'r dyn fu 'n dweyd heb wad
" Duw oedd ei gyfaill ef a'i Dâd;
" Os carodd Duw efe mor fawr,
" Pa ham mae 'n pallu 'i helpu 'n awr?

4 Y Bobl a'r 'ffeiriaid diriaid oedd
O'i amgylch ef mewn erchyll fodd;
Fel Llewod am ei larpio 'n llym,
Pan ga's ei adel dan eu grym.

5 Clwyfent ei ben, ddwy-law a'i draed:
Nes cwrdd a'i gilydd ffrydiau Gwaed,
Wrth goelbren rhannent ddillad *Criſt*,
A gwawdient boen ei angau triſt.

6 Ond Duw a'i clybu, cododd ef,
O'r bedd, teyrnaſu mae 'n y nef:
Dyſg pobloedd ei gyfiawnder gwiw,
A'r enaid tlawd a brawſ Ras Duw,

SALM XXIII. Meſur hir.
DUW ein Bugail

YR Arglwydd yw fy mugail da,
Cyflawni fy holl Eiſiau wna:
Ei air a'i Ragluniaethau glan
Fy nhywys a'm diogelu wnan'

mewn

2 Mewn iach Borfaydd rai breiſion braf
Ymborthi ac ymorphwys gaf;
Yno mae 'r Dyfroedd tawel byw
A'r Bwydydd oll dan Fendith Duw.

3 O'i ffyrdd os Crwydraf, mewn un wedd
Fe ddychwel f' Enaid etto i Hedd;
Ac o'i Drugaredd dwg fi i Dîr
A llwybrau hardd Cyfiawnder pur.

4 Er rhodio 'r Dyffryn du, lle mae
Marwolaeth a'i holl ddychrynfau?
Ni phall fy nghalon i na'm ffydd,
Cans Duw fy Mugail yno fydd.

5 Mewn Trallod a thywyllwch ti
Yw'm Cyſur a'm Cynhaliwr i
I'm dal mae ffon d' addewid lân.
A'th wialen i'm cyfrwyddo 'mla'n.

6 Mae Plant y Byd ac Uffern gas
Yn grwgnach weld fy mwrdd yn fras;
Tydi a'th Gariad wedi ei drin
A bywyol Fara a Sirlol Win.

7 Mor llawen wyf, pan ddel o'r Nen
D' yſpryd i orphwys ar fy Mhen,
Fel Olew tywalltedig bydd,
Yn llawenhau fy Enaid prudd.

8 Trugaredd a Daioni Duw
Fydd gyd a'i Bobol tra font byw:
Yno i wrando 'i air caf fod,
A chofio i Wyneb canu ei Glod.

SALM XXIII. Meſur Cyffredin.

1 FY Mugail fy niwallu wna,
JEHOFA yw ei Enw:
Mewn Porfa fras ymborthi caf,
Ar lann Dw'r araf gloyw,

2 Pan fyddwy 'n gado 'r ffordd [fel ffol]
Fe ddwg yn ôl fy yſpryd;

Er

Er mwyn ei Enw f' arwain mae
Yn union Lwybrau 'r Bywyd.

3 Pan rodiwyf Gyfgod Angeu du
Dy Wyneb cu yw'm Gobaith :
Un Gair o'th Enau i'm cryfhau
A ŷrr fy ofnau ymaith.

4 A'th Law yngolwg fy holl gas,
Fy mwrdd yn fras arlwyaift ;
Rhoift imi Gwppan llawn dros ben
Ac Olew, mhen Enneinia ft.

5 Bydd arlwyadau Bwrdd fy Nuw
Tra fyddwy'i byw i'm gweini :
A'th Dŷ fo 'n Drigfan im 'o hyd
A'm gwaith i gyd dy Foli.

6 Dymuno gorphwys yno 'r wy,
Nid bod yn trammwy weithie,
fel gweftwr neu fel dieithr ddŷn
Ond megis Plentyn gartre.

SALM XXIII. Meſur cyff
neu fe ellir ei chanu ar feſur byrr wrt
allan y Gair neu 'r geiriau fy rhwng
fachau megis y rhai'n ( )

1 FY Mugail (dyfal) yw Duw
Fe edrych ef am danaf
Fy Eiddo yw, a'i Eiddo wyf,
Pa Eifiau mwy fydd arnaf ?

2 Fe'm dwg i'r lleoedd (tirion) da
Lle cyf y Borfa nefol ;
Lle llifa Iechydwriaeth lawn,
A'r Dyfroedd rhadlawn bywiol.

3 Od af o'i ffyrdd fel (Dafad) ffol,
Fy Enaid 'n ol a eilw ;
Ac arwain fi yn llwybrau 'r prai
Er mwyn ei Sanctaidd Enw.

Tra rhoddo (ef ei) Gymmorth im'
Nid allaf ddim arſwydo;
Fe myna trwy gyſgod Angau, ca'
Fy mugail da i'm gwilio.

Er gwaetha (malais) fy holl gâs
Fy mwrdd yn fras goſodaiſt;
O'th Fendith llawn yw 'm phiol hon,
A mhen l'n llon dyrchefaiſt.

Haelioni 'th (Ras a'th) Gariad di
A gaiff coroni nyddiau:
I'th Dy 'n waſtadol mynnaf fod,
I draethu th glod a'th Wyrthiau.

SALM XXIV. Meſur Cyffredin.

Preſwylio gyda DUW.

Y Ddaear eiddo 'r Arglwydd yw,
Hil Adda, pob rhyw bobloedd;
Seilfaenodd hon goruwch y lli'
Cyſododd hi uwch moroedd.

Ond pwy o ddynol-ryw a wêl
Le tawel dy *Sanctei*ddrwydd?
Un a llaw lan, a chalon bur
Fo'n gywyr gyd a'r Arglwydd.

Hwn yw y Dyn all godi a chael
Fendithion hael dy ddwylo;
Rhan ſawl a geiſiant (hôn yw hi)
Dy Wyneb di, Duw, *Jago*.

Partown ein Henaid 'n awr yn rhwydd,
I gwrdd a'r Arglwydd deuwch;
Brenhin Gogoniant ſy 'n neſau,
Dragwyddol ddorau agorwch.

Brenhin Gogoniant pwy a all
Ei nerth a'i ddeall ddatgan
Mae 'n llywio 'r Byd, ond gyda 'i Saint
Ie bynna maent mae 'i drigfan.

Slm

SALM XXIV. Mesur hir.

y Saint a bresswyliant yn y Nef. neu Esgyniad Crist.

1 Y Ddaear oll sydd eiddo Duw,
A phob creadur s' arni 'n byw;
Cyfododd hon uwch môr a lli'
A thrigfan iddynt rhoddodd 'hi-

2 Ond Byd mwy disglair, Arglwydd sy,
Uwch wybren mae th Frenhinllys fry:
Pwy esgyn i'r fan hyfryd hon,
I fyw yn ddedwydd ger dy fron?

3 Un a Llaw lân, a meddwl da,
Casau ac ofni pechu wna,
Hwn a fendithia *Grist* ein Duw,
A gwisg ef a'i Gyfiawnder gwiw.

4 Y rhai'n yw 'r dynion duwiol ryw,
Fel *Jacob*, ceisiant Wyneb Duw:
Yr olwg hyfryd hon fwynhant,
A thrigo ngwlad Goleuni cant.

Gorphwysiad

1 Boed yr holl nefodd lawenhau
Brenhin Gogoniant sy'n nesau;
Brenhin Gogoniant, pwy yw ef?
Ein Prynwr yw, Mâb Duw o'r Nef.

2 *A*gorwch nefol Byrth ar lled
Gwnewch ffordd i'n Prynwr Brenhin cred
Cwngcwerwr angau ac uffern yw,
Mae 'n d'od a'i yspail fynu at Dduw.

O'r Bedd cyfododd. mynd mae ef,
O'r blaen i agor Drws y Nef,
I roi iw *Saint* drigfannau i fyw
Ger bron eu Prynwr mwyn a'n Duw.

SAL

SALM XXV. Adn. 1. 11.

Y rhan gyntaf, Meſur cyffredin,
Diſgwyl am bärdwn a chyſarwyddyd.

1 DYrchafaf f' enaid at fy Nuw ;
Fy nghobaith yw 'n yr Arglwydd:
Na chaffed fy ngelynol Rai
Byth lawenhau 'n fy ngwradwydd.

2 Pechod a'r holl uffernol Lu,
Sy 'n f' annog i anobaith:
Duw dyſg imi 'th gyfammod clau
I ffoi o'u maglau ymaith.

3 O ddechreu 'r dydd yn fore iawn
Hyd hwyr brydnawn yn fynych ;
Duw, am dy lechydwriaeth rydd
A golwg brudd 'r wy 'n edrych.

4 Duw, dy drugaredd cofia di
Ac arwain fi i'th Wirionedd ;
Maddeu bechodau 'm ieu'ngctid ffol,
A'm holl gamlynol gamwedd,

5 Yr Arglwydd, cyfiawn yw á mwyn ;
Fe ddyſg yr addfwyn llarie'dd
Ac i'r Pechadur iſel gwâr
Fe eglurhâ 'r gwirionedd.

6 Er mwyn ei enw mawr ei fri
Fe 'm gwared i rhag gwradwydd ;
Mae 'n maddeu 'm holl euogrwydd triſt,
Ar gyfri *Criſt* fy Arglwydd.

SALM XXV. Ad. 12. 14 10. 13.

Yr ail Ran Meſur cyffredin *Addyſg dwyfol.*

1 PA le mae 'r dyn ſy 'n ofni Duw,
Gwagelog yw o'i ddigio,
Sy 'n hoffi llais ei 'fengyl lon,
A chredu hon mae efo ;

2 Cyfrinach calon dirion Duw
A gaiff y cyfryw wybod,
A dengys iddo fe 'n ddi-lai
Eu gariad a'i gyfammod.

3 Trugaredd a gwirionedd yw
Y ffyrdd mae Duw yn ymdrin
A'r ſawl wrth ei gyfammod 'ſai,
Gan ufuddhau 'i orchymmyn.

4 Eu Henaid, caiff mewn hawddfyd ſy
Gerbron eu Duw 'n dragwyddol,
A'r addewidion helaeth rhad,
A brawf eu Hâd canlynol.

SALM XXV. 15. 22. Y dryd
Ran Meſur cyffredin. *Cyfyngder Ena*
neu *Wrthgiliad ac ymadawiad.*

MAE 'm llygaid a'm dymuniad rhwy
Byth at yr Arglwydd tirion;
Ymorphwys ar ei air y wna
A phledio 'i addewidion.

2 Tro at fy Enaid i mewn pryd
Dwg imi 'th Iechyd nefol;
Pa bryd y bydd i'th Law ryddhau
Fy nhraed o'r rhwydau marwol.

3 Pa bryd y bydd i'm graſol *JON.*
A'i Râs fy union dywys
A dwyn fy Enaid yn ei ol
O'r llwybrau ffol peryglus.

4 O'm mewn mae blin feddyliau 'n gwa
Ac yn amlhau fy ngoſyd;
Fy Enaid gwan a'm calon gwel,
Sy 'n iſel ac yn nychlyd.

5 Fy ngofyd i bob boreu-ddydd
O newydd ſydd yn dechreu;
Duw, gwel fy mhoen, a'm hing o hyd,
A maddeu i gyd fy meiau.

Gorphwyſiad.

6 Wele yr holl Uffernol Lu,
Eu malais ſy mor greulon;
I'm herbyn i a'm bywyd mae 'u
Digllonedd a'u dichellion.

7 Rhag angau cadw f' Enaid bach,
A'm gobaith na chwilyddier,
Can's rhois yn Enw Mhrynwr eu
(Trwy gredu) f' unig hyder.

8 Mewn ffydd diſgwyliaf etto (er neb)
A'm weld dy Wyneb tyner;
Gwn, na chaiff neb o *Iſrael* Ryw
Byth geiſio Duw yn ofer.

PSALM XXVI. Meſur hir.

Hunan ymholiad neu amlygiadau o wir Ras

1 BArn fi o Dduw! a phrawf beth wy';
F' arennau a'm calon chwilia hwy:
Fy ffydd ar dy addewid rhois,
A'm Traed oddi wrth dy ddeddf ni throis.

2 Cas genni rodio, ac eiſte 'mhlith,
Gwyr gwagedd a chelwyddau chwith:
Y Gwawdiwr a'r Proffeſwr gau
Mae nghluſt a'm golwg yn gaſau.

3 Ym mhlith dy ſaint ymddangos caf,
A golchi Nwylaw 'n ddi-ddrwg wnaf:
Ond pan fwyf wrth dy orſedd di
Gwaed *Criſt* ei hun a blediaf fi.

4 'R wy 'n hoffi 'th demel di, fy Nuw,
Preſwylfa dy ogoniant yw :
Dy ſanctaidd air ei wrando caf
Yn hon, a thraethu 'th wyrthiau wnaf.

5 Pan drengwyf, na ddod ſ' Enaid drud,
Gyd a'r anuwiol drwg eu bryd ;
Gan imi ar y ddaear fyw
Ym mhlith dy ſaint, gerllaw fy Nuw.

SALM XXVII. r. 6. Y rhan gyntaf Meſur cyffredin. *Yr Eglwys yw ein Hyfrydwch a'n diogelwch.*

1 YR Arglwydd, yw ngoleuni i gyd
A'm Iechydwriaeth dirion :
Duw yw fy Nerth, nid ofnaf mwy
Mo 'u gallu hwy ngelynion.

2 Un fraint wy 'n ddeiſyf gennyt ti,
O dyro imi drigfan,
O fewn Eglwyſi 'th Saint i fyw :
Temlau fy Nuw a'i gorlan.

3 Caf yno roi ſ' erfyniau o'th fla'n,
A'th degwch wela 'i 'n waſtad :
Caf geſio a gwrando d' 'wyllys di,
A chennadwri 'th Gariad.

4 Pan ddel Tymheſtloedd (p'le ceir gwell)
Mae yno babell ddirgel,
Lle cuddia Duw ei blant i gyd ;
A'm henaid dyd yn ddiogel.

5 Yn awr y dyrcha mhen yn llon,
Uchlaw ngelynion diffaith
Caf lawenhau 'n ei demel lan,
A ſeinio can o Or'chafiaeth.

SALM XXVII. Ad 8. 9. 13. 14.
Yr ail Ran, Meſur cyffredin. *Gweddi a Gobaith.*

1 MOR gynted, Dad, y d'wedech di
"*Blant ceiſiwch chwi fy Wyneb:*
"*Dy Wyneb ceiſiaf, Arglwydd cu.*
Fy nghalon ſy 'n dy atteb.

2 Na chudd dy Wyneb, Arglwydd da
A'm Henaid na fŵr ymaith:
Fy nghymmorth fuoſt, attad dof
Mewn dŷdd o brofedigaeth.

3 Pe gade 'm ffryns a'm ceraint cu
Fi 'n dlawd i drengu o eiſiau;
Gofalei Nuw am danaf fi
Gan lwyr gyflawni 'm rheidiau.

4 Fy nghnawd gan driſtwch marw wnai
Pe ni chredaſai f' ene'd.
I weld dy ragddarparwch di,
A'm gobaith i ni thwylled.

5 Saint ymwrolwch yn ddi-ſwrth
Diſgwyliwch wrth Dduw 'n waſtad;
Pan ſyrthio 'ch hyſbryd fe 'i cryfha;
Yn amgen na 'ch diſgwyliad.

SALM XXIX. Meſur cyffredin.
Tymheſtl a Tharanau.

1 CHwi blant y cedyrn clodfawr dewch
I'r Arglwydd rhowch ogoniant;
Dyrchefwch allu Brenhin Nef,
Ei Enw ef bia 'r Moliant.

2 Cyhoeddi i allu mawr mae 'n *JOR*,
Dros dir a Mor a'r cyfan;
Ei lais wahana 'r Cwmmwl glaw,
Ar llyched draw fflammychan',

3 Ei lais yrr tymheſtl, cenllyſg, gwynt,
Y coed ar hynt diwreiddiant,
Y Iŵrch a'r Ewig ofnus draw
Gan ſŵn a braw dychlammant.

4 Yn *Liban*, wrth ei lais, Duw mawr,
Y cedrwydd dirfawr drylliant;
Mynyddoedd crynant wrth y trwſt,
Dyffrynnau ar ffrwſt a ruant.

5 Yr Arglwydd byth yn frenhin ſydd
A llywydd a'r lifeiriant;
Ond yn ei Eglwys trig e'n wir
Lle cenir ei ogoniant.

6 Duw yno mewn tawelach Iaith
A draetha 'i faith gyngorion;
Ac yn y ſtorom ei air un-wedd
Sy 'n traethu hedd i'r Criſtion.

SALM XXX. Y rhan gyntaf Meſur hir. *Clefyd wedi ei iachau a thriſtwch wedi ei ſymmyd.*

MI a'th fawrygaf Arglwydd cu,
Pob anhwyl wrth d' Orchymmyn ffy
Pwy all ond Duw lefaru hedd;
Ac achub o gyffiniau 'r bedd.

2 I'r arglwydd cenwch ſaint i gyd
A thraethwch ei ddaioni i'r Byd;
Molwch a phob ſwydd gynneddf gref
Wrth goffa ei ſancteiddrwydd ef.

3 Ni ſaif ei lid ond ennyd frau;
Ei hedd ſy fywyd i barhau;
Er treulio 'r nos mewn triſtwch prudd
Llawenydd ddwg y ſeren ddydd.

SALM XXX. Adn. 6. Yr ail ran
Meſur hir *Iechyd, Clefyd*, a gwellhâd.

1 FY niſglair ddydd tra bu 'n parhau
Yn nos, rhyfygais byth nid ai;
Mi dd'wedais yn fy nghalon fyth
" Ni medy hedd na hawddfyd byth.

2 Ond aeth o'm cof dy fraich ddi-gryd,
A wnaeth i'm Mynydd ſefyll cyd;
Can's man y cuddiaiſt di dy Wedd,
Fe ddarfu 'm Iechyd i a'm hedd.

3 Yn uchel llefais Arglwydd mâd,
Pa fudd a gei oddiwrth fy ngwa'd,
A alla' i 'th foli 'n llwch y llawr
Neu draethu 'th wir a'th gariad mawr.

4 Mi dd'wedais clyw o Dduw y grâs,
Dwg fi o blith y meirw i ma's;
Ceryddodd d' air fy nghyſtydd llym,
A'th bardwn ddugodd heddwch ŷm,

5 Fy nagrau a'm griddfannau o'r bla'n,
Trowd hwy 'n orfoledd ac yn gân:
Mi daflais fy ſachlian lawr,
Ces Wregys o Lawenydd mawr.

6 Fy nhafod tra bo ynof chwyth,
A'm d' Enw mawr ni thaw ef byth;
Caiff ſeinio 'th glod trwy 'r ddae'r a'r nef
Am faddeu mai a gwrando 'm llef.

SALM XXXI. 5, 15. 19. 22. 23.
Y rhan gyntaf. Meſur cyffredin.
Gwaredigaeth rhag angau.

1 O Dduw 'r gwirionedd i'th law di,
Y rhoddaf fi fy Yſpryd,

gwar-

Gwaredaiſt f' enaid i yn lew
Rhag angau a'r pydew enbyd.

2 Fy ofn a'm gobaith ynnof fu
Yn dal i fynu 'mryſſon:
A thriſtwch pechod, poen ynghyd
Am ddwyn fy mywyd gwirion.

3 Llefais, mae f' amſer yn dy law
Er bod gerllaw i'r beddrod,
Fy noddfa wyt, lle 'mguddio wnaf,
A'm Duw, gobeithiaf ynnod.

4 Llewyrcha 'th Wyneb llawn o Ras
'N awr ar dy Was cyſtyddiol;
Er mwyn dy enw achub fi
Can's d' eiddo di wy 'n hollol.

Gorphwyſiad.

5 Fy enaid, d'wedodd yn ei ffrwſt
" *Rhaid marw 'n nrws dï obaith;*
" *Fe 'm torrwyd i a'm bywyd llon*
" *O ger dy fron di ymaith.*

6 Ond ti wrandewaiſt ar fy nghri;
Mawr yw 'th ddaioni tirion,
I'r Rhai ſy 'n ofni d' enw cu,
A chredu 'th addewidion.

7 O cerwch Dduw ei ſaint, (heb gel)
A'i fawl yn uchel cenwch;
Fe wrendy eich achwynion chwi,
A'r beilch cant ddiyſtyrwch.

SALM XXXI. 2d, 7, 13, 18, 21
Yr ail Ran meſur cyffredin.
Ymwared oddi wrth enllib a gwradwydd

1 YN d' enw di y llawenhâf,
Fy Nuw, fy Naf, f' ymddiried,

Rhag

Rhag gwradwydd cedwaiſt fy wyneb i
A'm parch a'm bri heb niwe'd.

2 Mewn gofyd, d'wedwn, treuliais f' oes,
A'm heinioes mewn anghyſur :
Fy nerth a ball, a'm llygaid ſych
A'm cnawd a nych gan ddolur.

3 Ym mhlith fy holl elynion hŷ
Fy enw fu 'n ddiareb ;
Fy nghymmydogion a bellhaent,
Ac a gaſaent fy Wyneb.

4 'R oedd ofn ac enllib o bob tu
Wedi f' amgylchu 'n galed :
At orſedd Gras bu i'm neſau
A chefais glau ymwared.

Gorphwyſiad.

5 Pa waredigaeth fawr oedd hon
O flaen plant dynion gwnaethoſt,
Wefuſau 'r celwydd dewi 'n gaeth,
A diffrwyth aeth eu hymffroſt.

6 Rhag ſen tafodau cuddi 'th blant ;
Hwy gilant i'th ddirgelfa :
Rhag cam a drygair cedwi eu bri,
A' drylli feibion Traha.

7 O fewn dirgelfa d' Wyneb di
Duw gad i mi byth drigo ;
A'th ſaint yn well a geidw hi
Na dinas wedi murio.

PSALM XXXII. Meſur cyffredin.
Pardwn rhad, neu ufudd dod diragrith, neu Gyffes a maddeuant.

1 GWynfŷd y Dŷn i'r hwn ni bo
DUW 'n cyfrif iddo 'i Bechod;

ond

Ond golchi ei Wiſgoedd ef a wnaed
Yn ſanctaidd Waed y Cymmod.

2 A dedwydd Iawn tu hwnt i neb
Yw 'r Enaid heb Euogrwydd:
Sy'n teimlo Heddwch a rhyddhâd
Trwy ffydd yngwa'd ei Arglwydd.

3 Mae 'i yſpryd e'n caſau pob twyll
A'i eiriau 'n ddidwyll hynod
Ei fywyd oll mae'n wilio 'u wir
I gadw pur Gydwybod.

4 Tra celais i f' euogrwydd llym
Ni chawn i ddim eſmwythder;
Dy Lid a loſgei yn fy mron,
Nes gwaſgu hon gan drymder.

5 Yna fy mhechod oll heb gudd
A chalon brudd cyffeſwn;
Dy Ras faddeuodd fy holl fai,
A ſelio wnai fy mhardwn.

6 Pair hyn i'th Saint weddio 'n ſwr
Pan ddel fel Llif-ddw'r enbyd
Broſedigaethau, yna DUW
Trugarog yw 'ſe 'n gweryd.

SALM XXXII. 'y r hân gyntaf meſur hir, *Edifeirwch* a *Phardwn rhad*: neu *Gyfiawnhâd* a *Sancteiddiad*.

DYN dedwydd yn dragwyddol yw
Bai 'r hwn faddeuwyd gan ei Dduw
S a'i Bechod wedi adde'n driſt,
A'i guddio a Gwaed ei Brynwr Criſt.

2 Gwyn fyd y Dŷn na chyfrif Duw
Anwireddiddo er cymmaint yw;
Ni phledia Haeddiant Gweithred dda
A Dduw a'i Ras hyderu wna.

rhwydd

3 Rhydd yw ei Enau a'i galon gu
Oddi wrth bob twyll, a'i ofnau ſy'
I Orfoledd a'i 'difeirwch prudd
Yn profi ei ddiffuant ffydd.

4 Mor werthfawr yw'r Cyfiawnder drud,
Sy'n cuddio ei Bechodau i gyd
Pan fo tyſtiolaeth deg o Ras
Trwy 'i fywyd oll yn tarddu i ma's.

SALM XXXII. yr ail Ran meſur hir

Cydwybod euog wedi ei heſmwythau trwy Gyfaddefiad a phardwn.

TRA tawyf ſon a chelu 'n fûd
Om mewn f' euogrwydd trwm o hyd
Pa flinder i'm cydwybod fydd,
Pa boen o'm mewn wy'n brofi 'n brudd.

2 Addefa'i mhechod wrth fy Nuw,
Am dirgel feiau o bob rhyw;
Dy 'Fengyl draetha im Bardwn rhydd,
A'th Yſpryd yn ei ſelio fydd.

3 Am hyn Eneidiau duwiol fryd
Gweddiant arnat ti mewn pryd;
Pan lifo temtaſiynau 'r ddraig
Cant gilio'i locheſau 'r Graig.

4 Dan d' edyn rwy 'n ddiogel iawn
Mewn t'w' llwch a thymheſtloedd llawn;
Ath Lygad pan fwy 'n rhodio 'r Dydd
I'm tywys rhag pob maglau fydd.

SALM *XXXIII.* yr rhan gyntaf meſur cyffredin *weithredoedd Gwaredigaeth* a *Greadigaeth.*

CHwi 'r cyfiawn llawenhewch yn Nuw
Perthynol yw i'ch ganu,

mo r

Mor ſanctaidd yw holl ffyrdd yr Jôn,
Ai air mor ffyddlon ydy'.

2 Ei iawnder a'i drugaredd ef
Cyhoedded Nef a Daear:
Gwaith Gras a natur traethant hw'
Ei ryfedd enw hawddgar.

3 Trwy i air a'i fawr ddoethineb ef
Colofnau 'r nef oſodwyd:
A thrwy lan yſpryd ein Duw fry
Ei diſglair lu a wnaethpwyd.

4 Parodd i'r dyfroedd trwy 'r holl fy
Ymgaſglu ngbyd i'r dyfnder:
A'r mor ei derfyn edwyn e'
A cheidw 'i le a'i amſer.

5 Trigolion yr holl ddaear gron
Bawb ger ei fron a ofnant:
Fe wnaeth bob peth a'i air ei hun
Wrth ei orchymmyn ſafant.

6 Mae ſe 'n diddymmu llid a grym
Amcanion llym y bobloedd;
Ei gyngor ſaif o'u hanfodd hwy,
Yn ddiſglair trwy bob Oeſoedd.

SALM yr ail Ran meſur cy
Creaduriaid yn weigion a Dirwy yn boll

1 CWynfyd y Genhedl lle mae 'r
A'i Oeſoedd dirion raſol;
Lle mae'n datguddio 'i nefol Aur,
A'i eiddo cair y bobol.

2 O'r Nef yr edrych Duw o hyd
y cyfan fyd ſe'i cenfydd;

Fe 'n ffurfiodd o'r un chai bob rhyw,
Gwyr wanned yw ein defnydd.

3 Brenhinoedd ni Waredir trwy
Gynhorthwy 'u llu llioſog:
Ac ni all brys y march na 'i Rym
Waredu 'r hylym farchog.

4 Nerth dynion a 'nifeiliaid ſydd
Beth gwag na rydd ymwared:
Ond Dynion ſanctaidd cant o'r nef
Ddiffynfa gref a Nodded.

5 Eu hofn a'u gobaith yw 'r Duw da
Yn amſer pla a newyn;
Ym mhlith deng mil o feirw yn fyw
Y ceidw Duw 'r credadyn.

6 Ein calon ynnot llawen ſo,
A'th fendith rho oddi uchod;
Credaſom yn d' enw di,
A'n gobaith ni ſydd ynnod.

S A L M *XXXIV.* Meſur hir.

Gofal Duw am ei Saint; neu, Waredigaeth trwy Weddi.

1 BEndithia 'i f' Arglwydd nos a dydd,
Ei foliant ar fy nhafod fydd;
Fy enaid foſtia 'ngras fy Nuw,
A llawenycha 'r Saint a'm clyw.

2 Dewch, molwch f' Arglwydd gyd a mi,
A'i enw mawr dyrchefwch chwi:
Mi ceiſiais efo 'n daer fy llef
A'm gobaith ni ch'wilyddiodd ef.

3 Mynegais iddo 'ngofyd caeth,
A gwrando 'm dirgel gwyn y whaeth;
Rhoes eſmwythâd o'm blinder ym,
Goſtegodd f' ofnau er maint eu grym

4 Y tlawd a edrych arno ef,
A'i Wyneb deimla lewyrch nef:
Un pelydr o'i drugarog wedd.
A'i lleinw â goleuni a hedd.

5 Caſtellu mae Angylion nef,
O gylch y rhai gwaſnaethant ef:
Saint, cerwch, ofnwch Dduw yn ddwys,
Profwch ei Ras, rhowch arno 'ch pwys.

6 Y Llewod ifaingc er eu bod
Yn rhuo o newyn trwy 'r holl go'd:
Ond eiſiau dim ſy dda, ni bydd
Ar neb a geiſio Dduw trwy ffŷdd.

SALM *XXXIV.* Adn

1——10 Y rhan gyntaf Meſur cyffredin.

Gweddi a mawl am Waredigaeth odidog.

O Ddydd i ddydd bendithiaf Duw,
Daionus yw a graſol;
Eneidiau duwiol deuwch chwi,
A helpiwch fi i'w ganmol.

2 Cenwch er clod i'w Enw glan,
Fel' darfu 'r truan waeddi,
'Ch'wilyddiwyd dim o'i obaith gwiw,
Ni lyſodd Duw mo'i Weddi.

3 Pan oedd gofidiau (megis llu)
Ac ofnau bob tu 'n bentwr,
Yn bygwth arnaf fi gyd gau,
Fel uchel donnau llif-ddŵr.

4 D'wedais y trallod o'wn yn ddwyn
Wrth Dduw, mewn cwyn a dagrau,
Fe eſmwythaodd fy nghyſtudd llym,
Goſtegodd Rym fy ofnau.

Gorphwyſiad.

5 (De'wch, Bechaduriaid o bob rhyw
Ffyrdd hyfryd Duw addyſgwch,

Gad-

Gadewch i'ch profiad wybod blas
Ei felus Ras a'i heddwch.

6 Angylion Duw caſtellu wnant
O gylch ei blant a'u trigias;
Nid Tafod dyn all draethu faint
O ddrygau maent yn luddias.)

7 [O cerwch Dduw, ei Saint lle 'r y'ch,
Am danoch f' edrych eſo;
Pa mor gyfoethog ydyw rhan
Y rhai a gredan' yntho.

8 Gan newyn, Llewod ifainge ſy'
Yn trengu yn y goedwig;
Ond Duw, diwallu 'i Blant y wna
A phob peth da fo 'n ddiffig.]

SALM XXXIV. Adn. 11——22.
Yr ail Ran Meſur cyffredin.
Annogaethau i heddwch a Sancteiddrwydd.

1 DEWCH Blant a dyſgwch ofni Duw,
Os mynnnwch fyw hir ddyddiau,
Cedwch eich Tafod rhag pob twyll,
A diras ddibwyll eiriau.

2 Gadewch y drwg, arferwch dda
Ymgeiſiwch â gwaith heddwch;
A'ch ffyrdd fydd hoff gan Dduw o hyd,
I'ch Henaid dyd ddedwyddwch.

3 Mae 'i Lygaid ar y Cyfiawn cu,
A'i Gluſt a wrendy arnynt;
Eneidiau drylliog ſy 'n y llwch
Mae 'n agos (credwch) attynt.

4 Er iddynt brofi ar eu taith
Ofidiau maith a llymion,
Duw, 'r hwn a'i gwared oll ryw ddydd
I'w cynnal bydd yr awron.

5 Drygioni, lladd yr Enwir wna,
Ond Duw ddiögela 'i eiddo;

Os llithrant fe iachâ yn chwyrn
Eu drylliog Eſgyrn etto.

6 Pan ddelo diſtryw fel Llif Tonn
Ar feilchion Bechaduriaid,
Y Saint yn Nuw cant noddfa gref,
Can's prynodd ef eu Henaid.

SALM XXXV. 1—9 Y rhan gyntaf Meſur cyffredin. *Gweddi a ffydd y Saint erlidiedig; neu, Felldithion yn gymmyſgedig â Chariad.*

1 DUW, dadleu f' achos i o'r Nen
A Phlant y gynnen ynfyd,
Ymladd a'r gwaedlyd wŷr ſ' ar gam
Yn cynnig am fy Mywyd.

2 I'w hattal tyn dy wayw-ffon,
A'th Wialen ddigllon hefyd,
A dywed wrth fy enaid byw
Myfi yw 'r Duw a'th weryd.

3 Plannaſant faglau i ddal fy nhraed,
A Rhwydau 'wnaed i'm dryſu;
Trocha 'r diniſtrwyr yn y ffos
A whaent heb achos imi.

4 Boed Niwl a th'w'llwch o'u blaen hwy,
Llithradwy fo 'n Cerddediad
Dy Lid a'i hyſglyfiaetha 'n llym,
Di ddymma Rym eu Bwriad.

5 Fel us o flaen y gwynt yr ant,
O flaen dy ſorriant enbyd:
O'u hol bydd Angel y Duw mawr.
I Angau lâwr ſe 'u hymlid.

6 Ffordd Uffern, hoff yw ganthynt hw'
Cant farw yn dragwyddol,
Y Rhai ſy 'n gwrthryfela a byw
Yn erbyn Duw 'n waſtadol.

ond

7 Ond os dewiſaiſt ambell un
O'r fath rai 'ſgymmyn 'ſgeler,
O'r Fintai waedlyd tynn hwy ma's,
A'th ryſedd Ras mewn amſer.

8 Yna dyrchafa i'm llais yn llon
I draethu 'th fawrion wyrthiau;
Yn eu hachubiaeth llawenhâf
Diolchaf am f' un inneu.

SALM XXXV. Adn, 12, 13, 14

Yr ail Ran

Cariad i Elynion; neu, Gariad Criſt *i Bechaduriaid yn cael ei gyſgodi yn* Nafydd.

1 WELE 'r fath gariad hael a rhŷdd
A ddengys *Dafydd* dduwiol
Cyffroe 'i 'myſgaroedd ef at Rai
Gelynol fai'n gyſtyddiol.

2 Pan faent yn glaf, ei enaid 'ſo
Oedd fel yn teimlo 'u blinder:
'R oedd yſpryd mwyn y 'Fengyl lon
Yn toddi 'galon dyner.

3 Galaru 'wnai, mewn agwedd dlawd,
Fel un am frawd a gleddyd:
Cyſtuddiai 'enaid ddydd a nos,
Wrth ymbil dros eu bywyd.

4 Melldithient ef ar eu gwel'au,
Ac etto mae 'n eirioli;
Bendithion dyblig ar ei ben
Mae Duw o'r nen yn roddi.

5 O ryſedd Dŷp o nefol Râd!
Gwnaeth Criſt ein ceidwad felly:
Pan regent ef, gweddïai'n glos
Mewn dagrau dros y rhei'ny.

Gwir *Ddafydd*, Brenhin *Iſrael* yw,
6 Anwylyd Duw o'r nefo'dd;

I ni elynion gael rhyddhâd,
Ei werthfawr Wa'd a dalodd.

SALM XXXVI. Adn, 5—9.
Meſur hir.

Perffeithrwydd a Rhagluniaeth Duw; neu, *Kagluniaeth gyffredinol, a gras neillduol.*

YN uchel yn y nefoedd fry,
Duw, mae 'th ddaioni 'n ddiſglair iawn!
Dy Wir dyrr trwy bob cwmmwl du
Sy 'n t'w'llu dy amcanion llawn.

2 Byth ſicir ſaif d' Uniondeb di
Fel bryniau ar ſeilfeini 'r llawr:
Holl Waith dy Ddwylaw ſydd yn ddoeth,
A'th Farnau coeth ſydd ddyfnder mawr.

3 Mwyn yw'th Ragluniaeth di, a hael;
Dŷn ac anifail, cedwi hwy;
Yr holl fyd dan dy Ofal maent;
Ond am dy Saint gofeli 'n fwy.

4 Mor werthfawr ydyw 'th Ras, fy Nuw,
Ein gobaith yw a'n cyſur ni:
Mewn Ing y ffy Plant *Adda* wan,
Am noddfa dan d' adenydd di.

5 O Arlwyadau 'th dŷ y cawn
Ein porthi 'n llawn a melus wledd;
Trugaredd yno red yn lli
Diödir ni a'th Ras a'th hedd.

6 Bywyd, fel ffynnon loyw rwydd,
A daidd o wydd ein Harglwydd ni:
Ac yn d' Oleuni gweld a wnawn
Y gwynfyd llawn addewaiſt di.

ſalm

SALM XXXVI. Adn 1, 2, 5, 6, 7, 9, Meſur cyffredin.

Didduwiaeth ymarferol a oſodir allan; neu, *Ddrygioni Dŷn, a Mawredd* Duw.

1 PAN welwyf ddyn yn pechu 'n hŷ
Fy nghalon i a ddywaid :
" Ffŷdd Duw o'i fewn nid ydyw hon,
" Na'i ofn ger bron ei lygaid.

2 'Fe rodia yn guddiedig dro,
Gwenheitho iddo'i hunan ;
Nes cael ei ddirgel ddrygau cas,
A'i Enw 'n atgas allan.

3 Ei galon aflan yw a gau,
A'i Eiriau 'n deg i dwyllo ;
Doethineb ffwrdd o'i enaid ffodd,
Dim da ni adodd yno.

4 Anwiredd newydd, neu ryw fâr,
A lunia ar ei wely :
Ei law, a'i ben, a'i galon, dŷd.
I wneuthud pob drygioni.

5 Ond Duw ofnadwy diau mae,
Er nad yw rhai'n ei ofni :
Mae ei Gyfiawnder etto 'nghudd ;
Daw ryw-ddydd i oleuni.

6 Uwch wybren mae 'i Wirionedd ef
Ac yn y nef mae 'i Fwynder :
Fel dwfn-for yw ei Feirn i'n myſg,
Hyd uffern llyſg ei ddigder.

7 Mor werthfawr yw ei Gariad ef !
Mae 'n noddfa gref i'r cyfion :
Na ſyfied byth mo'm henaid prudd
O dan ei 'Denydd tirion !

Mor

SALM XXXVII. *Adn.* 1—15.

Y Rhan gyntaf Meſur cyffredin.

Gwobrwyon y Cyfiawn a'r Drygionus; neu, *Gofineb y Byd, ac amynedd y Saint.*

1 PAham y blinaf f' enaid gwan,
Trwy ddig ac anfoddloni;
Wrth weled dynion drwg trahaus,
Trwy gam a thrais yn codi.

2 Fel Glaſwellt dorrer ganol dydd
Cyn y diwedydd gwiwa;
Unwedd, Gogoniant hardd eu Ho's
Mewn bythol nos diflanna.

3 Am hyn yn Nuw gobeithio wnaf.
Arferaf bob daioni;
Caf felly 'mhlith y cyfiawn le,
Bydd iddo ſe fy mhorthi.

4 Treiglaf fy ffyrdd ar Dduw yn llon
Gan ddiſgwyl wrtho 'n waſtad:
Dy Law ſy 'n fforddi 'm rhodiad i
Cyfiawna hi 'nymuniad.

5 Fy niniweidrwydd eglurhai,
A'th Farn a wnai yn hyſpys:
Mor deg a goleu 'r wawr y bydd,
Fel hanner dydd 'ymddengys.

6 Yr addfwyn a feddianna 'r tir,
A'r nef yn wir 'mhen 'chydig,
Gwir olud rhoir, a heddwch llawn,
I'r cyfiawn goſtyngedig.

Gorfywyſiad.

7 Saf, cadw Ffordd dy Arglwydd da
Ac nac ymddigia, Griſtion:
Er i Ragluniaeth oedi 'n hir
I goſpi anwir ddŷnion.

gad

8 Gâd i'r anuwiol dorri 'th hedd,
A noethi dannedd arnad :
Yr Arglwydd yn eu gwatwar ſydd :
Mae 'u dial ddŷdd yn dwad.

9 Tynnaſant hwy eu cleddyf llym,
A'u bwa cyflym annel :
I ladd y dŷn ſy 'n ofni Duw,
I ddodi 'r cyſtryw 'n iſel.

10 Fy Nuw a dyrr eu bwau i gŷd ;
'Fe 'lyſg eu hymlid ſaethau :
A'u cleddyf try i'w herbyn hwy,
A phoen â trwy 'u Calonnau.

SALM XXXVII. 16, 21 26—31.

Yr ail Ran. Meſur cyffredin.

Cân i'r Tlawd ; neu, *Grefydd mewn Geiriau a Gweithredoedd.*

1 PA'M mae 'r goludog mawr ei dra
Yn boſtio'i dda mor eon :
Gwell yw rhan leia 'r cyfiawn gwan
Nag aur yr anuwiolion.

2 Y drygddyn a fenthyccia 'n hŷ,
Heb feddwl talu eilwaith ;
Trugarog yw y cyfiawn, rhy' ;
Y tlawd ni thry ef ' ymaith.

3 A chalon rwydd eluſen rhydd
I'r rhei'ny ſydd mewn diffig :
Coffhair ef byth, er cuddio 'i ben,
A'i had fydd fendigedig.

4 Cas gantho fiarad un drwg air
A thwyll, ni chair i'w 'madrodd,
Ei dafod draetha i ddynol-ryw,
Y peth gan Dduw y ddyſgodd.

5 Mae Cyfraith Duw, a'i 'fengyl lon,
O fewn ei galon efo ;

Trwy

Trwy d'wyſiad Yſpryd Duw, a'i *Air*,
Ei ddal a wnair rhag llithro.

6 Pan ſyrthio dynion drwg trwy chwant,
Y cyſiawn cant eu cadw:
Cânt feddu 'r tir addawodd Duw
A bythol fyw yn hwnnw.

S A L M. *XXXVII.* Adn. 23 37.

Y drydedd Ran. Meſur cyffredin.
ffordd a diwedd y Cyſiawn a'r drygionus.

1 MAE Camrau pawb o'r duwiol ryw
Dan drefniad Duw a'i ofal;
Codant, er cwympo ambell bryd,
Ei Law o hyd a'u cynnal.

2 Eu ffyrdd hwy ſydd yn ei ſoddhâu:
Eu rhinwedd mae 'fo 'n hoffi
Ei Ras oddi wrthynt byth ni thynn,
Ni ad y dyn fo 'n garu.

2 Eu hetifeddiaeth hwy yw 'r nef,
A'u rhan a'u cartref bythol
Eu porthi a'u cymhwyſo cant
I 'r put Ogoniant nefol.

4 Wrth Dduw diſgwyliwch, blant i gyd,
Nac ofnwch lid gwyr trawſion:
Cewch wel'd mor wag fu ' balchder mawr
Pan daſier ' lawr yn gyſion.

Gorphwyſiad.

5 Y drygddyn gwelais ef yn byw
Heb ofni Duw na dynion:
Fel Lawryf gwyrdd yn ymdeghau.
Gan dannu 'i freichiau mawrion.

6 Ond 'fe ' ddiflannodd ' ffwrdd o 'rtir:
A llaw na's gwelir torrwyd:
A lle bu 'r balchder mawr di-fail,
Gwraidd, brig, na dail, ni ad'wyd.

7 Ond gwelwch ffordd y cyfiawn call,
A'i gamrau diwall uniawn:
Diddanwch trwy 'i holl ffyrdd y ſydd
A'i ddiwedd fydd heddychlawn.

SALM XXXVIII. meſur cyffredin.
Euogrwydd Cydwybod ac eſmwythâd; neu,
Weddi am Bardwn a Jechyd.

1 MEwn llid, dy Gariad cofia di,
Duw, dychwel fi 'th waſnaethŵr,
Na boed dy gerydd tadol ym
Fel cleddyf llym dialŵr.

2 Mae 'th ſaethau 'n glynu yn fy mron,
A'm cnawd dan greulon waſgfa:
I'm hyſpryd, rhwng y poen a'r loes,
Un dydd nid oes Gorphwyſfa.

3 Fy mhechod ſydd faich trwm, tu a'r nen
Mae dros fy mhen yn dringo:
Ni's galla 'i ddwyn, mae 'n llwyth rhy lawn
Na gwneuthur jawn am dano.

4 Fy meddwl fel Môr trwblus ſy
a'm pen yn plygu i'r ddaear;
Tan ddig fy nhad a'i gerydd prudd,
Wy 'n myn'd trwy 'r dydd mewn galar.

5 Duw, gwel, drylliedig wyf, a gwan,
Heb fan yn gyfan ynnof:
Gan gyſtydd enaid oer yw 'nghri:
Dy ſaethau di aeth trwof.

6 Fy holl ddeiſyfiad wyddoſt ti,
A'th Lygad rhiſi 'nagrau:
A'th dirion Gluſt a glyw bob cam
Fy ngriddfan a m hochneidiau.

7 Fy unig obaith wyt a'm Duw
yr hwn a'm clyw yn cwyno:

fy

Fy Nuw a gwyd fy enaid gwan ;
Mae Satan yn ei demtio.

8 (Hawdd gan fy nhroed i lithro 'lawr
Llawenydd mawr ſ' am hynny;
Beilch yw 'ngelynion i, a llon
Pan allon' fy machellu.

9 Ond mi 'addefa' 'mai wrth Dduw ;
Triſtâf am bob rhyw bechod :
Ac am fy ngwendid llefa i 'ma's,
Am fwy o ras oddi-uchod.

10 Fy meiau gynt, Duw, maddeu di,
A byth bydd imi 'n agos :
Duw 'm Jachawdwriaeth, bryſia a'th Râ
Cyn marw o'th was ſy 'n d' aros.)

S A L M *XXXIX* Adn, 1, 2, 3,
Y rhan gyntaf

Gwyliadwriaeth ar y Tafod, neu, *gallineb*
Zel.

1 FEL hyn ymroddais o flaen Duw
" Tra tyddwyf byw i wylied ,
2. Fy nhafod rhag d'weyd gair di ras
" Anhardd a chas i'w glywed.

2 Ac os attelir hi'n y fan,
Lle byddo annuwiolion :
Mi 'wyliaf y dau cymmaint rhag
Pob math o wag 'madroddion.

3 Braidd i'm gwefuſau caniadttaf,
I dd'weyd y da fwy 'n deimlo :
Rhag i watwarwyr yn ddi-gêl.
Fy Nuwiol Zêl i wawdio.

4 Ond os cyfleuſdra 'mddengys im':
Nid ofnaf ddim o'u gw'radwydd:
Caiff gwawdwyr glywed yn ddi-os
Fy 'madrodd dros yr Arglwydd.

SALM XXXIX. Adn 4, 5, 6, 7, Yr ail Ran Meſur cyffredin.
Gwaeedd a Breuoldeb dyn.

DUW, dyſg im' feſur Dyddiau f' oes,
Pa Einioes a gyrhaeddaf;
Dymunwn ddyſgu hyn o hyd
Mor fyrr yw mywyd ymaf.

2 Lled llaw yw 'n hymffroſt nid mawr fwy
Modfedd neu ddwy o amſer:
Dyw dyn ond llwch a gwegi 'n llawn
Pan fo 'n ei gyflawn wychder.

3 Plant dynion fel cyſgodau i gyd
Ar faes y Byd fy 'n rhodio;
Terfyſgu 'mryſon maent am fyw
Ac ofer yw eu cyffro.

4 Rhai 'n rhodio mewn anrhydedd cair
A rhai am aur yn cloddio;
Pentyrru Da na wis i bwy
Ac ebrwydd hwy 'n eu gado.

5 Pa beth gan hyn obeithiaf mwy
Oddi wrthynt hwy 'r Cre'duriaid?
Gwnant fy niſgwyliad yn ddi-fudd
Os ynthynt bydd f' ymddiried.

6 Fy ngobaith cnawdol alwa i 'n ol
A'm holl Ddaearol amcan
Rhoffynu marwol Ran, gwell yw,
A gwnaf fy Nuw fy nghyfan.

SALM XXXIX. Adn, 9—13.
Y drydedd Ran Meſur cyffredin.
Newidder claf wely; neu, bledio a Duw heb rwgnach.

YN raſol edrych lawr fy Ner,
Mewn blinder gwel fi 'n boenus,

Ond mûd oth flaen wyf fi, heb ble
Na beiddio dadle d' wllys.

2 Dy Weifion yw Clefydon ſwrth
Sy 'n dyfod wrth d' Orchymmyn;
Yn erbyn llaw dy geryddllym
Ni dd'wedaf ddim yn gyndyn,

3 Etto mi bledia 'n dlawd fy nghri
Duw, ſymmyd di 'th geryddon:
Gwanhau mae 'm nerth a'm Hyſpryd byw
Gan amled yw 'th ergidion.

4 Fel dryllio gwyfyn dan dy law
Rym maes o law 'n ymddattod;
Ni all ein grym d' wrthſefyll di
A'n tegwch ni ſy 'n darfod.

5 Ein Bywyd buan mae 'n lleſgau,
Fel Bwmbwl, clau mae 'n torri;
Holl eppil *Addaf* dda a drwg,
Nid ynt ond Mwg a gwegi.

6 Wyf ond ymdeithydd yn y byd
Fel pawb i gyd o'm Tadau;
O parod fwyf pan ddelo 'r wys.
I fynd ar frys i'm Siwrnai.

7 Ond, Arglwydd, os arbedi di
Fy mywyd i fachigyn;
Mi a'th foliannaf nos a dydd
A'th Gariad fydd fy nheſtyn:

S A L M XL. Adn, 1, 2. 3, 5 17. Y Rhan gyntaf meſur cyffredin.
Can o ymwared o Gyſyngder mawr.

1 DYFAL ddiſgwylais wrth fy Nuw
Fe roddes glyw i'm Gweddi;
Gorphwyſais ar ei air yn faith,
Dug Iechydwriaeth imi.

Os

2 O'r Pydew hyll fe 'm codai 'n wir
Lle bum yn hir yn gorwedd;
A'm Traed yn rhyddion hefyd gwnaeth
O Rwymau caeth fe anwiredd.

3 Gwnaeth imi ſefyll ar Graig gref
A chodi 'm llef yn llafar;
I ſôli gwaith ei ddwylo glan,
Mewn newydd Gan ddiolchgar.

4 Cyhoeddaf Waith ei Ras ar lled,
A'r Saint cant glywed hynny;
A dyſg Troſeddwyr o bob rhyw
Obeithio'n Nuw a'i ofni.

5 Meddyliau 'th Gariad ſy 'n amlhau,
A'th Drugareddau aneirif,
Ni feddaf Eiriau digon maith,
Nac oriau chwaith i'w cyfrif.

6 Pan fwy 'n drallodus yn y llwch,
Heb heddwch na goleuni,
Fy Nuw ſy 'n gweld fy mhwyſig Wae,
A'm cofio mae a'm codi.

SALM XL. Adn 6——9. Yr ail Ran Meſur cyffredin.
Cnawdoliaeth ac aberth Criſt.

O fer yw'ch gwaith, medd Duw ſy ddoeth
" Rhowch ymaith boeth offrymmu;
" Mewn gwaed buſtechi a Geifr mwy
" Nid ydwy 'n ymhyfrydu.

2 Yna, medd *Jeſu*, wele 'fi,
" Yn dyfod i gael gwneuthur
" Dy 'wyllys, a chwplau ar led
" Beth bynna dd'wed dy Lyfyr.

3 Mae 'th gyfraith ger fy mron o hyd
" Ac hefyd yn fy nghalon;

Am

" A'm Cluſtiau gyda hoffder ſy
" Agored y'th gynghorion.

4 Ac wele 'r Prynwr mawr a ddaeth
Ymddangos wnaeth y *Jeſu*;
A chymmerth ef mewn amſer gwiw
Y Corph oedd Duw 'n ddarparu.

5 Datguddiodd Ras ei Dad o'r nef,
A'i Gariad ef ar gyhoedd;
Pregethodd ffordd Cyfiawnder *JON*
Mewn mawrion gymmanfaoedd.

6 Gogoniant Duw oedd ger ei fron,
A chyflwr dynion di-nerth,
I gwpla rhan Jachawdwr rhad
Efe a wnad yn aberth.

Gorphwyſiad.

7 Nid Gwaed 'nifeiliaid, fawr na mân,
Olchaſai 'n lan gydwybod;
Ond Criſt a daloddd aberth llawn,
Digonol lawn am beehod.

8 Tannwyd yr Jechydwriaeth lân,
A theyrnas Satan ſiglwyd;
Fel hyn trwy 'r *Jeſu* Had y Wraig,
'N awr, pen y ddraig a ddryllwyd.

SALM XL. 5 10 Meſur hir.

Criſt *ein haberth a'n Mechniaeth.*

Mae 'r gwyrthiau, Arglwydd, wnaeth
Uchlaw ein mawl a'n meddwl ni
Fe ceiſiwn ddweyd ei niſer maith,
Fe ballei 'm rhif diffiigiai 'm Hiaith.

2 Nid gwaed nifeiliaid bob yr un,
All olchi euogrwydd enaid dyn:
Ond ti a roiſt o'n blaen, O Dduw,
Un aberth, holl ddigonol yw.

3 Wele 'th dragwyddol Fab a ddaeth
I'th gyngor rhoddi cluſt a wnaeth;

Cymmerodd Gorph parodol pur,
I gwpla 'r gorchwyl mawr ei gur.

4 " Wele fi 'n dyfod, meddai ef,
" Mewn Zel a Chariad lawr o'r nef;
" I ddwyn pechodau dynol ryw,
" A gwneuthur d' 'wyllys di fy Nuw.

5 'Sgrifennwyd yn dy arfaeth fawr,
" Wyf yn dy lyfyr di ar lawr:
" Rhan Prynwr rhaid i mi gwplau
" A'th gyfraith yn fy nghalon mae.

6 Dy gyfraith lan caf ei mawrhau,
" Rhai cyndyn, tynna 'i ufuddhau
" Pan ar fy nghroes y coder fi,
" Neu i'm Gogoniant diſglair fry.

7 Caiff d' yſpryd ddiſgyn gyda 'th air,
" A'th Jechydwriaeth eglurhair,
" A'r Byd a ddyſg dy Ras, o Dduw;
" 'Th ddoethineb a'th gyfiawnder gwiw.

SALM XLI. Adn 1, 2, 3. Meſur hir. *Cariad i'r tlawd*; neu, *doſturi i'r cyſtyddiol.*

1 GWynfyd y dyn a'r galon hael,
Sy 'n trugarhau wrth dlodion gwael,
Trwy gariad fo 'n cyd-deimlo 'n brudd,
A'i Frodyr (Saint) mewn adfyd ſydd.

2 Dymunei Galon wneuthur mwy;
Nac all ei ddwylaw iddynt hwy;
Mewn ing y gwrendy Duw ei Gwyn,
A dengys ymyſgaroedd mwyn.

3 Caiff drigo 'n ddiogel is y nen,
A bendith ddirgel ar ei ben,
Pan fyddo haint a newyn mawr,
O'i gylch yn bwrw 'u meirw i lawr.

4 Os nychu ar ei Wely bydd,
O'i Feiau goliwng Duw e'n rhydd,
A'i Law ei hun fe 'i gwella ef,
Neu ddwyn ei enaid ' fynu i'r Nef.

SALM XLII. Adn. 1. 5.

Y Rhan gyntaf Mesur cyffredin.

Anghysur a gobaith; neu, *Achwyniad Absennoldeb oddi wrth addoliad cyhoeddus*

1 FY Enaid i hiraethlawn yw,
Am brofi Duw a'i weled;
Fel y mae 'r Hydd a'i fref a'i chwant,
Am ddw'r y nant wrth syched.

2 Pa bryd y do 'i gynteddau 'th Ras,
'Gael dy gymdeithias etto?
Bod cyd o wydd dy Wyneb di
Wnâ 'nghalon i ofidio.

3 Mae f' enaid dan Demtasiwn blin
A'm Dagrau f' imi 'n adwledd;
Tra dwetto 'r Gelyn wrthyf, clyw,
"P' le mae dy Dduw o'r diwedd?

4 'N awr gyd a' Phlefer prudd ar dro
Hen ddyddiau i'm co' a ddeuant,
Pan eym i'th Dŷ Rifedi glan,
Dan seinio can a Moliant.

5 Ond f' enaid pam y soddi dan
Fath lwyth o anfodlonrwydd?
Pa ham yr anobeithi 'n llyn
A phechu 'n erbyn f' Arglwydd?

6 Gobeithia yntho, a'i Law gref
Fe symmyd ef dy ofyd;
Caf etto ganu ger ei fron.
Ei gariad tirion hyfryd.

SALM XLII. Adn 6. 11.

Yr ail Ran. meſur hir.

Meddyliau pruddaidd yn caeleu ceryddu; neu, *Obaith mewn cyſtyddiau.*

1 FY Yſpryd, Arglwydd, ynno 'i fawdd
Ond galwa 'i gof dy neſol nawdd;
A chofio 'r amſer gynt y wna',
Mewn Ing y profais Dduw yn dda.

2 Blinderau mawrion megis lli',
Neu Fôr am hamgylchaſant i;
Dy ddw'r Biſtylloedd fry o'r nen
A 'th donnau aethant dros fy mhen.

3 Ond Duw ddatguddia 'i Gariad mwyn,
Y Dydd pan wnelwyf wrtho nghwyn,
A'r nos ei Ras ni fymmyd 'chwaith,
Gweddio a chanu fydd fy ngwaith.

4 Bwraf fy hunan wrth ei dra'd,
Gan ddweyd "fy Nghraig fy Nuw fy Nhad
Pa ham angofia 'th Gariad di
Fy enaid gwan griddfannus i.

5 Corydda i 'nghalon am wanhau,
Pa ham mae f' enaid i 'n triſtau?
Cred yn yr Arglwydd, canmol ef,
Dy Gymmorth yw a 'th Noddfa gref.

6 Caiff d' air fy nhywys ar fy nhaith,
A dodi 'm myfyrdodau ar waith;
A'm dwyn i'th Neſol Fryn i fyw,
Fy mhrif Orfoledd wyt, fy Nuw.

SALM XLIV. Adn 1, 2, 3, 8, 15, 26.

Meſur cyffredin. *Achwyniad yr Eglwys mewn Erlidigaeth.*

1 DUW, clywſom ar y ddaear lâs
Am waith dy Ras a 'th allu;

Ein

Ein Tadau gynt fu 'n dweyd i ni
Dy wyrthiau di pryd hynny.

2 Plennaiſt dy Eglwys yn y Tir
I'th 'Fengyl bur rhoiſt lwyddiant,
Dy Fraich datguddiaiſt yn eu plith
A'th Fendith a'th Ogoniant

3 Yn Nuw trwy 'r Dydd ym ffroſtio 'r oent
A miloedd, doent yn llawen
I foli a gweddio 'nghŷd,
A gras i gyd a ganen'.

4 Ond 'n awr c'wilyddiwyd (gwael yw 'n bri
Ein Hwyneb ni a'n Henaid;
Wrth glywed Cabl y gelyn câs
A gwawdio 'th Ras gan ffyliaid.

5 Etto nid anghofiaſom Duw
'N anffyddlon i'w Gyfammod;
Na throi ein traed o'r llwybrau glan
Oe't ti o'n bla'n yn oſod.

6 Er bod y Dreigiau mawr eu grym
Yn rhuo 'n llym eu lleiſiau,
A'th Law dy hun a'n drylliodd ni,
Yn agos i byrth Angau.

Gorphwyſiad.

7 Trwy 'r dydd agored ŷm heb gel
I farw fel merthyron;
Fel defaid rhwym i'r lladdfa ym
Wrth ddeddfau llym a chreulon.

8 O deffro, Arglwydd, tyr'd i ma'n
Pam 'cwſg dy Ras arferol?
Pam i'n gadewi megis rhai
Wedi 'u cáſau a'u deol.

9 Ai ymaith fyth y bwri ni;
Heb wrando 'n cri 'n waſtadol;

A'i

A'i cuddio d' Wyneb byth y wnai,
Oddi wrthym rai cyſtuddiol.

10 Plygwyd ein henaid hyd y llawr,
Gan driſtwch mawr a thrawſedd
Cyfod i'n plaid, cerydda 'n glau
Y Beilchion, a'u Cynddaredd.

11 Rhag gwarth tragwyddol gwared ni,
Ein Duw wyt ti, a'n Prynŵr;
Er mwyn anrhydedd d' Enw Mad,
Haeddiant dy Wa'd Jachawdwr.

SALM XLV. Meſur cyffredin.
Gogoniant Criſt, llwyddiant yr Efengyl, a'r Eglwys genhedlig.

1 FY Mrenhin mawr, a'm Prynwr cu
Dy degwch ſy anfeidrol;
O'th Enau daw beraidd thion llawn
A phob rhyw ddawn rhagorol.

2 Eglura 'n awr d' ogoniant cryf
A gwiſg dy gleddyf Jeſu;
A marchog mewn mawrhydi i ma's,
Gwna i air dy Ras orchfygu.

3 Dy faethau yn d' elyniou ſawdd
Neu 'u calon tawdd a'th Gariad;
Gwir ac addfwynder gyd a thi,
A gras fo 'n gweini 'n waſtad.

4 O *Dduw*, mae 'th ddeddfau 'n jawn bob rhai
Dy Orfedd ſaif heb ddiben;
A'th 'fengyl yn llwyddiannus iawn
Fydd yn dy Law 'n deyrn wialen.

5 Dy Dad a'th Dduw, heb feſur fry
O'i Yſpryd cu tywalltodd,
Fel olew llawen (heb un llen)
A'th ſanctaidd ben enneiniodd.

Wele

6 Wele 'r genhedlig Eglwys mae
Ar dy Law ddehau 'n dyfod ;
Fel Priodasferch hardd ei llun,
T'wyſogion ſy 'n ei gwarchod.

7 Clyw, derbyn Ferch ei Gariad rhâd,
Anghofia a' mad, yn ebrwydd
A thŷ dy Dâd, a'th dduwiau gau ;
Tal d' addynedau i'r Arglwydd.

8 Rho ar dy Dduw, a'th Frenhin, ferch,
Dy fryd a'th ſerch cyfannedd,
A 'th Blant a gân dan lawenhau
Ei foliant a'i anrhydedd.

SALM XLV. y Rhan gyntaf, Meſur hir.

Gogoniant CRIST, *a gallu ei Efengyl.*

1 O Am gael yſpryd Duw, yn awr,
I foli 'Mhrynwr, Frenhin mawr,
Sef *Jeſu*, f' Arglwydd I a'm Duw,
O Pa mor dêg nefolaidd yw !

2 Ar holl Blant Dynion dan y Rhod,
Mae 'oruwch Ras yn dwyn y clod :
Rhed Cariad o'i Wefuſau 'n llif,
Bendithion rhyfedd heb ddim rhif.

3 Ymwiſg mewn arfau, gadarn Gûn,
Gwregyſa 'th Gleddyf ar dy Glun :
A marchog mewn mawrhydi a Bri,
Gwir ag addfwynder gyd a thi.

4 Dy Lid fel Piccell lem, neu faeth,
'A trwy d' Elynion cyndyn caeth ;
Neu Eiriau mwyn Trugaredd Rad,
A dawdd y cyfryw wrth dy dra'd.

5 Dy Orſedd erys byth, o Dduw,
Gras yn dy Law 'th Deyrn-wialen yw,
Cyfiawn yw 'th waith a'th ddeddfau i gyd
Gras a Chyfiawnder hoffi o hyd.

Dy

Dy Dduw, tywalltodd lawr o'r Nen
Olew llawenydd ar dy Ben;
Bendithiodd ef a'i Yſpryd byw
Ei Gynfâb uwch holl feibion Duw.

SALM XLV. Yr ail Ran,
Mesur hir. CRIST *a'i Eglwys*;
neu, y Briodas ddirgelodig

MOR deg yw Brenhin mawr y ſaint
Mawrhydi a Grás ei harddu maent;
Daw a bendithion 'lawr o'r Nef,
I ennill Pobl iw garu ef.

Ar ei ddeheulaw gweled cair
Yr Eglwys yn ei Gemwaith aur;
Ei neſol Wiſg rhyfeddol yw,
Llawenydd a Chyſtawnder Duw.

Gwna 'i thegwch fel yr eiddo 'i hun,
I'w Orſedd geilw 'i wrth ei glun;
Gan ddwe'yd, Ferch ddieithr deg ymâd
A holl eulunod Tŷ dy Dad.

A'r Brenhin llawenycha 'n fwy
Oth herwydd pan anghofiech hwy;
Er ef, a 'moſtwng iddo 'n wiw,
Dy Briod a'th wneuthurwr yw,

O ddedwydd awr, pan gyrcho ef
Di 'ſynu 'i Frenhinllys Nef;
Ath feibion oll, anneirif lu,
Teyrnaſant fel tywyſogion fry.

A pharch coroner byth ei Ben,
Pob Oes molianned ef (*Amen*)
Dodforwn ninneu 'n llon ein llef,
Oſtyngiad mawr ei Gariad ef,

SALM XLVI. Y Rhan gyntaf meſur
Diogelwch a gorfoledd yr eglwys ymhlith anghyfaneddfa gwladol.

DUW ydyw noddfa 'r Saint a'u grym
Mewn Stormydd o drallodion llym

Cyn

Cyn gallom draethu wrtho 'n cwyn,
Presennol gymmorth mae e'n ddwyn.

2 O'u lleoedd aed y bryniau o'r bron
I lawr i'r dyfnder dan y don:
A figled dychrynfeydd y byd,
Nid ofna 'n Hangor gref ddi-gryd.

3 Rhued y Mor a'i donnau dig,
Yn heddwch Duw ein henaid trig;
Tra bo'r Trigolion ar bob Traeth
Yn ofni 'r llanw 'n llawn o aeth.

4 Mae afon bur a'i ffrydiau byw
Sydd yn diwallu Dinas Duw;
Llawenydd, Cariad, Bywyd llon
'Dwfrhant ein Preswylfeydd yn hon.

5 Dy air sy Sanctaidd afon ddofn,
A fawdd ein holl derfysglyd Ofn;
Rhydd d' addewidion felus Hedd,
A nerth i Eneidiau lleſg eu gwedd.

6 *Seion* yn ſiccir byth a ſai:
Cariad ei Brenhin mae 'n fwynhau,
Seilfaenwyd hon a'i muriau ſerth,
Ar ei Wirionedd ef a'i nerth.

SALM XLVI. Yr ail Ran, Meſur hîr.

DUW yn ymladd dros ei Eglwys.

I'T H Frenhin, *Seion*, cred o hyd,
Er Treiſwyr a Theyrnaſoedd Bŷd;
Pan roddo 'i holl-alluog Lêf,
Y Bobl a dawdd a'u terfyſg gref.

2 Tros *Jacob* gynt ymladdodd Duw,
Duw *Jacob* etto 'n cymmorth yw;
Gwelwch weithredoedd ei Law gref,
Pa anghyfannedd waith wnaeth ef.

O

3 O For i For, o Draeth i Draeth,
Goſtegu ſwn rhyfeloedd wnaeth:
Pan ruo 'i Daran oddi draw
Daw 'r Bobl i hedd gan ofn a braw.

4 Y Bwa a'r ffonn ſe 'i tyrr yn fân,
Cerbydau a lyſg â nefol dân:
Trigolion Daear oll diſtewch,
A'i Ogoneddus Lef gwrandewch.

5 " Peidiwch, a dyſgwch mi ſy Dduw
" Dyrchefir fi 'myſg Dŷnol-ryw;
" Adwaenir, ofnir fi trwy 'r Byd,
" Yn *Seion* mae Ngorſeddfa o hyd.

6 O Arglwydd, holl alluog Dduw,
Tra b'om mor agos iti 'n byw,
Ein ffydd ddi ofn a gân yn hŷ
Annogaeth i byrth Uffern ddu.

SALM XLVII. Meſur cyffredin.
Criſt *yn Eſgyn ac yn Teyrnaſu.*

1 O Cenwch Fawl i Frenhin Nef,
A llafar Lef nefole'dd:
Boed i bob Gwlad, mewn Hymnau glân
Ddyrchafu Can o Orfoledd.

2 *Jeſu* ein Duw, ſy 'n mynd i'r Nef,
A chyd ag ef Lu nefol,
I'w warchad wrth ddyrchafu i'r Nen,
A'u Hudgyrn llawen ſiriol.

3 Angylion, mawl i'w Brenhin rhoent,
Plant Dŷnion boent i'w dilyn;
Cenwch ei Glod trwy 'r Ddaear gron,
Can's ef ar hon ſy Frenhin.

4 Molwch ef gyda pharch yn gall,
Boed deall yn flaenorol;
Na ſtommwch ef a ſeinfawr Gân
Ar dafod anyſtyriol.

5 Yn *Iſrael* gynt 'r oedd Gorſedd Duw,
Hon oedd y Rhyw etholodd:
Ond cleimio 'r Bŷd i gyd mae 'n awr,
Ei Ras a braw' 'r Cenhedloedd.

6 Ynyſoedd *Brydain* ſ' eiddo 'ſo;
Duw *Abrah'm* yno 'dweunyr:
Brenhinoedd, plygant ger ei fron,
A Thywyſogion pybur.

SALM XLVIII. *Adn* 1. 8.

Y Rhan gyntaf, Meſur cyffredin.

Yr Eglwys yw anrhydedd a diogelwch y Deyrnas.

1 YR Arglwydd, ein Duw ni ſy fawr,
Bo'i Enw 'n glodfawr heſyd;
Mae 'n gwneuthur ei Eglwyſi glan
Ei brif Breſwylfan hyfryd.

2 O pa mor deg i'n golwg yw
Temlau ein Duw o gwmpas:
Anrhydedd ein Priödor Fan,
Ac Amddiffynſa 'n Teyrnas.

3 Yn *Seion* adnabyddir ef
Yn Noddfa gref mewn trallod;
Diſgleiriodd lechydwriaeth glau
Trwy 'i holl balafau hynod.

4 Pan fai Brenhinoedd mawr y Bŷd,
Yn uno 'nghŷd i'w herbyn:
A gwel'd fod Duw o fewn y Fan
Mwy ffoeſant gan fawr ddychryn.

5 Pan ddelo Llongau mawr yn llu,
I aflonyddu 'n Tiroedd;
Fe enfyn dymheſtl uchel ſŵn
I'w ſoddi hw' 'n y Moroedd.

6 Ni glywſom gan ein Tadau fu,
A mynych canfu 'n Llygaid,

Mor

Mor dda y Cadwai Duw o'r Ne',
Y Gorlan lle bai ' Ddefaid.

7 Mewn Trallod, Newydd o bob rhyw,
I Dŷ ein Duw cawn fyned :
Ei Ras rhyfeddol ef coffawn,
Ac yno cawn ymwared.

SALM XLVIII. Adn. 10——14.

Yr ail Ran Meſur cyffredin.

Prydferthwch yr Eglwys ; neu, addoliad a Threfn yr Efengyl.

1 MOR bell adwaenir d' Enw da
Y Byd a draetha 'th Foliant,
Dy Saint, o Dduw, wrth d' Orſedd lan,
Eu parchus gan dyrchafant.

2 Boed *Juda* 'n llawen y pryd hyn
Ar *Seion* Fryn dewiſol ;
A thraethed waith dy Ddwylo glan,
A 'th 'wllys cyfan hollol.

3 Dieithriaid rhodiant' amgylch hon,
Sef *Seion* ein preſwylfa :
I weld dy adeiladaeth bur,
A'th Sanctaidd Dir ſydd yma.

4 Llywodraeth lan, a threfn dy Dŷ
Addoliad dy Gynteddfod ;
Y, Mawl a'r Addunedau prudd
I w Gwledydd rhoddant wybod.

5 Mor ddoeth, mor Ogoneddus wych,
Yw 'r gwaith i edrych arno ;
Gwell na defodau 'r Gyfraith fu,
Ag Aur oedd wedi 'u trwſio.

6 Y Duw ym ni 'n addoli 'n awr.
Hyd angau awr fe 'n harwen,
Tro'm yma 'n byw ein Duw fydd ef :
Ac yn y Nef drachefen.

SALM XLIX. 6—14 Y rhan gyntaf, Meſur cyffredin.

Balchder Marwolaeth, neu, *Wagder Bywyd a chyfoeth*,

1 PA ham mae 'r gwr cyfoethog cryf,
Mewn balchder hyf yn chwyddo:
Wrth wel'd ei barch a'i Ddâ a'i Stor,
Fel llanw 'r Môr yn lliſo?

2 (Pa ham mae 'n diyſtyru 'r tlawd
Or un Clai gawd ag ynteu:
A boſtio fel 't ai 'Gnawd e'n uwch
O amgen Lwch ei ddechreu;)

3 Ni ddichon ei holl Olud mawr
Ddwyn pardwn, awr i'w Ene'd
Na rhoi iw Frawd rhag Angau llym
Un fynyd ddim ymwared.

4 Can's nid yw Bywyd ddim ar werth,
Rhy fawr yw Pridwerth hwnnw;
Cyfiawnder gwobr o aur ni fynn,
Am attal Dyn rhag marw.

5 Mae 'n gwel'd y doeth, a'r anoeth ffol,
A'r Gwrol a'r Di-galon
Yn gado'u meddiant bawb un-wedd,
Yn mynd i'r Bedd yn dlodion.

6 Ac etto 'i dyb a'i falchder hŷ,
Yw ſaif ei dŷ 'n Dragywydd;
Ac fel 'bo i enw bara'n hir
Rhydd hwn i'w Dir a'i Geurydd.

7 Ffol yw ei Dyb a'i Obaith cam,
Clau deifydd am ei goffa:
Ei Enw gyd a'i Gelain gas
Mewn Daear las a bydra.

8 Hon yw eu ffordd ynfydion ffol;
A'u Plant o'u hol ſy 'n hoffi

'rhyn

'Rhyn 'ddwetto 'u Tadau yn gyttun,
" A gwnant yr ûn drygioni.

9 Os dynion ffol hebRas, yn wir,
A godir i anrhydedd,
Fel anifeiliaid byw wnant hw',
Ac hefyd marw 'r unwedd.

10 (Fel Defaid cleddir hwynt yn glau,
Fe ymborth Angau arnyn'
Nes eu deffroi a'r Udgorn mawr,
O'u Cwſg mewn dirfawr ddychryn.)

SALM XLIX. Adn 14, 15.
Yr ail ran Meſur cyffredin.
Marwolaeth a'r Adgyfodiad.

CHwi feilch ſy 'n gwneyd o'r cyfiawn
A fathru 'r tlawd heb eiriach, (wawd
Pan ddugo angau chwi i'r Bedd
Ni chwyd eich mawredd mwyach.

2 Dydd mawr y Farn try 'r rhod fel hyn
Y Cyfiawn eſgyn ' fynu:
Ac arglwyddiaetha ar y rhai,
Fu gynt yn ei ddi'ſtyru.

3 Fy Nuw a dderbyn f' Enaid tlawd
Pan el o'm Cnawd i ymaith;
A thyrr Garchardy 'r Bedd yn chwyrn
I godi f' Eſgyrn eilwaith.

4 Y Nefoedd yw 'm tragwyddol Fann,
A'm ſiccir Ran i bellach;
Terfyſged beilchion etto 'n hwy,
Ond ni bydd mwy i'm' rwgnach.

SALM XLIX Meſur hir.
Marwolaeth y Pechadur goludog;
Ac adgyfodiad y Saint.

PA ham mae 'r traws yn fathru 'r gwan
A boſtio 'r lydan Stat a fedd

Ni cheidw *Da* er amled fo'n,
Mo 'u drwg Berchennon rhag y Bedd.

2 Ni chant gan Angau oedi awr,
Er Trafau mawr a'u tryfor ffiwch:
Na chadw Brawd fo 'n trengu yn fyw,
Pan archo Duw hwn fynd i'r Llwch.

3 Daear a th'wllwch erchyll du
Fydd yn amgylchu eu Cyrph yn awr;
A'u Cnawd pafgedig teg ei wedd,
Try 'n Llwch a Llygredd yn y Llawr.

4 Fel Defaid ffol rhoi'r hwy 'n y Bedd,
Caiff Pryfed Wledd o'u Cig a'u Gwaed,
Pan godo 'r Saint y boreu pur
Cant y Gorthrymwyr wrth eu Traed.

5 Eu Parch a dderfydd yn y Llwch,
Eu rhwyfg a'u Tegwch mawr wych mwy
A'r cyfiawn a ddyrchefir fry,
I arglwyddiaethu arnynt hwy.

6 Fy Mhrynwr adnewydda 'm gwedd
Fe'm cwyd o'r Bedd drachefn i fyw,
Fy nghnawd a'm Henaid mwy ni 'mad,
Ond trigo 'n waftad gyd a'm Duw.

S A L M L. Adn 1—6 Y Rhan gyntaf
Mefur cyffredin.
Y Farn ddiweddaf; neu, *y Saint yn cael a gwobrwyo.*

1 YR Arglwydd, Barnwr mawr y Byd
A eilw 'nghyd y Werin,
Ger bron ei Faingc o'r *Dwyrain* draw
A phawb ger llaw 'r *Gorllewin.*

2 Ni bydd i Gablwyr ddweyd o hyd
"Na chaiff y Byd ei farnu;
Ac am fod Duw yn oedi 'r Dŷdd,
Ymroi 'n ddi g'wilydd bechu.

Duw

3 Daw 'n Harglwydd ar Gymmylau 'r Ne'
O'i flaen bydd fflamie tanllyd;
Taranau, 'Storm, a th'wllwch fydd
Yn dwyn y dydd dychrynllyd.

4 Clyw 'r Nef ei alwad oddi fry,
Daw atto Lu o Angylion,
A'r Byd ac Uffern ofnant Farn,
Ein Harglwydd cadarn cyfion.

5 Ond ceſglwch fy holl ſaint, mae 'n ddweyd
" Y rhai fu 'n gwneud eu Cymmod
" A Duw, trwy aberth ei Fab Rhad,
" A'i Selio a'i Waed yn barod.

6 Eu ffŷdd a'u gwaith a eglurhair
A'r Byd a wnair i adde,
Mai cyſiawn 'r wy 'n gwobrwyo 'mhlan t,
A'm Grâs a folant hwythe.

SALML. Adn 10 11, 14, 15 23.
Yr ail Ran Meſur cyffredin.
Ufudddod ſydd well nac Aberth.

FEl hyn medd Duw " y meuſydd maith
" A'u helaith ddiadellau
" Ar anifeiliaid ar bob bryn
" Ynt f' eiddo yn ddi ammau.

2 " Ni foddia defaid aberth ſi
" Na byſtych wedi 'u lloſgi;
" Ffydd Gobaith, Cariad, Gweddi a mawl
" Yn hollawl wyf yn hoffi.

3 " Mewn Trallod galw arnaf ſi,
" A dygaf di i Rydd-did;
" Bryd hynny ceni imi Glod,
" A'th Dafod fel y dylid.

4 " Y Dŷn offrymmo foliant glân
" A'm gogonedda 'n oreu;

Ar

" A'r rhai a rodiant gyd a Duw
" Cant Fywyd i'w Heneidiau.

SALM L. *Adn* 1. 5. 8. 16. 21. 22.
Y drydedd Ran, Meſur cyffredin.
Barn Rhagrithwyr.

1 PAN ddelo *Criſt* i Farnu 'r Byd,
A'r Saint i gyd o'i gwmpas;
Fe eilw 'r bobloedd oll ger bron,
Gan ddweyd wrth ddŷnion diras;

2 " Nid eiſiau Ebyrth breiſion drud
" Rhof ar y Byd gondemniad,
" Allorau a ffurfiau ni leſân'
" Byth heb y Tan o Gariad.

3 A ph'eth y wnai Rhagrithwyr ſerth
" Yn dwyn eu haberth imi?
" Gan alw 'm deddfau 'n union iawn,
" A'u dwylo 'n llawn Drygioni.

4 " Tybiaſoch, rhagof gadw 'n gel,
" Er gwneuthur dirgel ddrygau;
" Ond dugaf hwynt i'r goleu 'n glau,
E'r Poen a gwae i'ch Eneidiau.

5 Clywch hyn ddibriſwyr Duw mewn pryd
Cyn 'nynno i Lid heb arbed;
Os ſyrthio dan ei Gleddau wnewch,
'D oes neb a gewch i'ch gwared.

SALM L. Ar teſur newydd.
Yr farn ddiweddaf.

DUW y Gogoniant enfyn allan Wys,
O'r *De* i'r *Gogledd* geilw 'r bobl ar frys
O'r *Dwyrain* i'r *Gorllewin* bloedd a roir,
Trwy 'r Bydoedd oll, y meirw a ddeffroir;
Athîſtiaid mwy yn gwawdio i Oed ni bydd
A'i ddial mwy ni chwſg, can's wele'r dydd.

Diſ-

2 Diſgyn mae 'r Barnwr, a'i holl lu ger llaw,
A than a Thymheſtl gyd ag ef a ddaw ;
Nef, Dae r ac Uffern, a phob peth neſewch,
A'i gyfiawn farn ar ddynion drwg gwrandewch :
Ond ceſglwch meddai ef, yn gynta 'm Saint,
Angylion dygwch hwy o bob lle maent.

3 Wele 'Nghyfammod byth yn ſiwr a wnaed ;
Trwy 'r byth ol aberth ſeliwyd hwn â Gwaed ;
A ſeinwyd ef ag enwau 'r Saint bob Oes :
Juddewon Groegiaid, dim gwahan nid oes :
Eu gorſeddfeydd eu tannu 'n ebrwydd gwnewch,
Fy Mhlant, a'm ffryns yn agos i'm cyflewch.

4 Mi yw eu Ceidwad, a'u galluog Dduw,
A'u Barnwr wyf, a hyn eu cyſur yw ;
Cyhoedded nef fy ngwirioneddau i ma's,
A'm cyfiawn farn ar bechaduriaid cas ;
Yn *Seion* cryned dynion drwg o'm bla'n,
Rhagrithwyr, barnaf, a'u holl dwyll i'r Tan.

5 Nid eiſiau Gwaed 'nifeiliaid o un rhyw
I'th euog farnaf, ddŷn anŵiol clyw ;
Heb dan o Gariad d' Ebyrth ni leſân',
O'r anifeiliaid biau fi o'r bla'n ;
Bwyſtfilod gwyllt a gwar, y'nt f' eiddo i gyd;
A r mannau oll lle porant yn y Byd.

6 O'th Fwyd, pe bawn newynog ni fwyttawn,
O Waed dy fyſtych yfed chwaith ni wnawn ;
Dy blygu Pen, ni ddichon fy moddhau,
Dy Drudar gwael, na'th addunedau gau ;
Fy Llygaid pur eu hudo chwaith ni wnair
A'th Wiſgoedd gwych o Emmau ac o Aur.

7 O adyn ffol po'dd tybiaiſt yn ddi ffael
Bodlonit Dduw a'r fath deganau gwael ?
Fy Ngras a'm deddfau ar dy dafod cawd,
Ond hoffaiſt dwyll a gwnaethoſt gam a'th frawd:
Ofer yw 'th Zel a'th Grefydd wag heb Râs,
Lladron yw 'th ffryns a Godinebwyr cas.

bum

8 Bûm ymarhous gan ddiſgwyl iti droi,
A'm Cerydd byth Gobeithiaiſt ti na ddoi,
A megaiſt yn dy Galon Dybiau gau
Cyd ddygei 'r cyfiawn Dduw, o hyd a'th fai;
'N awr wele 'm dychrynfeydd a'm llid ger llaw,
A'th ddrygau di dy hun a'th ddyd mewn braw.

9 O Bechaduriaid byddwch ddoeth yn awr,
Deffrowch cyn d'od y dŷdd ofnadwy mawr:
Newidiwch eich Meddyliau a gwellhewch,
Ffowch at y Barnŵr, ef yn gyfaill gwnewch;
Rhag iddo rwygo 'ch henaid prudd mewn braw,
Fel Llew heb neb i'ch gwared chwi o'i Law.

SALM LI. Y Rhan gyntaf. Meſur hir.
Yr Edifeiriol yn pledio am Bardwn.

MADDEU a thrugarha, o Dduw,
Gad 'Enaid edifeiriol fyw;
On'd helaeth yw dy Ras a rhydd,
On'd all Pechadur roi ynnot Ffŷdd?

2 Fy Nrwg ſy fawr, er hyn nid yw
Tu hwnt i allu Gras fy Nuw;
Di-derfyn yw dy Natur di,
Un-wedd dy Gariad boed i mi.

3 Fy Enaid golch oddiwrth bob Bai,
Glanha 'Nghydwybod i 'n ddi lai;
Mae baich o Euogrwydd mawr ar hon,
A'm Beiau gynt ſy ger fy mron.

4 Cyfadde 'r wyf fy Mhechod cas,
Sy 'n erbyn Cyfraith Duw a'i Râs
Os llidia'th Farn i'm herbyn i,
Fy namnio wnair, ond pur wyt ti.

5 Pe daliei 'th Goſp fy Mywyd brau,
Rhaid i'm yn Angau 'th gyfiawnhau;
Pe i Uffern bwrid f' Enaid byw,
Boddlonei Cyfraith gyfiawn Duw.

ond

6 Ond, Arglwydd, gwared Enaid gwan,
Sy 'n chwilio 'th air, a ga i'n rhyw ſann,
Addewid ber er cyſur bydd,
I'm cynnal rhag anobaith prudd.

SALM LI. Meſur hir.

Cyfaddef Pechod gwreiddiol a gweithredol.

O Dduw, mewn Pechod darfu i'm gael
F' Ymddwyn a'm geni 'n aflan gwael,
Tarddais i maes o Lwynau 'r dŷn
Trwy 'i Gwymp a'n llygrodd bob yr un.

2 Pan gynta anadlom Fywyd gwan,
Had Pechod marwol, tyf i'r lan;
Dy Ddeddf, Perffeithrwydd a fyn hi,
Ond ymmhob rhan halogwyd ni.

3 Duw mawr, rho Galon newydd i'm,
Ac Yſpryd pur, heb ddichell ddim:
O gwna fi 'n ddoeth i weld o hyd,
Fy Mherigl, a'm Iachâd mewn pryd.

4 Gwel, cwympo 'r wyf o'th ſaen fy Nuw,
Dy Râs, fy unig Noddfa yw:
Nid ffurfiau allanol 'all glanhau
Y Gwâhanglwyf, o'm mewn y mae.

5 Nid Gwaed Aderyn, na Gwaed Ych,
Nac *Yſop* nac Offeiriad gwych,
Na Nant rhedegog Môr na Lli,
'All olchi fy Halogrwydd i.

6 *Jeſu*, fy Nuw, i'th Waed y mae
Digonol allu i'm glanhau:
A hwn a'm gylch fel Eira gwyn,
Ni wnai 'r Aberthau gynt mo hyn.

7 Tra blino Euogrwydd fi 'n un wedd,
I'm Cnawd a'm Henaid nid oes hêdd:
Duw, d'wed it faddeu fy holl fai,
Gwna 'm Heſgyrn drylliog lawenhau.

ſalm

SALM LI. Y drydedd Ran, Meſhir *Gwrthgilwyr wedi dychwelyd*; *neu Edifeirwch a Ffydd yng Waed* CRIST.

DUW, 'rhwn a wrendy Weddi'n (rhwydd
Er bod fy Meiau oll i'th Wydd:
Nag edrych arnynt yn dy Lîd,
Ond o'th Gof-lyfyr tyn hwy 'gyd.

2 Pura fy Natur oll trwy Râs,
Fel y bo Pechod genn' i 'n gas:
Oddiwrthyf d' Yſpryd glân na thyn,
Na Llewyrch gwedd dy Wyneb gwyn.

3 Nis gallaf heb d' Oleuni fyw
Yn Alitud byth o Wydd fy Nuw:
Dod i'm d' Orfoledd etto 'n hwy,
A chadw fi na chwympwyf mwy.

4 Er i'm driſtau dy Yſpryd da,
Ei Help a'i Gyſur caniadha:
Gad i'm neſau o'th flaen, o Dâd,
I bledio Haeddiant dy Fâb Rhad.

Calon ddrylliedig, Arglwydd mwyn,
Yw 'r Aberth oll wyf fi yn ddwyn;
Duw 'r Grâs, nid yw 'n dirmygu hon,
Fyth pan fo i 'n Aberth ger ei Fron.

6 Fy Enaid ſy 'n y Llwch, o Dduw,
Yn adde 'th Farnmae cyfiawn yw;
Yn raſol edrych 'lawr o'r Nef,
A'm henaid euog achub ef.

7 Yna dy ffyrdd a draetha 'i ma's,
A Phechaduriaid ddyſg dy Ras;
Mi brofa 'u dwyn at Griſt a'i Wa'd,
A molant Dduw a'm Bardwn rhad.

Fy

8 Fy nhafod hwyla â nefol dân,
A'th lechydw riaeth fydd fy Nghân;
A'm Henaid oll a fawl Fâb Duw,
Fy nerth i a'm cyfiawnder yw.

SALM LI. Adn 3——13. Y Rhan gyntaf. Mefur cyffredin:

Pechod gwreiddiol a gweithredol yn cael eî gyfaddef a'i faddeu.

1 DUW tanna'i mlinder yn dy wydd,
A'm trwm Euogrwydd hefyd;
Yn erbyn Deddfau Duw a'i Râs,
Fy mhechod cas a gyfyd.

2 Pe i uffern troid fy Enaid tlawd,
A'm Cnawd i'r llwch ar wafgar:
Y Nef i'th farn bodloni wnai,
A'i Chyfiawnhau wnai 'r Ddaear.

3 Daethym o Lwynau *Adda* 'n wan,
Mewn cyflwr aflan budr,
C'wilydd yw 'nechreu i gyd, o Dduw,
A phechod yw 'm holl Natur.

4 Mewn Bŷd o ddrwg fy ngeni ces,
A'r llwgr a dynne's inneu,
Ac fel wy 'n mynd mewn Oed yn fwy
Cyfiawnach wy' i o Angau.

5 Golch fi o Dduw, a llawenhâ
Fy Enaid â 'th Drugaredd;
Iachâ fy Yfpryd drylliog gwael,
Dod imi 'th hael Orfoledd.

6 Na lwyr adawed d' Yfpryd fi,
Na chudd Oleuni d' Wyneb;
Fy Nghalon ddrwg yn newydd gwna;
A llanw 'i a'th Rafoldeb.

7 A'th rad drugaredd, traetha 'i 'n llon,
O flaen Plant Dynion etto:

Gwrthgilwyr ceisio Duw a wnant,
Ac a ddychwelant atto.

S A L M LI. *Adn.* 14——17. Yr ail Ran. Mesur cyffredin.
Edifeirwch a ffydd Yngwaed Crist.

TRugarog Dduw clyw ngweddi ddwys,
A symmyd bwys i' cuogrwydd;
Torr' lawr y Mur sy rhyngof fi
A'th Gariad di, sy Arglwydd.

2 Dy Bresennoldeb imi dôd,
A'm Tafod gaiff cyhoeddi
Yn uchel dy Gyfiawnder glan,
Ac ar sy nghân dy foli.

3 Nid Gwaed 'nifeiliaid all'sei 'n llawn
Etioed roi lawn am Bechod;
Ond Gwaed y *Iesu* digon yw,
I wneyd a Duw ein cymmod.

4 Yr Enaid blin so 'n teimlo 'i bla
Duw, ni ddirmyga 'r cyfryw;
Yspryd a Chalon ddrylliog glaf
Ein Haberth pennaf ydyw.

S B L M LIII. Adn. 4——6. Mesur cyffredin.

GElynion a'i ynsydu maent
Sy 'n dita 'r Saint mor greulon?
Un' wyddant sod ei Prynwr mwyn,
Yn gwrando cwyn Plant *Seion*.

2 A Braw disymmwth cant eu dal,
Braich ddial Duw heb arbed
A wasgar Esgyrn sawl a wnant
I'w anwyl Blant ef niwe'd.

3 Oter y bostia Plant y Fall
Eu deall a'u Harfogaeth;

Dun

Duw pan ddirmygo 'i lluoedd mawr,
Clau dont i lawr yn 'Sglyfaeth;
4 O Brenhin *Seion* a'i Air llon
Adfero'i Chaethion bellach;
A *Iago* a'i Blant a lawenhâ,
Ni wyla *Juda* mwyach.

SALM LV. 8. 16, 17, 18 21:
Mesur cyffredin. *Cynhaliaeth i'r Enaid cystyddiol a phrofedigaethus.*

1 O Ddduw fy Noddfa gwrando nghri,
Ac edrych di fy Nagrau;
Clans Byd ac Uffern a'm casânt
A llawenhant yn f' ofnau.

2 At F'enaid i annelu wnant,
A llanwant o Euogrwydd;
Terfysgau i siglo 'm Hyder ma'th
A'm gobaith yn yr Arglwydd.

3 Mae holl Linynnau Nghalon wan
Yn Seinio gan Riddfannau;
Dychryn ac ofn o'm Cylch sy 'n bod
Ynghanol Cysgod Angau.

4 I mi fel Clommen, o na bai,
Adenydd clau i hedfan:
Oddiwrth y rhai'n y ffown ymmhell,
Lle cawn 'i well Gorphwysfan.

5 Awn ymaith i ryw anial Le,
Cawn yno Artre llonydd:
Lle ni ddoi storm o falais tynn,
Temtasiwn yn dragywydd.

6 Ond Gobaith gau, Dichymmig gwag,
Yw diangc rhag llid *Satan*:
Fy nghadw all fy Arglwydd da
Yn gystal yma ag un man.

Gorphwyſiad.

7 Y Boreu mi weddia 'n brudd
A chanol Dŷdd yn waſtad,
A'r Nos yn daer y ceiſia i 'm Duw,
Ac ef a glyw 'm deiſyfiad.

8 Rhag ofnau ceidw f' Enaid gwan,
Neu 'm gwared pan fwy 'n ofni;
Angylion ddengmil dont o'r Nef,
Pan archo ef i'm gweini.

9 Bwriaf fy maich ar f' Arglwydd cu,
Fe 'i deil i fynu 'n ffŷddlon;
Gorphwyſaf ar ei Air di lyth
Na ſyrthia byth o'r cyſion.

10 A'm ffŷdd yn ofer ni chaiff fod,
Gwaſgara 'i Glod a'm genau;
Pan na chaiff Twyllwyr drwg eu bryd,
Fyw hanner hŷd eu Dŷddiau.

S A L M LV. 15 16 17 19. 22,
Meſur byrr, neu, gyffredin.
Llwyddiant peryglus; neu *annog Duwioldeb beunyddiol.*

DEwiſed Dŷnion (anwir,) drwg
Y ffordd a'i dwg i Angau;
Ond, Arglwydd, yn d' Addoliad di
Y treuliaf fi fy Nyddiau.

2 Fy llef (O Dduw) at Orſedd Grâs
Y Boreu glas cyſeiriaf;
Ceiſiaf dy Fendith ganol dŷdd
A'r Nos yn brudd addolaf.

3 Gwrandewi (dithau) ar fy llef
Fy Nuw o'r Nef yn raſol;
Pan drengo Dŷnion drwg mewn braw
Dan bwys dy Law ddialeddol,

byw

4 Byw ('n eſmwyth) maent heb gael i'w rhan
Ddim troion anghyſurus;
Am hyn ni pharchant d' Enw pur,
Na dyſgu gwneuthur d' 'wllys.

4 Ond (minneu) rhoi fy ngofal wnaf
A phwyſaf ar yr Arglwydd;
Trwy ffŷdd y bwriaf arno maich,
Fe 'm deil a'i Fraich rhag Tramgwydd.

5 Fe ddeil (a'i Fraich) ei anwyl Blant,
Na ſyrthiant byth yn hollol;
Eu Seilfaen mor ddiogel ſy'
Nad yſgog Gallu bŷdol.

SALM LVI Meſur cyffredin.
Gwaredigaeth o orthrymder; neu *Ofal Duw am ei Bobl mewn atteb i ffŷdd a Gweddi.*

1 DUW 'r hwn wyt fry 'n teyrnaſu 'n bur
Gwnai i orthrymwyr beidio;
Gwe. Genfigenwyr ymhob gwedd
A'm dorri 'm Hedd a'm blino.

2 Mae Meibion Trais a Chelwydd llym
Yn uno ym difetha,
Ond mewn Peryglon ar bob awr
Dy Air yw 'm gwerthfawr Noddfa.

3 Duw ſanctaidd, cyfiawn, ynnot ti,
Y rhoddais i f' ymddiried;
Nid ofnaf beth a wnel un Cnawd,
O'r llwch y cawd er gwyched.

4 Gŵyr droi fy ngeiriau maent i ddrwg,
Rhoi 'm rhan anamlwg feiau;
Drygioni fy 'n eu cynnor hwy,
A Llid a leinw 'u C'lonnau.

5 A gant hwy ddiange rhag dy Ddig,
A ſai 'u dichymmig ofer ?
O bwrw i lawr y beilchion drwg,
Gwna 'n amlwg dy Gyfiawnder ;

Gorphwyſiad.

6 Gofidiau 'r Saint a gyfrif Duw,
A'i Gluſt a glyw 'n Hochneidiau ;
F' achwynion ſy 'n ei Lyfr i gyd,
I'w Goſtrel dyd fy Nagrau.

7 Pan godwy 'm llef i'th Orſedd fry,
Y Drwg a ffy yn ebrwydd ;
Mor glau i'r Nef 'r â Gweddi wiw,
Mor agos yw yr Arglwydd.

8 Duw ſanctaidd, cyfiawn, ynnot ti
Y rhoddais i f' ymddiried ;
Nid ofnaf Allu Braich o Gnawd,
O'r llwch y cawd er gwyched.

Mae 'th Addunedau arnaf fi
Moliannaf di o'm Calon ;
Canaf, *Mor ffyddlon yw dy Air,*
A'th holl ffyrdd gair yn gyfion.

10 Rhag Angau cedwaiſt f' Enaid, JOR,
Rhyddha 'th Garcharor etto ;
A'm Calon, Llaw, a'm Bywyd i
Cant droſot ti laſurio.

S A L M LVII. Meſur hir:
Mawl am Gadwedigaeth, Gras a Gwirioneddd

1 DUW, ynnot mae ffynhonnau llawn
O Gariad ac anfeidrol ddawn ;
O Cudd fi dan d' Adenydd cu,
Nes chwyther heibio 'r Cwmmwl du.

2 I'r Nef at Dduw anfona i 'm llef,
Cwbihau 'ne ſyfiad i wna ef ;

Ei

Ei Angel enfyn oddi fry,
A rhag y ſtorm fe 'm ceidw 'n gu.

3 Uwch Nefoedd fry ymddyrcha, o Dduw,
Uwch trigfan yr Angylion gwiw ;
Dangos dy nerth trwy 'r Bŷd ar lled,
A Gwlad wrth Wlad dy wyrth a dd'wed.

4 Fy Nghalon yn ſefydlog ſy,
I ganu Mawl i'th Enw cu ;
Fy Nhafod deffro, ſeinia 'i Glod,
A'i Iechydwriaeth allan dod.

5 Uwch Daear ei drugaredd ſy'
Yn cyrhaedd i'r Eithafoedd fry ;
Saif ei Wirionedd byth heb goll,
Pan ymddattodo 'r Bŷdoedd oll.

6 Uwch Nef dyrchafer di, fy Nuw,
Uwch Moliant yr Angylion gwiw ;
Eglura 'th Râs trwy 'r Byd ar lled
A Gwlad wrth Wlad dy wyrth a dd'wed.

SALM LX Adn 1——5 10——13
Meſur cyffredin.

Ar Ddydd o ymoſtyngiad o herwydd afluydd-iant mewn Rhyfel.

1 O Dduw a fwriaiſt heibio ni,
A'n gado 'n ddi ymgeledd ;
Ai 'th Lid parhaus i'n herbyn chwyth,
A ddychwel byth Drugaredd ?

2 Mae dychryn dy Lidiawgrwydd llym
Yn toddi 'n grym a'n Calon ;
Bwhwman 'r ŷm gan ofnau blin,
Fel rhai ar Win yn Feddwon.

3 Mae *Brydain* fawr yn awr mewn braw,
Yn ofni 'th Law a'th ddyrnod ;

dy

Dy ddrylliog ynys hon iachâ,
A chadarnhâ rhag Cryndod.

4 A chyfod Faner iddynt hw'
Sy 'n ofni d' Enw cyfion;
A'th Darian cadw d' anwyl rai,
C'wilyddia eu Gelynion.

5 Dôs gyd â'n lluoedd ni i'r Gâd,
Bydd Geidwad in a Chapten;
Ni lwydda neb i'n herbyn ni
Pan godech di dy Wialen.

6 Ein Gwyr orchfygant yn ddi fraw
Trwy Nerth dy Law gynhorthwy;
Duw, fathra 'r cryf i lawr yn lân,
A'r lleſg fe 'i gwna 'n ſafadwy.

S A L M LXI, Adn 1 6.
Meſur cyffredin.
Diogelwch yn Nuw.

1 PAN wafgo triftwch lawr fi 'n brudd
Fy nghalon ſydd yn pallu;
Ymhell o gael dim Help, wrth raid,
Dyrchafa i'm Llygaid fynu.

2 O wele dalgraig uwch fy mhen
Duw bydd yn f' arwe'n iddi:
A Gorchudd dy Adenydd dod
Yn gyſgod i'm gwaſgodi.

3 O fewn dy Breſennoldeb di
Byth, Arglwydd mi arhoſaf;
Ty di yw Tŵr f' ymwared gre'
Y Noddfa lle ymguddiaf.

4 Rhoiſt Etifeddiaeth imi 'mhlith
Y rhai ſy 'n ofni 'th Enw;
Os cant dragwyddol Fywyd fry
Caf finnau feddu hwnnw.

ſalm

SALM LXII, Adn 5——12
Meſur hir.

Na ddylid ymddiried yn y Creaduriaid; neu, *ffydd yngras a Gallu Duw.*

1 FY Enaid edrych fynu at Dduw,
Fy nghraig a'm hamddiffynfa yw:
Ymmhob Caledi coda 'i 'm llef,
Diſgwyla 'i Iechydwriaeth ef.

2 Chwi Saint Gobeithiwch yntho 'n lan
Tywelltwch eich Calonnau o'i fla'n;
Pan ballo helpŵyr o bob rhyw
Ein Help digonol ni yw Duw.

3 Gwyr uchel radd, Twyllodrus yn'
A Gwagedd yw y gwaela ddŷn:
Mewn Clorian pe rhoid hwy ynghyd,
Yſgafnach ynt na Gwynt i gyd

4 Na rowch 'o'ch Calon, pwys na'ch bryd,
Ar amlder Aur na Phethau 'r Bŷd;
Pam rhowch eich pwys ar beth nid gwiw
Heb gredu 'r hyn a ddwedodd Duw?

5 Un waith y dwedodd e'n ddilai,
Un waith ac eilwaith Clywais mai
Pob gallu byth ſydd eiddo Duw;
Ei ofni a'i gredu ef rhaid yw.

6 Ond gallu ni theyrnaſa 'i hun,
Cans ar y Fainge mae Gras yn ûn;
Gras a Chyfiawnder Duw ynghyd
A'n hiawn wobrwyant ddiwedd Bŷd.

SALM LXIII 1, 2, 5, 3, 4.
y Rhan gyntaf, meſur cyffredin
Boreu Ddydd yr Arglwydd.

1 FY Nuw, yn fore mi a ddo'
Mewn Brys i geiſio d'Wyneb

Fy

Fy Enaid ſych llywygu mae
Heb gael mwynhau 'th Raſlondeb.

2 Fel Pererinion mewn Tir eras
Dan Wybren las fo 'n lloſgi,
A'u hiraeth am y ffrwd ddi baid;
Can's yfed rhaid neu drengu.

3 Gwelais d' Ogoniant trwy 'th holl Dŷ,
A'th allu yn diſgleirio:
Duw gad i'm weld ar hyn o bryd
Fath olwg hyfryd etto.

4 Nid holl Fendithion Gwledd a rydd
I'm Henaid prudd ſodlondeb,
Megis y profiad yno gês
O'th Ras a'th Breſennoldeb.

5 Nid Bywyd, a'i Lawenydd brau
All lawenhau fy Nghalon:
Neu gyfyd cuwch fy moliant i
A'th Gariad di 'm Duw tirion.

6 Fel hyn y gwnaf tra fyddwy 'i byw
Bendithia 'i ' Nuw a'm Brenhin
I'th geiſio codi 'nwylo wnaf
A'th Fawl a ganaf wedi 'n.

S A L M LXIII. 6——10 Yr ail
Ran Meſur cyffredin.

Meddyliau canol Nos yn cael eu hadgofio.

1 YNgwylfa 'r Nos Myfyriais i
Ar d' allu di 'r Goruchaf.
Mor hoff yw gweld dy Wyneb cu
Yr amſer du tywyllaf.

2 Fy Nghnawd i'm Gwely gorphwys 'r oedd
I fynu cododd f ' Yſpryd,
Fy Nuw, fy ngobaith, dwg, ('be fi,)
Yn agos imi 'th Iechyd.

Ir

3 I'r Nef yr eſgyn f' Enaid byw,
Tra bwyf am Dduw 'n myfyrio,
Ond dy Ddeheulaw ſydd i'm dal
Tra bwy 'n dy ddyfal geiſio.

4 Duw, droſof mae 'th Drugaredd gu
Yn lledu dy Adanedd;
Fy Nghalon am dy Gymmorth glan,
Am Tafod, gân o Orfoledd.

5 Ond ſpeilwyr Heddwch f' Enaid drud
Eu Broch a'u Llid goſtegir;
A'r Temtiwr orphwys byth tw ffau,
A'm holl Bechodau lleddir.

6 Rhoi i'm Gelynion farwol glwyf:
A gyrru hwy i anneddu
I dywyll fannau 'r Ddaear hon,
Neu i Eigion Uffern obry.

SALM LXIII. Meſur newydd, deg a deg. *Hiraethu ar ol Duw*; neu, *Gariad Duw yn well na 'r Bywyd.*

1 DUW mawr, fy hyder difalch goddef di,
Fy ngobaith wyt a'm holl Lawenydd i;
Priodoliaethau d' Enw mawr di lyth
Sy'n thwym i'm gwneud yn wynfydedig *byth.*

2 Y mawra'r doetha'r cyfiawn Arglwyddda
Ti yw fy Nhad a'm Duw, ymhoni wna',
A th Eiddo wyf trwy Sanctaidd Rwymau Wnaed
Dy Fâb, dy was a brynwyd gynt a gwaed.

3 A Chalon, Llaw, a Llygaid attat ti
Hiraethu 'n brudd ac edrych yr wyf fi;
Fel Teithwyr ſydd mewn Gwledydd ſychion brwd,
Ardrengu 'mron am ffynhon oer neu ffrwd.

hoff

4 Hoff genni 'n foreu 'm ddangos yn dy Dŷ
Ymmhlith dy Saint, a cheifio 'th Wyneb cu
Gwelais d' Ogoniant yno 'n fynych iawn,
A theimlais Rin dy Râs a'i allu llawn.

5 Nid ffrwythau a Gwin y rhai fy 'n teimlo ('n blas
Na'r holl Lawenydd ar y Ddaear lâs,
All byth fy ngwneud mor ddedwydd mewn (un wedd,
A'r Prydybwy'n mwynhau dy ras a th hedd.

6 Bywyd ei hun, Duw, heb dy Gariad di
Ni ddichon rhai dim Pleser chwaith i mi;
Ni byddai im ond Baich rhy flin iw ddwyn
Pe gyrrit fi o wydd fy Arglwydd mwyn.

7 Ynghanol oriau effro 'r nos, pan fo
Gofalon blin yn llanw mhen a'm co;
Un Meddwl am fy Nuw, mor hyfryd fydd,
Ac Esmwythâd im ar fy Ngwely rhydd.

8 Dyrchafa 'i nwyław a chyfoda' i'm llef
Tro Anadl gennyf iw foliannu ef,
Yn hyn o waith o'm Calon, llawenhaf,
Athreulio 'r hyn fy 'n ol o'm dyddiau wnaf

SALM LXIII. mesur byr neu gyffredin.
Ceisio DUW.

1 FY Nuw, cyd ddwg a'm (Tafod) i
Dy alw di fy Eiddo;
Fy llef foreuol clyw o Dâd,
A phrawf o'th Gariad dyro.

2 Mae f' Enaid (fych i) yn lleſgau,
Ac erfyn mae 'th drugaredd;
Ymdeithwyr mewn Gwlad fych yn ſiŵr
Ni flyſiant ddw'r mor rhyfedd.

b

3 O ſewn d' Eglwyſi (hawddgar) di
Mae 'm Hiraeth i am drigo :
I wel'd d' Ogoniant di a'th Nerth,
A'th Wyneb prydferth ecto.

4 Byw (yma) heb dy Gariad di,
Ni rydd i mi foddlonrwydd :
Nid oes o'r fath Lawenydd mwith,
Ag ſydd yngwaith yr Arglwydd.

5 (At Dduw) dyrchafu Nwy-law wnaf
Tr'wi byw y caf dy foli :
Nid Gwledd yn llawn danteithion per
A'll roi 'r fath Bleſer imi.

6 Mewn oriau (pan ſwy 'n' effro 'r Nos
Am d' achos y myſyriaf;
Mor ddoeth yw 'th Gyngor, ac mor ſwyn,
Wyt yn ymddwyn tu ag attaf.

7 Fy Enaid (Arglwydd) attat ſſy,
Can's ti a fu 'm Cynhorthwy ;
Ac ar dy gret Raglunieeth di
Y pwyſaf fi tra byddwy'.

8 Dan Gyſgod d' Edyn (tirion) jach
Bydd f' Enaid bach yn ddi ofal ;
Yn ſſyrdd fy Nhad 'r wy 'n mynd ymlaen
A'm Camrau mae 'n eu cynnal.

SALM LXV. Y Rhan gyntaf
Meſur cyffredin.
Duw yn Wrandawr Gweddi, a galw 'r Cenhedloedd.

1 DUW, Mawl yn *Seion* d' erys di,
A thelwn ni 'n Haddumed ;
Gwrandewi yno 'n llef a'n llais,
Pob Cnawd a gais dy Nodded.

2 Cynhyddu mae 'n Pechodau cas,
Ond nawddol Ras ſydd eiddod:
Rho nerth a deall in' o Dduw,
I faeddu pob rhyw Bechod.

3 Y Rhai, 'ddewiſech, gwyn eu byd,
A'u neſu heſyd attad;
Cant Le i'th Dŷ a gwledda 'n fras
Ar Fwrdd dy Ras a'th Gariad.

4 Wrth atteb gweddi d' Eglwys gu
Dangoſi bethau mawrion,
Dy Feyrn ofnadwy a gant ddwyn
I ben dy ſwyn Amcanion.

5 Fel hyn, gwêl Pobloedd o bob rhyw
Mai da yw Duw a chyfion;
Ac attat 'Nyſoedd pell a hed,
Ac ynnot Cred Plant Dŷnion.

6 Arſwydant rhag d' Arwyddion ſyn
Pan wibiont yn yr Wybren;
Ond dyſgu 'th Sanctaidd Air a gant
A'th garu wnant drachefen.

SALM LXV Yr ail Ran.

Meſur cyffredin.

Bendithion y Gwanwyn; neu, *Ddaw yn rhoddi Glaw*. Salm i'r Llafurwr,

MOR dda yw 'r Arglwydd, Brenhin ne'
Am Bawb mae ſe 'n gofalu;
I mwel'd a'n Tir bob Gwanwyn bydd
Pair i'r Porſëydd dyfu.

2 Cymmylau fel Afonydd mawr,
Sy 'n bwrw i lawr heb ddiffig,
Wrth d' Arch Gafodau Bendith bur
I lonni 'r Tir ſychedig.

yna

3 Yna yn iraidd Rynnau 'r ma's
Yr Egin gwyrddlas, tarddant;
Dyffrynnoedd, ffrwythlon fydd y rhai'n
A'r Hyſmyn druain, Canant.

4 A'r Brynniau bychain llawenhân
Pan ſyrthio 'r man gafodau;
Gweirlodydd fyddant hardd eu gwedd,
A phere'dd eu Haroglau.

5 Y Briddell ddiffrwyth wedi 'r Glaw
Sy 'n addo daw hi 'n ffrwythlon;
A'r Craſdir fydd yn wyrdd ei ddrych,
Er Gobaith gwych i'r Hyſmon.

6 Coroni 'r ydwyt ti fel hyn,
Y Flwyddyn a'th Ddaioni,
Y Bryniau 'n llawn o Ddefaid yn'
A Dyled Dŷn yw 'th foli.

S A L M LXVI Y Rhan gyntaf
Meſur cyffredin.

Gallu a Daioni llywodraethol; neu, *broſi ein Gras trwy gyſtyddiau.*

1 CEnwch holl Bobl y Ddaear gron
A llafar llon i'r Arglwydd:
Datgenwch gyda Melus Gân
Ei Foliant glan yn ebrwydd.

2 Dywedwch wrth y Cadarn Dduw,
Ofnadwy yw dy fawredd;
Gwnei' Bechaduriaid ffoi o'th wydd,
Neu blygu 'n rhwydd wrth d' Orſedd.

3 Dewch, gwelwch Ryfeddodau 'n Duw,
Mor fawr yw ei Weithredoedd;
Ei Wialen yn Llaw *Moſes* rhoes;
Yn ddwy ran troes y Moroedd.

4 Gwnaeth ganol y Mor coch yn ſych,
I *Iſrael* wych fyn'd trwyddo:
Bryd hyn yr Eglwys, llawenha'dd,
Yn Nuw hi gadd ymffroſtio.

5 Trwy 'i allu byth teyrnaſu wna,
A feiddia Gwrthryſelwyr
Gyffroi tragywyddol Frenhin Nef,
A'i demtio ef i'r Frwydyr.

6 Bendithiwch Dduw, na pheidiwch byth,
Chwi Saint rhowch ddilyth Foliant:
Mae 'n cadw 'n hoes a'n hedd mewn gwlad
Mae 'n dal ein Traed na lithrant.

7 Duw profaiſt ni, (ond nid o gas)
I beri 'n Gras ddiſgleirio;
Fel Arian fydd yn godde 'r tân
I'w coethi 'n lan a'u puro.

SALM LXVI. 13——20. Yr ail Ran, Meſur cyffredin.
Mawl i Dduw am wrando Gweddi.

1 TAlaf fy Addunedau 'n awr,
I'r Arglwydd mawr ſydd uchod,
Yr hwn a glybu 'ngweddi brudd
Mewn cyfyng ddŷdd o drallod.

2 Fy Nghalon a'm Gwefuſau can'
Roi allan ei Drugaredd:
Chwychwi ſy 'n ofni 'r Arglwydd, dewch,
Gwrandewch ei Wyrthiau rhyfedd.

3 Pan ddaeth Trallodion am fy Mhen
Cedais i'r Nen f' ymbiliau;
'Fe a waredodd f' enaid cu
Rhag uffern ddu ac Angau.

4 Pe rhoiſwn yn fy Nghalon Le
I Bechod ne Demtaſiwn,

Yr

Yr Arglwydd, ni wrandawſei nghri,
A'i Foliant ni chanaſwn.

5 Ond bendigedig byth fo ef
Duw clybu 'm llef o ddifrif;
Ni throes ef ymaith ddim o'm cwyn,
Na'i Galon fwyn oddi wrthyf.

SALM LXVII. Meſur cyffredin.
Llwyddiant y Deyrnas a chynnydd yr Eglwys

1 O Dduw, llewyrcha ar *Brydain* fawr
A diſglair wawr Gras Nefol;
Datguddia 'th nerth trwy 'n Parthau i gyd
A'th Wyneb hyfryd ſiriol.

2 Ynghanol hon, ein hynys ni
Bydd Harddwch inni ac urddas;
Ac megis Mûr o gaerog Dân
Tyr'd amgylchyna 'n Teyrnas.

3 Pa bryd y bydd i'th Enw ein *JOR*
O For i For ymdannu;
A Phobloedd pell adnabod Duw i
Eu Prynwr byw a'i garu.

4 Chwi Wledydd pell molwch yr Jon
A llafar Don yn barchus;
A chaned Brydain hithau 'i glod,
A Thafod gorfoleddus.

5 Yr Arglwydd mawr, ben Barnwr fry
Sy 'n eiſte 'n ei Deyrngade'r
Rheoli 'r Byd mae 'n ddoeth a da
Mewn Cariad a Chyfiawnder.

6 Mae 'r Ddaear iddo 'n ufuddhau,
Rhoi cynnyrch ma'i Gyflawndeb,
Coroni 'n Hynys ni mae Duw
A hedd a gwiw ffrwythlondeb.

7 Mae 'n Harglwydd *Jeſu* yma 'n hau
Ei Ras a'i Ddoniau o ddau tu;
A Holl Derſynau 'r Ddaear gron,
Wrth weled hon ſy 'n ſynnu.

S A L M LXVIII. Y rhan gyntaf.

Adn 1—6, 32—35, Meſur hir.

Dialedd a Thoſturi Duw.

1 CYfoded Duw 'n ei Allu cry',
A rhagddo ffoed uffernol Lu;
Fel Mwg neu Niwl yn wael eu hynt
Sy 'n ffoi o flaen tymheſtlog Wynt.

2 (Mewn Gwiſg o fflamiau tanllyd, daw
lawnder a dial yn ei Law;
O'i flaen gelynion trengu wnan'
Fel ewyr yn toddi wrth y Tan.)

3 Gyrr a tharana trwy 'r holl Nef;
Seinir *JEHOFA'i* Enw ef;
Plant Gras rhowch fawl i'w Enw 'n llon,
Saint gorfoleddwch ger ei fron.

4 Y Weddw a'r ymddifad ſydd
Yn ffoi at Dduw mewn Ingder prudd;
Y tlawd a'r diborth cant yn rhad
Dduw 'n Farnwr pur, a thirion Dad.

5 Fe dyrr Cadwynau 'r Caethion prudd,
Caiff Carcharorion wel'd y Dydd;
Ond caiff Gwrth'nebwyr 'wllys Duw
Mewn Rhwymau ſyth a th'wlwch ſyw.

Gorphwyſiad.

6 Teyrnaſoedd, Thronau, ſe piau i gyd,
Coronwch ef a mawl trwy 'r Byd;
Ei Allu mawr a'i Enw glân
A'i Barch datgenwch ar eich Cân.

A

7 A'i uchel floedd fe ſigla 'r Nef,
Mewn Eirf, ofnadwy ydyw ef,
Yn Iſrael 'dweunir nawdd ein Duw,
Ac Iſrael ei Deyrngadair yw.

8 Ei ddeiliaid oll, Bendithiwch ef,
Eich Brenhin yw a'ch Noddfa gref;
Pan ſyrthio 'r Byd gan ofnau ſynn
Duw ydyw Nerth y Saint bryd hyn.

SALM LXVIII. Yr ail Ran
Meſur hir Adn, 17, 18,
Eſgyniad Criſt a rhoddiad o'r Yſpryd.

1 ARglwydd, pan aethoſt 'fynu i'r Ne
Angylion ddeng-mil lanwei'r lle;
O'th Gylch 'r oedd nefol Geidwaid Lu
I'th warchad fel Cerbydau fry.

2 Nid *Sinai* 'n fwy 'i Ogoniant oedd,
Pan fu yr Arglwydd yno ar goedd;
Yn traethu 'r Gyfraith ûwch eu llaw,
Nes taro 'r Bobl gan ofn a braw.

3 Pwy 'ddywed faint o Orfoledd fu,
Wel'd holl bwerau uffern ddû,
Wnaeth mil o 'neidiau 'n gaethion triſt,
'N awr mewn cadwynau 'n gaeth gan Griſt.

4 Dyrchafodd Criſt i'w Orſedd fawr,
A'r Yſpryd glan anfonei 'n lawr;
A Rhoddion Gras i gyndyn Ryw
Fel gyd a rhain y trigei Duw.

SALM LXVIII Y drydedd Ran,
Meſur hir, Adn 19, 9, 20, 21 22.
Mawl am Fendithion tymhorol; neu, *Drugareddau cyffredinol a neillduol.*

1 BEndithiwn ein Duw cyfiawn da;
Ein llenwi a Bwyd a'n llonni wna;

mne

Mae 'n tywallt ei Fendithion' lawr
A llwytho 'n hoes a'i gyfoeth mawr.

2 Mae 'n gyrru 'r Haul o dda utu 'n hir,
I lonni 'r ffrwythau, twymo 'r Tir;
Pair i'r Cymmylau gludo glaw,
I wlychu 'r Ddaear ſych fe ddaw,

3 Gofalu am ein Bywyd mae,
A'n cadw rhag marwolaeth frau;
Nawdd gyd a Duw, a Iechyd ſy',
Mae 'n gwella 'r gwan, mae 'n gwilio 'r cry.

4 I'r Sant a'r drygddyn mae 'n rhoi praw'
O gyffredinol ddoniau 'i Law;
Ond y gwahaniaeth 'n ol y mae
Y Poen neu 'r hawddtyd ſy 'n parhau.

5 'R hwn ſigodd Ben y Sarph trwy Wa'd
Fe ſathra etto ei holl Had;
Rhydd fythol Glwyf i'r drygddyn ſyth
A'i Obaith, fe 'i c'wilyddia byth.

6 Ond cyfyd a'i Ddeheulaw 'r Saint
O'r Ddaear ddofn a'r mor lle maent;
A dwg hwynt i'w gynteddau fry,
I wledda ar ei Gariad cu.

SALM LXIX. Adn 1-14.

Y rhan gyntaf Meſur cyffredin.

Dioddefiadau Criſt am ein hiechydwriaeth.

1 DUW achub, mae 'r llifeiriant llawn
" Yn torri mewn ar f' enaid;
" Aeth triſtwch dros fy mhen a'm Bron
" Fel Dyfroedd mawrion diriaid.

2 " Mewn Dagrau treulio 'r dydd wyf fi,
" A'm llafar wedi darfod;
" Fy Nuw, am danat diſgwyl 'r wy?
" Nag oeda 'n hwy rhag dyfod.

maent

3 Maent yn caſau fy Enaid pur,
" Heb achos (gwir gyfreithlon)
" Amlach na gwallt fy mhen, o Dduw,
" A chedyrn yw 'm Gelynion.

" 4 Bryd hynny tela'is dd'led fy hun,
" Na thal'ſei dyn ammherffaith;
" A rhois y Parch i'th Gyfiaith bur
" A ddug rhai anwir ymaith.

" 5 Yn Enw'r mawr *Feſſia* 'n llyn
" Y Prophwyd fy 'n galaru;
" I beri 'n Calon ni driſtau,
" A llawenhau wrth hynny.

" 6 Fy Seintiau bellach, llawenhant,
" Yn f' enw i cant wir iechyd;
" Can's dugais eu baich trwm dj hoen
" O G'wilydd, Poen a gofyd.

" 7 Galar fel gwiſg a'm tows bob tu,
" Sachliaîn fu fy nhrwſiad:
" Wrth wneuthur i Eneidiau noeth,
" Gyfiawnder coeth yn Wiſgad.

" 8 Ym mhlith *Juddewig* Frodyr bum
" Fel dieithr Ddŷn ar gyhoedd;
" Dugais eu Dirmyg gwael an-wiw,
" I ddwyn at Dduw, 'r Cenhedloedd.

" 9 Daethum yn lle camweddus Ryw,
" I wneyd i Dduw Ufudd-dod;
" Ond pan lanhais I Dŷ fy Nhad,
" I'm Zel ddi frâd rho'wd Athrod:

" 10 Fy Ymprydd a'm Griddfannau glân
" A wnaed yn Gân i'r Meddwon:
" Ond Duw, oddi ar ei Orſedd fry
" A glybu fy Achwynion.

a gh-

12 " A chubodd fi o'r Pydew dû,
" A'm Henaid cu rhag ſuddo ;
" Sefydlodd ef fy Nhraed (yn wir)
" Ar ſicer Dîr rhag Syrthio.

13 " Mewn Amſer cymeradwy o'dd,
" Fy Ngweddi gododd 'fynu :
" Ac erof gwrendy Duw bob tro
" Lef Enaid f'o ar drengu.

S A L M LXIX 14.——21. 28, 29
32. *Dioddefaint a Dyrchafiad* Criſt

NAWR, gyda Pharch boed i ni gyd
A Galar hyfryd ganu ;
Am Ddioddefiadau 'n Prynwr mad,
A'n Harch-offeiriad *Jeſu*.

2 Mewn Llif-ddwr Trallod ſoddi'r oedd
Gan faint y Dyfroedd mawrion :
Tra 'r oedd e'n danfon at ei Dâd
Yn waſtad ei Achwynion.

" 3 Clyw 'th Fâb o Dduw, ac achub fi,
" Na chuddia dy Wynebpryd ;
" Pa'm caiff d' Anwylyd edrych fel
" Un wedi ei adel gennyd ?

" 4 Mewn llid erlidiant f' Enaid, pan
" Rwy 'n Griddfan dan dy Ddyrnod ;
" A minnau 'n dodi lawr fy O's
" Yn Aberth dros eu Pechod.

" Fy Mri i'r Llŵch ei fathru ' wnaent,
" A chwarddant Pan fwy 'n cwyno :
" A'u Hathrod llym trahaus a ddyd
" Ing at fy Ngofyd etto.

" 6 Fy Ngwarth ſydd hyſbys it' o Dâd,
" Yr holl Sarhad a'r Cwilydd ;
" Ca's Gwradwydd dorri ' Nghalon gu,
" A'm Henw i ' lygru â Chelwydd.

Diſ-

7 " Diſgwyl Toſtyri 'n ofer bum,
" Fy Ngheraint ſy 'n fy mlino ;
" Am ffryns edrychais, ni chawn neb
" Droi Wyneb i'm cyſuro.

8 " Wrth Syched *Finegr* rhoddent ym,
" A *Byſtyl* llym i'm bwydent :
" Gwawd o'm Gridfannau marwol wnaed
" Ac yn fy Ngwaed llawenent.

9 " Llewyrcha ar f' Enaid athriſt i,
" Boed i'th Doſturi 'm canfod :
" Ac er i'm Cnawd i drengu 'n awr ;
" Duw, hwn o'r Pridd-lawr cyfod.

10 " I foli 'th Enw, codi ' wnaf,
" Teyrnaſaf yn y Bywyd ;
" A'th Jechydwriaeth, fy Nuw cu
" Ar d' Orſedd fry a'm geſyd.

SALM LXIX. Meſur cyffredin.
Y drydedd ran, *Ufudd-dod a Marwolaeth* CRIST, *neu* DDUW *yn cael ei Ogoneddu, A Phethaduriaid eu hachub.*

1 CANAF dy ryfedd Râs, o Dâd,
Rho i enw ' Ngheidwad glodydd ;
Dug Jechydwriaeth i rai tlawd,
Aeth dan ein Gwawd a'n C'wilydd,

2 Ei Ofyd a'i Ufudd-dod ef
I fynu i'r Nef a'n cododd :
Cwplaodd y Ddeddf a dor'ſom ni,
A'th Wllys di gorphennodd.

3 Ei Gwyn wrth farw, a'i Gân yn fyw,
Boddhânt fy Nuw yn amgen
Nu ſain Telynau ac Udgyrn mwyn,
Gwaed Geifr, Wŷn, neu Ychen.

dlyn-

4 Dilynwŷr CRIST gweld hyn a wnant,
A llawenhant o'i herwydd;
Trwy Waed ei Groes nefant at Dduw,
A byth cant fyw yn ddedwydd.

5 O boed i'r holl nefolaidd Lu,
I Dduw ddyrchafu Moliant;
A Thiroedd Moroedd uno nghyd
Roi iddo gyd Ogoniant.

6 Eiddot, yw *Seion*, Arglwydd da,
Ei Phyrth fendithia 'r *Jesu*;
Y Gwynfyd brynodd ef a'i Waed,
Caiff *Jſrael râd* feddiannu.

S A L M LXIX. Y rhan gyntaf
Mefur hir. *Dioddefaint* CRIST, *a la*
yduriaeth Pechaduriaid.

O Ddyfnder Calon ceifiwn ddwyn
Ar Gof, Ofydiau 'n Harglwydd mwy
Codi mae Tonnau mawr eu cur,
I Lifo dros ei Enaid pur;

2 Ymdreulio mewn Griddfanau bu,
Ac Angau, a holl Uffern Lu:
A Meibion Ma'as hwythau nghyd,
Yn cwpla 'u melldigedig Fryd.

3 Ond etto 'th Gariad, rafol Dduw,
Wnai 'r Felldith hon yn Fendith wiw
Dioddefaint llym dy Fab yn llawn,
Dros ein Pechodau ni rhoes lawn.

4 Jefu a'i farwol Boen a'i Gur
Adferodd barch i'th Gyfraith bur:
Boddha'dd Gyfiawnder Duw dros ddyn
Talodd am ddrwg nid eiddo 'i hun.

5 O er ei fwyn ef, maddeu 'n bai,
A gwna ni 'n edifeiriol rai:
Yr Arglwydd yn ei Enw a'n clyw,
Ac ni ch'wilyddia 'n gobaith gwiw.

SALM LXIX. Adn 7 Yr ai Ran.

Meſur hir.

Dioddefiadau a Zel Criſt.

1 DUW, erot darfu 'th Fâb dy hun,
Fynd dan y cyfryw drymlwyth blin,
O Wradwydd Sâl a drygair triſt
A Gwarth diwynwyd Wyneb Criſt.

2 *Iuddewon* ei Berth'naſau 'i hun
Am ddweyd eu drwg ammharchei 'r dŷn;
Tra bu 'n cyflawni 'th ddeddfau pur.
Heb achos, hwy caſaent e'n wir.

3 Medd ef, *Tŷ gweddi, yw Tŷ fy Nhad,*
Ac *nid i chwi farchnatta 'gwna'd;*
Gan daflu 'u tryſor dros y Bwrdd
Fflangellodd y Marſiandwyr ffwrdd.

4 Zêl fawr dros Deml Duw ei Dad
A dreuliai Oes perygle 'i Wa'd;
Y gwarth ar d' enw daflodd Dŷn
Fe 'i teimlodd fel yr Eiddo 'i hun.

5 Ffryns a chanlynŵyr ymaith aent
Gelynion ei amgylchu wnaent;
Melldithient ef a thafod llym,
Ac ynte 'n tewi heb ddwe'yd dim.

6 Blinaſant e' a chelwyddau cas,
Gan ei gyhuddo o gabledd cras;
Wrth Bren c'wilyddus hoelient e'
Y Dŷn fu farw yn fy lle.

7 Rhai a Chalonnau fel y maen
Gwawd o'i Riddfannau duwiol gwnaen',
Rhowd Byſtyl iddo 'n fwyd mewn cur,
A'i ſyched ſiommwyd a Gwin ſur.

8 Ond Duw a welodd; ac o'r Nef
Fe noda ei Gaſeion ef:
Y llaw a'i codei o farw i fyw
A dywallt arnynt ddial Duw.

S A L M LXXI. 5——9Y Rhan gyntaf
Meſur cyffredin.
Yſtyriaeth a gobaith y Criſtion oedranus.

1 FY Nuw, fy ngobaith byth i'th gaid
'R wy 'n byw ar Air d' Addewid
Dy Law a'm daliodd i i'r lan,
O'm Mebyd gwan a'm Hienctid.

2 Fy nghnawd a ffurfiwyd trwy dy nerth
F' aelodau prydferth bywiol;
Ac er pan ddarfu 'Mam f' ymddŵyn
Dy eiddo wy 'n dra hollol.

3 Bob blwyddyn faith o'm Bywyd brau
Rhyw newydd wrthiau welaf;
Ac od oes ddyddiau 'n ol i mi
I'th ofal di y rhoddaf.

4 Na wrthod fi pan ballo 'm nerth
Mewn Henaint ddi nerth ddyddiau
Ond tann o'm cylch d' ogoniant cu
Pan fyddwy 'n trengu 'n Angau.

5 Yna, yn hanes fer fy Oes
Wrth edrych dros fy nyddiau
Ceir gwel'd dy gariad ym mhob rhan,
A'th Foliant gwiwlan goleu.

S A L M LXXI 15, 14, 16 23, 22
Yr ail Ran Meſur cyffredin.
Criſt *ein nerth a'n cyfiawnder.*

FY Mhrynŵr a'm tragwyddol ffrynd,
Pan fyddwy 'n mynd i'th foli;
A dechreu rhifo doniau 'th Ras
Ni all dy Was mo'i cyfri.

2 Rhois fy ymddiried ynot byth,
Yn ddi lyth a ſafadwy;
Ac er pan adnabûm dy Ras
Dy glod i ma's rhois fwy fwy.

3 Fy Nhraed cant weithian deithio ar hyd
Y briff ffordd hyfryd nefol:
Ymlaen yr af yn nerth dy Râd,
I wel'd fy Nhâd tragwyddol.

4 Pan fyddwy 'n llawn o ofyd prudd
Gan bechod fydd i'm blino;
Pledio 'th Gyfiawnder pur y wnaf,
Ac ni choffâf ond d' eiddo.

5 A thraetha' i'n hy dan lawenhau,
Fyddugoliaethau Mrenhin;
Caiff f' enaid rhydd i ganu 'n ffraeth
Dy Jechydwriaeth ddibrin.

6 (Fy nhafod caiff ymffroftio o hyd,
I'm Prynwr drud trwy 'i Angau
Ddwyn im gelynion fyth warthâd,
Ac yn ei Waed fe 'i boddai.)

7 Deffrowch fy fwydd-gynheddfau i gyd,
Ac a'r Gân hyfryd yma
Mi dreulia 'r awr dywyllâ o'm taith,
Heb wel'd yn faith o'r odfa.

SALM LXXI 17 12 Y drydedd ran
Mefur cyffredin.

Gweddi a chân y Criſtion cedrannus; neu,
Henaint, Marwolaeth, a'r adgyfodiad,

1 FY Nuw o'm lengtid wyt yn ſiwr
Hyfforddwr fy holl yſta;
Dy wyrthiau a'th Wirionedd di
A draethais i hyd yma.

2 A edî di fi, Arglwydd da,
Mewn Henaint a Phenllwydni;
Pwy gynnal fy mlynyddoedd blin
Os Duw ei hun ymedy?

3 Gad imi draethu i'r Oes fy 'n d'od
Dy nerth a'th glod haeddiannol;

A gadel blas o'th Enw cu,
Pan adwy 'm tŷ daearol.

4 Tir Angau a diſtawrwydd hir
Yw'r lle 'm ſymmydir neſaf;
O n' allwn draethu 'th Gariad' dryd
I bawb o'r Bŷd tr'w 'i ymaf.

Gorphwyſiad.

5 Mor uchel yw 'th gyfiawnder *JON*,
A mawrion yw 'th Weithredoedd;
Uwch Wybren aeth d' Ogonlant di,
Nis medraf fi mo'i adrodd.

6 Taranau dy Fygwthion llym
Fu 'n ſynych ym yn ofid;
Ond pan a'th Law y gweſgit fi
A'th Ras tydi 'm cyſurid.

Trwy Broſiad hir adweunwn i
Dy allu di 'waredu;
Anturiaf wrth dy arch i lawr
I'r Bedd a'r priddlawr obry.

8 Pan fwy 'n llwch a'm gwedd yn dlawd,
Duw, am fy ngnawd goſeli;
F'aelodau hyn, gwiwedig i
Teg cedyrn ti a'i codi.

SALM LXXII Y Rhan gyntaf,
Meſur hir.
Teyrnas Criſt.

DUW mawr, i'th ben llywodraethmae
Y Bŷdoedd oll yn ufuddhau;
Y Deyrnas dod i'th Fâb yn awr,
Mewn gallu dyrcha'i Faingc yn fawr.

2 Da gwedd iw Law 'th Deyrnwialen greſ,
Iw Arch ymoſtwng mae 'r holl nef;
Fe ddial cam y tlodion mwy,
A Thraha, a thrais ni thyccia 'n hwy.

y

3 Y Cyſiawn, weryd ef trwy Rym,
A ſathra î'r llwch y treiſiwr llym;
Pery ei Barch a'i 'ddoliad ef,
Tra paro dyddiau dan y Nef.

4 Fel Glaw ar Weirglodd newydd-ladd
Ei Ofn a ddiſgyn ar bob gradd;
A'i Ras ar leſg Eneidiau ddaw,
Fel Gwlith ar fryniau ſychion draw.

5 Y Gwledydd di gred oll y ſy'
Dan gyſgod tywyll Angau du,
Pan wawrio arnynt, adfywhânt,
A'r lleoedd anial llawenhânt.

6 Y Saint, blodeuant yn ei ddydd
Mawl a llawenydd ganthynt fydd;
Hedd etto o'i Orſedd rhed fel lli'
I Bobloedd nad adweunom ni.

SALM LXXII Yr ail Ran Meſur hir
Teyrnas Criſt *ym mhlith y Cenhedloedd.*

1 Y Jeſu a deyrnaſa 'n grwn
O godiad Haul hyd fachlud hwn,
Ei Deyrnas â o For i For,
Tra fyddo llewyrch Haul a Llo'r.

2 Ynyſoedd a'u Brenhinoedd, dont,
Ac *Ewrop*, iddo 'u teyrnged rhont;
O'r De' a'r Gogledd o bob Gwlâd
Dont i ymoſtwng wrth ei Draed.

3 Gwel'd *Perſia* 'n harddwych yno wnair,
Ac *India* mewn-diſgleir-wiſg Aur;
Barbariaid wrth ei Air yn driſt
Ymgrymmant ac Addolant Griſt.

4 At hwn dyrchefir Gweddi i'r Nen,
A mawl Coronir byth ei Ben;
Ei Enw fel per arogl gref
A gyd â Gweddi 'r Saint i'r Nef

5 Teyrnaſoedd, Pobloedd o bob Iaith,
Iw Gariad rhoddant foliant faith;
Babanod Ifainge lleſg eu llef
Yn Foreu a'u clodforant ef.

6 Lle y teyrnaſo Bendith fydd,
Y Caeth a naid o'i Rwymau 'n rhydd;
Y Blin caiff fythol Eſmwythad,
A'r holl rai rheidus gymmorth rhad.

7 Lle rhoddo 'i Allu gyd a'i Air
Angau a'r Felldith a iachair;
Yn hwn caiff Dynion ddoniau rhad
Fwy nag y gollodd *Adda* 'u Tad.

8 Rhoed pob Creadur yn ddilyth
Neillduol Barch i'n Brenhin byth;
Angylion molwch ef uwch ben
A'r Ddaear d'weded byth Amen.

SALM LXXIII Y rhan gyntaf
Meſur cyffredin

Seintiau trallodedig yn ddedwydd, a Phechaduriaid llwyddiannus yn felldigedig.

NAW R, gwn mai da yw Duw, yn wir
I'r rhai ſy bur o galon;
Er imi ammeu gynt yn wan,
A grwgnach dan f' amheuon.

2 Wrth Lwyddiant Dynion drwg triſtais
A chenfigennais unwaith;
Weld mor llygredig maent yn byw
A heddwch i'w Marwolaeth.

3 A'u Cnawd yn dew a golwg dynn,
Nid ydynt yn arſwydo;
Ond cablu Duw a'i ffyrdd y maent,
Pan fyddo 'r Saint yn wylo.

4 Codais ddwy law at Dduw 'n ddi-les,
Ofer lanhe's fy Nghalon;

can's

Can's ſe 'm cyſtyddir 'r hyd y dydd,
A'r Nos caf brudd Geryddon.

5 Tra ewynei Nhafod felly ar gam,
Cydwybod a'm ceryddei;
Tramgwyddo 'r Saint fel hyn y wnaſ,
" Y rhai a garaf oreu.

6 Ond fy amheuon oeddent drech,
A'r ymdrech yn rhy greulon;
Nes imi ſyn'd i chwilio 'th Air,
I eglurhau 'r dirgelion.

7 Gwelais yn hwn, fel mewn drych pur
Fod y Pechadur ynfyd,
Yn rhodio fry ar greigle ſerth,
Uwch Pydew anferth tanllyd.

8 Ymffroſtio 'r oedd o'i rwyſg a'i ddrwg
Nes wrth dy Wg y ſyrthiodd;
Fel Breuddwyd darfu 'ymffroſt gref,
Yn Uffern, ef di hunodd.

9 Duw pa fath ynfyd o'wn, ac ail
I ryw Anifail di-ffydd;
Ni ſgredu 'th *Ras* a Meddwl mai
Yr enwir rai ſy ddedwydd.

10 Ond rhag anobaith cadwyd fi
Trwy d' allu di 'n ddirgele'dd
Tu llaw a ddrylliei 'r fagl hon
A'm dwg ger bron dy Orſedd.

SALM LXXIII 23 28 yr ail Ran
Meſur hir.

Duw ein Rhan yma ac ar ol hyn.

1 DUW, ſy nghynnaliwr i a'm grym
Fy nghymorth gwaſtad agos ym;
Dy Law a'm daliodd ſynu pan
Yr anobeithiodd f' enaid gwan.

2 A'th gyngor i'm harwein i o hyd
Trwy holl anialwch tywyll fyd;

a'th

A'th Law a'm dwg i'th fangre fry
I fyw ger bron dy Wyneb cu.

3 'T awn yn y Nefoedd hebot ti
Llawenydd oll ni bydd i mi;
Ac ar y Ddaear tra fwy 'n byw
Hiraethu 'r wyf am neb ond Duw.

4 Pe torrei Edau 'mywyd brau,
A'm Cnawd a'm Calon lwyr wanhau;
Duw ydyw Craig fy Enaid gwan,
A nerth y Saint a'u bythol Ran.

5 Ond wele 'r Dynion drwg a ant
Ym mhell oddi wrthyt, marw wnant:
Ni all eu heulun Dduwiau gau
Mo 'u gwared hwynt rhag Angau a gwae.

6 Ond dyfod nes nes at fy Nuw,
Fydd melus waith i'm tra fwy 'i byw;
Gyd a llawenydd traetha' i ma's
I'r Byd ryfeddol waith dy Râs.

S A L M LXXIII. 12, 3, 6, 17——10
Llwyddiant Pechaduriaid wedi ei felldithio.

DŨW, pa fath adyn ffol y fum
Galaru a grwgnach yn fy ngwŷn:
Wel'd dynion drwg yn dringo o hyd
Mewn parch a balchder yn y Byd.

2 Ond o eu diwedd, erchyll yw,
Mi ddyfgais hyn yn nhŷ fy Nuw:
Ar Greigiau llithrig maent heb fraw
A thonnau tanllyd is eu llaw.

3 Eu huchel godiad boftient hwy
Ni chenfigenna' i mo 'nynt mwy:
Er maint eu ffroft er cuwch eu ffroen
Difgynnant i'r tragwyddol boen.

4 Eu rhith Lawenydd chwyrn mae 'n ffoi
Fel Breuddwyd dyn pan fo 'n deffroi
'D

'D yw per Ganiadau 'r cyfryw rai
Ond Rhagymadrodd cyn eu gwai.

5 Mae 'u gwin augwenydd hwy 'n rhy bryd
I'm eu pwrcasu a'm Henaid drud;
Dy feddu, Arglwydd. digon yw,
Fy Rhan, fy mywyt wyt a'm Duw.

SALM LXXIII Mesur byrr neu gyffredin
Dirgelwch Rhagluniaeth wedi ei ddatted.

DIau (o Ddŷn) sod cyfiawn Dduw,
Nid ofer ydyw Crefydd;
Er gall ynfydion lawenhau,
A grasol rai dan Gerydd.

2 Wrth lwyddiant (mawr yr) enwir rai
Grwgnach a wnai fy nghalon:
Weld ffyliaid yn llewyrchu ar goedd
Mewn parch a gwisgoedd gwychion.

3 Ymbesgi (maent hwy) 'n foethus iawn
A'u cnawd yn llawn drwch amal;
A llifo mewn fel llanw 'r mor,
Mae 'u tryfor heb eu gofal.

4 Rhydd ynt (i gyd) o'r poen a'r pla
Sy 'n cwrddyd a Duwiolion;
Trwy 'u bywyd oll maent yn drahaus,
Yn gwneuthur trais ar dlodion.

5 Eu Tafod (brwnt a) 'sgeler yw
Yn cablu 'r Duw tragywydd;
A llygru enwau Dynion da,
Trwy Falais, traha, a chelwydd.

6 Am hyn (myfi) mewn dagrau llawn,
I ammeu 'r awn yn bryfur;
Oes Duw a glyw, neu wel heb gudd
Y pethau fydd is awyr.

ter

Dohn Williams Ieuthon his Book

7 Terfyſgau (yn fy) meddwl gwan
A'm cadwodd dan betruſder,
Nes imi gael fy nwyn i'th Dŷ,
I ddyſgu dy Gyfiawnder.

8 Dy Air mewn (nerthol) eglur fodd
Diwigiodd f' amryfuſedd;
Gwelais eu bywyd hwy o'r bla'n,
Ond yma 'n lan eu diwedd.

9 Ar (ba fath) ddibyn ſerth, fel mur
Maent druain gwŷr yn rhodio;
Ac O'r! Pwll tanllyd llawn o fraw
Sydd is eu Llaw 'n eu gwilio!

10 O'th flaen Duw (cyfiawn) plygu 'r wy
Fy meddwl mwy ni's grwgnach;
Fy nerth a'm rhan dragwyddol i
Y galwaf fi di bellach.

SALM LXXIV.

Yr Eglwys yn pledio a Duw dan doſt erlidiaeth.

A fwr ein Duw, ni heibio o hyd,
A fwga 'i Lid tragwyddol;
Yn erbyn Pobl ei gariad iach
Ei ddiadell fach ddewiſol.

2 O Meddwl am y Llwythau cu,
Gwerth Gwaed y Jeſu 'n bendant;
Na 'nghofia *Seion* wael eu hynt
Lle 'r ydoedd gynt d' ogoniant

3 O dyrcha 'th draed, gwna frys o Dduw,
Attolwg clyw 'n gweddiau;
Gwel pa fath ddifrod llydan iawn
A wnaed o fewn dy Furiau.

4 Lle yr addolei 'th bobl gynt
D' elynion ynt yn twrddan;

10

Ac uwch dy Byrth eu Harwydd ſy,
Banneri fry yn hongian.

5 Torraſant le 'r addoliad ' lawr
Adeilad mawr o'r tecca :
A hwnnw ſy 'n cael fwya o glod
Sy 'n rhoddi 'r dyrnod trymma.

6 A Thân bygwthiant ddiſa byth
Dy blant iw nyth ſy 'n ddifrad ;
Dewch, Lloſgwn, meddant yn eu bâr,
Y Deml a'r Offeiriad.

7 Ac i fwyhau ein gofid ni
Dy Wyneb di a giliodd ;
Arwyddion gynt o'th nerth a'th ras
A aeth i ma's o'n tiroedd.

8 Ni rydd un Prophwyd gyſur yn',
Mae 'r gwilwyr yn galaru ;
'D oes Enaid yn ein plith i gyd
A wyr pa bryd dychweli.

Gorphwyſiad.

9 Pa hyd dragwyddol Dduw, pa hyd
Y caiff rhai ynfyd gablu ?
A'i byth y dwg dy Saint eu gwarth ?
A Chân pob parth o ddautu.

10 A elli eiſte a'i clywed hw'
Yn cablu d' Enw ſancte'dd ;
Ac attal dy eiddigedd draw
A dal dy Law rhag dialedd ?

11 Pa waredigaeth ar eu hynt
A wnaethoſt gynt i'n Tadau ;
Duw arall etto nebot ti
Ni 'ddolwn ni na 'i adde.

12 Y Môr a holltaiſt yn ddwy ran
Trwy d' allu anwrth'nebol :

Iwneu

I wueuthur ffordd i'th Lwythau glan
I *Ganaan* yn ddihangol.

13 Byd, Natur it yn eiddo sydd
Y Nos a'r Dydd a'r cyfan:
Ti a bar'toist oleuni 'r Wawr,
A Haul fel cawr syn'd allan.

14 Dy allu wnaeth holl barthau 'r Byd,
Eu lled a'u hyd terfynol;
Rhew 'r gaua a gwres yr Haf (dan go)
Rhoist yn eu tro 'n wastadol.

15 Ac a gaiff Plant y llwch mor hy,
'N awr gablu 'r gallu hwnnw:
A ddial dim o'r llaw a'i gwnaeth
Ammharchedigaeth d' Enw?

16 O cofia dy Gyfammod rhad
A geiriau'th Gariad llawen:
N'ad Adar 'sglyfaeth gyrchu i'n bro
I ladd na blino 'th Glommen.

17 Gelynion yn ein Gwaed pe caent
A lawenhaent yn ebrwydd:
O pledia 'th achos, ac i'th blant
Dod bellach seibiant, Arglwydd.

SALM LXXV. Mesur.

Gallu a Llywodraeth oddiwrth Ddaw yn unig.

Wedi ei chywmmwyso i'r amser gogoneddus, O Ganiadhad rhydd-did gan y Brenhin *WILLIAM*, neu, Ddyfodiad dedwydd y Brenhin *SIORS* i'r Orsedd-fainc.

1 I ti 'r Goruchaf JOR, i ti,
Y dygwn ni ddiolchgar Glod;
Dengys dy Wyrth a'th Ras, o Dduw,
Mor agos yw dy Enw 'n bod.

2 'R oedd *Brydain* fawr i fod yn gaeth,
Mewn Braw ac aeth, ar doddi 'mron,
Pan roes Duw ini Atteg gre' ;
I ddal Colofnau 'r Deyrnas hon.

3 Ei Goron, fe 'i Derbyniai o'th Law,
Gwnaeth Lw i lywio wrth Ddeddfau pur:
A'i Fraich fe 'mddiffyn achos da,
A'i Droed fe ſathra drawſion wŷr.

4 'Moſtyngwch, feilchion, mwy i'r llwch
Ac na 'mddyrchefwch tra f'och byw,
Rhowch heibio 'ch ffol Anacanion blin,
Gan addg 'r Brenhin a wnaeth Duw.

5 Ni ddaw 'r fath barch wrth ddamwain byth
A'r gwynt ni chwyth ddyrchafiad mawr:
Duw 'r Barnŵr, cyfyd un heb ball,
A goſtwng arall hyd y llawr.

6 Nid lliw o freiniol Waed, trwy drais,
'Ddyd gŵr trahaus ar Faingc cin Bro;
Duw, Llywydd mawr y Ddaear faith,
Ei gyfion Waith a ddengys 'fo.

7 [Mae ffiol dial yn Llaw Duw,
Llawn cymmyſg yw o amryw blaid:
Gwna i'r drygionus yfed hon,
A'i holl waelodion, erchyll Wae.

8 Duw a ddyrchafa 'r cyfion mwy,
A'r beilchion hwy 'fe 'i ſathra 'lawr:
A'u parch a cfyd yn y llwch,
Am hyn molwch ei Enw mawr.]

SALM LXXVI, *achub* Iſrael *a dinyſtrio 'r* Aſyriaid; neu, *Ddial* Duw *yr erbyn ei Elynion, yn dyſſol oddi wrth ei Eglwyſ.*

YN *Iuda* gynt adwaenwyd Duw;
Mawr oedd ei Enw yn *Iſrael*:
Yn *Salem* 'roedd ei Ofeld lan
A'i Drigfa 'n *ſeion* fawrel.

2 Ym mhlith ei *Saint* 'roedd Moliant Duw,
Dewisodd syw 'n cu canol ;
Gwrandawai yno 'u cwyn wrth raid
Yn erbyn plaid elynol.

3 O *Seion*, ei Air erchyll aeth,
A dryllio 'wnaeth y bwa :
Y Wayw-ffon, a'r cleddyf dur,
A rhyfel gwŷr *Assyria*.

4 Beth yw Teyrnasoedd Daear faith,
Ond bryniau anrhaith trwyddi :
Y bryn lle mae JEHOFA 'n byw,
Mwy disglair yw na 'r rhei'ni.

5 'Fe, Brenhin *Seion*, 'speliodd rym
Capteiniaid llym, a'u byddin :
Gwŷr cedyrn buno 'n angau 'wnaeth,
A'u dwylo ni chaent gwed'yn'.

6 Duw *Jacob*, wrth dy gerydd drud,
Y march a'r Cerbyd syrthiodd :
Pwy edwyn fraw dy Wialen drom ?
A'th ddial, ffrom, all adrodd ?

7 Pwy 'saif o flaen dy Olwg synn,
Os unwaith 'nyn dy ddigter :
Pan fyddo 'th fellt trwy 'r nef yn gwau,
Y ddaear 'sai' mewn pryder.

8 Pan ddelo Duw 'n ei Ffyrdd ei hun
I wared dŷn orthrymmir,
Digofaint gwr a'i mawl, ryw dro,
A'r gweddill gantho 'attelir.

9 (Addewch i Dduw, a thelwch chwi
Bawb deyrnged i'r Gorucha' ;
Gyr ddychryn ar Frenhinoedd byd,
A'u llu bwy 'gyd 'fe 'i dryllia.

10 Taranau ei Geryddon llym
A ddeffarth rym gelynion ;
I Duw *Jacob* heb ymadael mae,
Ond ette ni' yn *Seion*)

SALM LXXVII. Y Rhan gyntaf
Meſur cyffredin.

Triſtwch yn ymoſod, a Gobaith yn Gorchfygu

1 GWeddïais Dduw, yn brudd fy llef
Gyrrais i'r nef f' ymbiliau:
Yn nydd fy nhrallod cyfyng, caeth,
A'r nos pan ddaeth fy ofnau.

2 Galerais ddydd a nos heb baid,
Gwrthododdf' enaid gyfur;
Er cofio 'r doeth ar cyfiawn Dduw,
Amlhaoedd fy mriw a'm Dolur.

3 A chwyno bûm, Duw ger dy fron
Dechreuai 'n ghalon ddryllio,
Dy lid a'm haflonyddodd i
A'm llygaid ni chaent huno.

4 Myn'd 'r oedd fy ngofid i fwy fwy,
Nad allwn mwy lafaru;
Yna i'm cof y gelwais i
Dy Farnau, i'm diddanu.

5 Gelwais yn ol amſeroedd hen
Pan welais wên dy Wyneb:
Chwiliais a oedd un dirgel fai
A rwyſtrai 'th Brefenoldeb.

6 Dy Drugareddau a goffais,
Y rhai' fwynhais i 'n felus;
"Ac a fydd Duw ddim etto 'n fwyn?
"A'i Wyneb mwy ni's dengys?

7 "A fwr' ef' ymaith fi o hŷd?
"A ball ei 'Ddewid bythoedd;
"A aeth o'i gof ef drugarhâu?
"A ddarfu cau 'myſgaroedd?

8 Ond gw'erddais hyn o feddwl ffol.
Ac anobeithiol dymmer:
Trwy gofio dy Ddeheulaw di;
Yr un yw hi bob amſer.

Myfyriaf ar dy holl Fyrdd maith,
A'th ryfedd Waith caf gofio:
A'th Ras, trwy 'r hwn myfi jachaw'd,
Pan fethodd cnawd obeithio.

10 Gras a Chyfiawnder fydd mewn hedd
Ar Orfedd dy Sanctaiddrwydd:
Ac yn dy Dŷ lle traethir d' Air
Dy feddwl cair O Arglwydd.

SALM LXXVII Yr ail Ran
Mefur cyffredin.

Cyfar yn dyfod allan oddi wrth hen Raglaw-iaeth, neu, Waredu Ifrael *o'r* Aipht, *a'u dwyn i* Ganaan.

1 DY Wialen mor ofnadwy yw hon!
(Dy blant a ddichon d'wedyd:)
Y mawr, y Doeth, Ofnadwy Dduw!
Fforddd Sanctaidd wiwffy genyd.

2 Myfyriaf ar ei ryfedd Waith,
Mewn oefoedd maith aeth heibio:
Gwrandawafadraethu 'i wyrth ar led.
A dyfga' i 'mddiried yntho.

3 Hir jawn y bu ty *Joseph* dan
Jau 'r *Aipht* a'i hanefmwythdra:
Hir y bu Duw heb wrando 'u cwyn
Cyn iddo 'u dwyn i orphwyfa.

4 I'r *Aiphtiaid* 'r oedd plant *Jacob*, fel
Rhai wedi gadel gantho:
Ond ei alluog Fraich a dd'ai,
Ac a'u rhyddhai oddiyno.

5 *Ifrael*, ei bobl a'i ddefaid byw,
Canlynant Dduw wrth alw;
Eirch iddynt fyn'd trwy 'r môr a'u gwyr,
Gwnai 'r tonnau 'n fur i'w cadw.

6 Duw mawr, pan ganfu 'r dyfroedd di
Yn dyfod i fyn'd trofedd:

I'

I'w hol Ciliasant fel ffrwd gre',
I wneuthur lle l'th fyddino'dd.

7 Rhyfeddol oedd dy ddaith trwy 'r môr,
Dy Gamrau, JOR, ni 'dwaened:
Trwy ffyrdd ofnadwy 'r wyt yn dwyn
I'th bobol fwyn ymwared.

8 Trwy d'w'llwch a chymmylau ar frys
Dy Lais brawychus drylliei:
Y nef gan fellt disgleirio 'r oedd
A'r ddae'r cyffrodd gan dyrfau.

9 Dy saethau hefyd aethant hwy
Yn ebrwydd trwy 'r holl Wybren,
A braw a syndod ddaliai 'r bŷd;
A'th Saint i gyd addolen.

10 O'r graig rhoes ddiod iddynt hwy
A diogel, trwy law *Moses*:
Arweinai 'r bnidd trwy 'r anial lê
I *Ganaan* fangre gynnes.

SALM LXXVIII. Y Rhan gyntaf
Mesur cyffiedin.
Adgoffa Rhagluniaethau Duw; neu, *Ddugiad a Hyfforddiad Plant.*

GWrandawed Plant y Gwyrthiau gwiw
Y rhai 'wnaeth Duw 'n y cynfyd:
A welsom ni 'n ein je'ngctid brau,
A'r rhai fu 'n tâdau 'n dâ'wedyd.

2 Gorch'mynodd ini draethu 'i Glod
A'i Ras, a'i hynod allu:
A'i Wyrthiau ddugwn ninnau lawr,
I'r oes sy 'n awr yn cwmnu.

3 Ein Tafod a'u mynega i'n Plant;
A'n Plant a'u traethant eilwaith:
Y Tad i'r Mab, a'r Mab i'r Wyr,
Ol yn ol trwy 'r genhedlaeth.

Fel hyn y dyſgir hwy, bob rhyw,
I gredu 'n Nuw yn union;
Fel nac anghofiont byth mo'i Waith,
Ond gwneud ei berffaith eirchion.

SALM LXXVIII. Yr ail Ran.
Meſur cyffredin.

Cwrthryfelgarwch Iſrael, *a'u Coſpedigaeth*; neu, *Beichiau a Cherydden Pobl Dduw.*

O pa fath wrthryfelgar Dŷ,
Had *Jacob* fu 'n eu dyddiau
Anffyddlon o'ent i Ras eu Duw,
A ffals i'w haddunedau!

2 Torrafant ei Gyfammod clâu,
Heb briſio 'i ddeddfau euraid:
Anghofient yr holl Wyrthiau glân
A wnaeth o flaen eu llygaid.

3 Hwy 'welſant ar yr *hipht* y plaau
Anfonodd a'i Law ddïalt:
Arwyddion hyll o'i Allu dig
Aeth dros eu 'ſyſnig ardal.

4 A gwelſant ef yn hollti 'r mor,
Nes iddo agor iddyn':
I'w cadw gwnaeth y dŵſr yn ſur,
Nes ffoi rhag gwŷr y geiyn.

5 A cholofn, rhyfedd 'ſe 'u par'todd
Mewn briwl ſodd cyſurus:
I'w cuddio 'r dydd yn gwmmwl glân;
A'r nos, yn dân i'w tywys.

6 O'r graig eu di ſychedu 'wnaeth;
Y dŵſr a ddaeth yn ffrydiau:
Megis afonydd wrth eu clun,
Ni pheidiodd un amſerau.

7 Er hyn cyffroiſant Arglwydd Nef;
Gwangredent ef i'w cynnal:
All *ef* â bara borthi 'n gwŷr
Anghanol tir mor anial?

a chlyub

8 A chlybu 'r Arglwydd hyn i gyd ;
Ennynai 'i Lid yn chwerw :
Ei ddychryn fydd yn barod fyth
I 'mddiffyn byth ei Enw.

SALM LXXVIII. Y drydedd Ran
Mesur cyffredin.
Cospedigaeth Trythyllwch ac anghymmedrolder,
neu, *Gerydd a Jachawdwriaeth.*

1 PAN bechai *Israel*, cospai Duw,
Nes caent hwy friw a dychryn :
Ond maddeu iw anwyl rai mae ef
Bara o'r Nef rhoes iddyn' :

2 'Fe 'u porthodd hwynt a llaw hael iawn
O'i drysor llawn a di-brin :
Gwnaeth i gymmylau 'r nos, heb baid,
Roi bwyd wrth raid i'r Werin.

3 *Manna*, fel cafod fore, a gaed
O gylch eu traed yn gyffon :
Yd nefoedd oedd, mor bur a da ;
Fel pe bai Fara Angylion.

4 Ond d'wedent mewn tuchanllyd wedd,
" Ein hunig wledd yw *Manna* :
" Ni's mynnwn hwn, y bara gwael ;
" Cig rhaid in' gael i'w fwytta.

5 *Chwi a gewch gig i'ch diddio 'ch chwant*,
Duw yn ei Sorriant d'wedodd :
Anfonodd ef' fofi-jeir fel llwch ;
O'u cylch yn drwch 'fe 'u tannodd.

6 Rhoes iddynt eu holl gais heb lai ;
A hwy bob rhai 'n ymlanw :
Ennynai 'i ddig mewn tanllyd fodd,
A thrawodd hwynt yn feirw.

7 Pan laddai rai, dychwelai 'r byw
A cheisient Dduw trwy ddagrau ;

Galarent dan ei Wialen dro ;
Ond clau dros go' 'rai ' hofnau.

8 'Fe a'u ceryddodd lawer gwaith ;
Ac eilwaith 'fe 'u pardyniodd :
Nes ideo 'u llwyr waredu 'n wir,
A'u dwyn i'r tir ' addawodd.

S A L M LXXVIII. Adn, 32 &c.

Y bedwaredd Ran. Mesur hir.
Gwrthgiliad a Maddeuant ; neu, *Gosp i Pechod ac achub y Saint,*

DUW Mawr ca'dd *Israel* brofiad maith
O'th lid a'th Gariad, lawer gwaith ;
Drych i'n calonnau i wel'd eu llen
Mor ffals ac mor anwadal yn'

2 Clau aeth o go 'r *Juddewon* byw
Y Gwyrth ofnadwy a wnaeth Duw ;
Cyffroisant ef a'u pechod cas ;
Heb ofni 'i *Rym*, na chofeilio 'i Ras.

3 Yr Arglwydd treuliai 'u hoes mewn poen
A gwnaeth eu teithiau 'n hir di-hoen ;
Ffyrdd dyrys maith yr ethant trwy,
Nes treulio 'u nerth a'i dyddiau hwy,

4 Pan welent ladd e'r brodyr lu,
Trilliaent, a chaisient Dduw o'u tu :
A galwent ef, eu Craig i fyw,
Eu mawr Waredydd hwy, a'u Duw.

5 O'i flaen a'u hadduned au doent,
Fel Gwenieith neu gelwyddau oe'nt ;
Tra bai tymherau cyndyn cas
Yn groes i'w ammod ef a'i Ras.

6 Er hyn, o'i ras maddeuodd Duw
I'r rhai nad oedd yn haeddu byw ;
Ei ddig yn fynych troddi,
Neu losgi 'wnai mewn tirion fodd.

Gwelodd eu cnawd yn wan a brau.
A'u temtasiynau yn amlhau;
Duw *Abra'm* hoffodd hwy, er hyn;
Ac 'se a'u dug iw sanctaidd Fryn.

SALM LXXX. Mesur hir.
Gwiddi 'r Eglwys dan Orthrymder; neu,
anrheithio Gwinllan Duw.

O Fugail mawr yr *Israel* ryw,
Fu 'n trigo rhwng Cerubiaid gwiw
Dy braidd yn ddiogel dygaist, *JOR.*
Trwy 'r holl anialwch, a thrwy 'r môr?

Mae 'th Eglwys 'n awr mewn anial le;
Llewyrcha, tywys hon i dre;
O dychwel ni, moes heddwch mwy;
A'n hachub cawn, heb gwyno 'n hwy

Duw mawr, i'r hwn plyg holl Lu 'r nef
Pa hŷd y cawn yn drist ein llef
Weddio, a disgwyl gwel'd dy bryd
Pa hŷd y llylg dy erchyll lid?

Dy Saint, yn lle eu bara a'u gwin,
Eu porthi wnair a'u dagrau blin;
O dychwel ni, moes heddwch mwy,
A'n hachub cawn, heb gwyno 'n hwy.

Gorphwysiad I.

Duw, plennaist gynt Winwydden ir,
A'th Law mewn gwyllt genhedlig dir
O'i hamgylch oni ddarfu it' gau,
Ac â gwlith nefol ei dwfrhau?

Fe ddarfu 'i changau saethu 'ma's,
Bendithio'r bobl a ffrwythau'i Gras:
Ond 'nawr, Duw cu, gwel 'lawr o'r nen
Dy brŵdd Winwydden, hawddgar Bren.

Paham fel hyn anffurfiai 'i phryd?
A rhwygaist gaeau hon i gŷd?

Gael

Gelynion ac eſtroniaid 'nawr,
A phob rhyw fwyſtfil drwg, a'i pawr.

8 Duw Hollalluog, tyr'd yn'frau;
N'ad i'th Winwydden byth driſtau:
O dychwel ni, moes heddwch mwy:
A'n hachub cawn heb gwyno 'n hwy.

Gorphwyſiad 11.

9 Duw, pan oedd dy Winwydden hon
Yng *Nghanaan* dîr yn llwyddo 'n llon,
Ti oedd Gogoniant hon, a'i grym:
Ni thyccia llaw un gelyn llym.

10 Nes cododd y *Blaguryn* gwiw,
Yn ol Addewid ſyddlon Duw:
Trwy'enau ei Brophwydi o'r bron
Fu 'n d'we'yd y codai 'r Gangen hon.

11 O lwynau *Dafydd* 'n ol y cnawd,
O Wreiddyn *Jacob*, hon a ga'w'd:
Ef' yw 'r Winwydden ſydd yn ben,
A ninnau 'r cangau llela 'r Pren.

12 Dy Fâb yw hwn, a eiſtedd ſry,
Mewn nerth ar dy ddeheu-law gu:
Dy Gynſab bendigedig yw,
Mewn nerth a Gras uwch holl blant Duw.

13 Oh! er ei fwyn clyw 'n lleſâin triſt,
Llewyrcha ar leſg Eglwyſi *Criſt*:
O dychwel ni, moes heddwch mwy,
A'n hachub cawn, heb gwyno 'n hwy.

S A L M LXXX. Adn. 1, 8——16
Meſur cyffredin. *Rhybudd* Duw *iw Bobl*: neu *Fendithion a Chopedigaethau yſprydol.*

1 CEnwch i'r J O N yn hyfryd iawn,
A llafar llawn llawenydd:
Duw yw ein Nerth, a'n Ceidwad hael;
Clyw *Iſrael* ei Leferydd.

2 Pa'm

2 " F' Addoliad cadw 'n lân (medd Duw)
" Oddiwrth bob rhyw au-dduwiaeth :
" Yr Arglwydd yw 'r rhwn a'ih ryddhai
" O bechod a'i wasanaeth.

3 " Tân dy ddeisyfiad ger fy mron,
" Yn ffyddlon mi cyflawna :
" Ond os gwrthodwch Dduw mor dda,
Os *Israel* a 'mgyndynna :

4 " Mi a'u gadawaf hwy (medd Duw)
" Yn 'sglyfaeth i'w trachwantau :
" Cant fynd i'r ffordd beryglys ffol.
" Sef eu dewisol lwybrau.

5 " Ond Oh ! na bai fy Saint, dan go
" Yn gwrando fy Nghynghorion :
" En cwyn yn glau a esmwythâwn,
A llawenhawn eu calon.

6 " Rhown iw Gelynion farwol glwy',
" Ond porthwn hwy 'n ddigonol :
" caent gennyf lawer nesol Saig,
" A dw'r o'u Craig drag'ywddol.

SALM. LXXXI. Duw y *Llywodraethwr* yn *nefoedd* neu *Rybuddiwr uchel Swyddogion.*

1 Y Nghymanfaoedd y mawrion hwy,
Eisteddfa myn Rheolwr mwy :
Duw, 'r Barnwr mawr a edrych waith
Y duwiau, barnwyr daear faith.

2 Pa'm y gwnewch ddeddfau drwg neu (pa'm
Y deliwch ' fynu fatter cam :
Pa bryd y sefwch dros y gwan,
Rhag i'r anghyfiawn ddwyn ei ran ?

3 Ni wyddant, Arglwydd, ddim pa bryd,
Tywyll yw 'r ffordd yr ant ar hyd :
Ofer eu galw 'n dduwiau mwy,
Can's megis dynion trengant hwy.

4 Duw, cyfod, gadâ'th Fab yn awr
Feddiannu Gorfedd nef a llawr:
A llywio 'r Bobl â'i Wialen wiw,
Ef yw ein Barnwr ni, a'n Duw.

S A L M LXXXII. Mesur cyffredin.
Achwyniad yn erbyn Erlidwyr

1 A C a oflega *Duw* pob Rhad
Yn wastad a llonyddu:
All *Duw* 'r Cyfiawnder fod mewn hedd,
A gado i dâjaledd gysgu?

2 Gwel fel mae dynion drwg di Ras,
Yn tannu 'hatgas rwydau:
Caseion *Duw*, a'i anwyl Saint,
Cyfodi maent eu penau.

3 Yn erbyn dy ddirgelaidd rai
Mae 'u cyngor, a'u cyfrwystra:
A'u Malais gwyliadwrus yw
Am gyfle i'w difetha.

4 Mae 'r gwych a'r gwael, yn ddi-wahan
Yn neidio i'th borfa 'n ddibaid:
Y llew a'r asyn fusgrell fud
Am ddifa 'nghyd dy ddefaid.

5 "*Dewch* (medd nt) unwn bawb (ynghyd
"A mrown o'r Byd eu difa
"Fel na bo fon a'm enw 'r faint,
"Na chaffo 'r fraint o'i goffa.

6 Yr Hollalluog Dduw deffro,
A galw i go' 'th Lidiawgrwydd
Dod hwynt fel coedwig grin i'r tan
Neu fofl o fla'n y ftormydd.

Arg'oedda eu hynfydrwydd cas,
Fel am dy ras' ymgeifiont:
Neu hwy a'u dig i g'wilydd dwg,
Fel yn eu drwg y trengont.

Yn

8 Yna'r adnebydd Pobloedd mwŷ,
Y Gair ofnadwyŷma;
JEHOFA, d' Enw'n unig yw
Ein Harglwydd Dduw gorucha.

SALM LXXXV Y Rhan gyntaf Mesur hir

Hyfrydwch Addoliad cyhoeddus,

1 OH! pa mor deg a hawddgar yw
Dy Babell a'r ddae'r, O Dduw,
Mae f'enaid i mewn blys a chwant
Am gwrdd a chymmanfaodd dy Blant.

2 Fy nghnawd i'th Dŷ am orphwys yw,
Fy nghalon ieſg a waedda am Dduw;
Fy Nuw, fy Mrenhin, pa'n' bawn i
Mor bell o'th hyfryd Leoedd di?

3 Aderyn to a'r Wennol ſy'
'N cael nythu oddi ſewn i'th Dŷ;
A ddyru Duw i'r rhai'n y fraint,
Ag ſydd ddiffigiol ar ei Saint?

4 O gwyn eu hŷd y Seintiau ſy
Yn eiſte ynghylch dy Orſedd fry:
Gweld yno maent d' Ogoniant maith,
Dy ſoli a'th garu yw eu gwaith.

5 Gwyn fyd Eneidiau ſy'n cael lle
Yn Nhemlau-tn Cas ſyd lis y Ne';
Cant yno wel'd dy hyfryd Wawl,
A chelfio th Wyneb; canu 'th fawl.

6 Gwyn fŷd y rhai a'u calon ſy'
Yn ceiſio'r ffordd tua Seion fry;
Duw yw eu nerth trwy'r daith yn ddwys,
Ar Gniſt eu Priod rhont eu Pwys.

7 O Nerth, i Neſ th. yr ant o hyd,
Nes cwrddont yn y Nef i gyd;

N

Lobus Williams his Book

Yn llon o'th ſaen, (rai ſu ymhell)
I uno mewn Addoliad gwell.

S A L M LXXXIV. Yr ail Ran
Meſur hir.
Duw a'i Eglwys; neu, *Ras a Gogoniant*

DUW, gwrando *Seion* canu ma'i,
Dy Wyneb ſy 'n ei llawenhau;
Gwell treulio gyd a thi un dydd,
Na mil mewn gwag lawenydd ſydd.

2 Pe cawn ſwynhau 'r lle gwaela ſy'
O I duw y Gras, o ſewn dy Dŷ,
Nid P'laſau teg a'u pethau tlws
Gai hudo nhraed i ado 'th ddrws.

3 Duw yw ein haul, ſy 'n gwneud ein dydd,
A'n tarian yw ein cadw bydd;
Rhag thuthrau 'n holl elynion cas,
Rai oddi ſewn ac oddi ſa's.

4 Pob rheidiol Ras a rydd ein Duw,
A Choron o Ogoniant gwiw;
Nid attal un ddaionus rodd
I'r rhai a rodiant wrth ei ſodd.

5 O Dduw, ein Brenhin, i'r hwn mae
Llu hardd y Nef yn ufuddhau;
A diafliaid, ſho'nt o'th wydd ar lled,
Gwyn fyd y Dyn 'rydd ynnot Gred.

S A L M LXXXIV 14 12 3 10
wedi ei heſpon'o mewn Meſur cyffredin
Hyfrydwch mewn Ordinhadau Addoliad; neu
Dduw yn breſennol yn ei Eglwys.

1 FY Enaid, pa mor hawddgar yw
Y lle mae 'th Dduw yn dyfod i
Neſoedd yw gweld ei Wyneb e'
Yn ei Gyntedde' iſod.

2 Yno cawn weled gras a nerth,
Ein Brenhin prydferth nefol,

A rhwyllo mewn i'n Henaid ni
Bydd ei oleuni bywiol.

3 Ac yno diſgyn Clommen Ne'
A lleinw 'r lle a'i Doniau;
A *Chriſt* yn rhoi ac eglurhau
Ei Gariad a'i Raſuſau.

4 Duw, yno 'r wyt yn traethu 'n llon
Ddirgelion dy Ewyllys;
Cawn yno geiſio 'th nawdd bob pryd,
A'th foli o hyd yn felus.

Gorphwyſiad.

5 Gwaeddi mae nghnawd a'm Calon i,
Am danat ti a'th drigle;
Pa bryd fy Nuw, a'm Prynŵr cu,
Caf ſengu dy Gynteddau?

6 Cael gwneud ei Nyth mae 'deryn to,
Ac yno ymſefydlu;
O gwna fi 'n ddedwydd fel efe;
I aros lle bwy 'n caru.

7 Un dydd o fewn dy *Dŷ* i'th fwynhau,
A gwrando 'th Eiriau graſol,
Yn well na thragwyddoldeb ſydd
Mewn dim llawenydd cnawdol.

8 Gwell gennyf fod ar Drothwy 'th Dŷ
A'r *Jeſu* yno 'n gwarchod,
Na llanw 'r Orſedd wycha'i dull,
Neu fyw ym mhebyll Pechod.

9 Pe bawn yn meddu 'r tir a'r Mor,
Yr nghŷd a'u tryſor helaeth,
Am awr ar dy Ddeheulaw di
Mi rhoddwn i hwy ymaith.

SALM LXXXIV Meſur newydd
Hiraethu am Dy Ddŵr.

1 ARGLWYDD y Bŷdoedd fry,
Mor deg a hawddgar yw

Trigfannau 'th Gariad cu,
Daearol Demlau 'm Duw:
Mae tynfa f' e naid tua 'th Dŷ,
Fy Nuw, gael gwel'd dy Wyneb cu
Fy Nuw, fy Nuw, fy Nuw, &c.

2 Hoff gan aderyn to
Gael yno i'w Gywion le,
A'r Wennol ar eî thro
Hiraetha am ei thre;
Mae Zêl fy Enaid i'r un faint,
Am gael preſwylio 'mhlith dy Saint,
Am gael, am gael. &c.

3 O happus Ddynion fo
'N gweddio yn y lle
Mae Duw yn gwrando 'i Blant,
Yn waſtad molant e';
A happus ydynt hwy 'r pryd hyn,
Sy 'n hoffi 'r ffordd i *Seion* fryn.

4 O nerth i nerth â rhain,
Trwy Lynn Wylofain du,
Nes delont bawb gerbron
Eu Duw yn *Seion* fry:
O hyfryd fann pan ddugo ef
Ei Blant i gyd o'r Byd i'r Nef,

Gorphwyfiad.

5 Cael treulio Sanctaidd ddydd
Lle byddo Duw a'i Saint,
Llawenydd gwell a rydd
Na mil mewn bydol fraint:
Gwell gennyf gadw drws o hyd
Lle dêl fy Nuw, na Phalaſau 'r Byd.

6 Duw, 'n Haul a'n tarian yw,
Ein llewyrch gwiw a'n grym;
Mae 'i Ddwylaw ef yn llawn,
Oddi yno cawn bob dim;

Ei

Ei Ras i *Iſrael* hâd rhydd ef,
A llawn Ogoniant yn y nef.

7 Duw, hoffi 'i bobl y mae;
Ni attal ef ddim da
I'r duwiol raſol rai,
Eu porthi hwynt a wna;
Gwyn fyd y Dŷn, O Arglwydd cu,
S' a'i holl ymddiried ynnot ti.
S' a'i holl ſ' a'i holl &c.

SALM Lxxxv. Adn 1——8
Y Rhan gyntaf Meſur hir.
Diſgwyl am atteb i Weddi, neu, *Waredigaeth yn cael ei dechreu a i chyflawni*

ARGLWYDD, gelwaiſt dy Ras i go',
Troiſt heibio ein Barn drom o'r Nef;
Pardynaiſt *Iſrael* y wedd hon,
Gan ddwyn ei gaethion tua thref.

2 Ti a ddechreuaiſt ein rhyddhau,
A'th Lid ſy 'n llai tuag attom ,n awr:
Tro 'n calon attat yr un pryd,
Cyflawna 'th Jechydwriaeth fawr

3 Bywha 'n Graſuſau ſy 'n ddï fraw,
Ac ynnot llawenhaed dy Saint;
Cyflawna 'th Air, eglura 'th ddawn,
Ath foll wnawn, hon yw ein braint.

4 Diſgwyliwn beth a ddywetto Duw;
Fe draetha hedd i'w bobl o'r nef:
Ond peidient mwy o'i ffyrnïd ef droi,
Rhag ail gyffroi 'ddigofaint ef.

SALM Lxxxv Adn 9 &c Yr ail Ran. Meſur hir.
Iechydwriaeth trwy Grift.

BYTH, Iechydwriaeth agos yw
I'r rhai ſy 'n ofni Duw trwy ffydd

A Gras oddi uchod ddaw fel Gwlith,
A Gobaith byth o ogoniant fydd.

2 Trugaredd a Gwirionedd glan,
Cwrddasan' pan ddaeth Crist o'r Nef;
Boddhawd cyfiawnder. heddwch cawn,
Trwy ei ufudddod cyfiawn ef.

3 Gwirionedd a Gogoniant fydd
A chrefydd ar y ddaear las;
Bendithion nef a leinw 'r Wlad,
Ym mwyn deyrnafiad Crist a'i Ras.

4 Ymlaen aeth ei gyfiawnder tlws
I agor drws i ni at Dduw;
O'i ffyrdd na chytei liornwn mwy,
Ond cadw 'i gamrau tra fom byw.

SALM Lxxxvi Adn 8 13.

Mefur cyffredin
Cân *gyffredin o fawl i* Dduw

YM mhlith daearol dduwiau fy',
'D oes un a'th allu gantho;
Nid yw eu natur, Arglwydd, chwaith,
Na dim o'i gwaith fel d' eiddo.

2 Daw 'r Bobloedd oll a wnaethoft ti
O'th flaen i ddoli 'n yftig;
Can's ti fy 'n gwneuthur gwyrthiau gwiw,
A thi fy' Duuw yn unig.

3 Duw dyfg i'm', fy neifyfiad yw,
I rodio a byw yn dduwiol;
Ac una fy meddyliau rhydd
I'th ofni 'n brudd a'th ganmol.

4 Mawr yw 'th drugaredd di a'th Râs;
Dy Wyrthiau i ma's caf ofod,
Fel y dyrchefaift f' enaid gwan
I'r lan o uffern ifod.

61

SALM LXXXVII Meſur hir
Yr Eglwys lle Genedigaeth y Saint : neu,
Iuddewon a Chenhedloedd wedi eu hun
Yn yr Eglwys griſ'nogol.

DUW yn ei Demlau ſy 'n y Byd
Iw neſol Fawl ſeilſeini dyd :
Holl Bebyll *Jaco* 'i hoffi mae,
Ond dewis trigo 'n *Seion* wnai,

2 Fe 'mwel a'i nawdd a'r Teiau ſydd
Yn galw arno nos a Dydd ;
Ond câr fod yn ei eglwyſi 'n fwy,
I wrando 'u mawl a'u Gweddi nwy.

3 Pa hanes gynt am Seion gâir ;
Pa Ryfeddodau a goffair ;
Ti Ddinas Duw Preſwylfa 'r Jon,
Clyw 'r Gwledydd pell am danat ſon.

4 *Iuddewon*, *Groegiaid*, a phob rhyw
Dechreuant yno o newydd fyw :
Can Dynion ac Angylion Glod
Y Bryn mae 'r bywiol Dâw'r yn bod.

5 Pan wnel Duw gyfrif ddiwedd byd
O holl drigolion *Seion* glyd,
Anrhydedd fydd i un (gerbron)
Ei eni ef neu 'i fagu 'n hon.

SALM LXXXIX Y Rhan gyntaf Meſur hir.
Y Cyfammod a wnaed a Chriſt, neu,
Y gwir Ddaſydd.

BYth caiff fy nghan goffau a ſon
Am Wir a thrugareddau 'r JON ;
Byth, erys ei Drugaredd ef,
A'i lan Wirioneddd tel y nef.

Tyngodd i'w Fab, gan ddweyd, â thi
Gwnaed gyntaf ly nghyfammod i ;

Yn

" Ynnot caiff Pechaduriaid fyw,
" Gras a Gogoniant rhoi, medd Duw.

3 " Bydd Brophwyd ac offeiriad ym,
" Bendithia i'th Blant a gras a grym;
" Fy Mrenhin wyt, a'th Orſedd di
" Byth erys fel fy ngorſeddi.

4 " Nid ydyw neb o'm Meibion fry,
" Gymmaint fy null. neu 'm cariad cu:
" Llu 'r Nef ynt oll dy ddeiliaid gwâr,
" Pwy a'th gyſtadla ar y Dda'r?

5 " *Dafydd* fy etholedig Wâs
" Fu 'n gwilio mhraidd, fu 'n coſpi nghas,
" I'r Orſedd-faingc a godais i,
" Nid oedd ond teip o honot ti.

6 Yr Eglwys llawenhaed y nawr
Yng nghrift ei Phrynwr, Frenhin mawr,
Cenwch ei Wyrth Angylion fry,
A'r ſeintiau ar y Ddaear ſy'.

S A L M LXXXIX Y rhan gyntaf
Meſur eyffredin.
Fyddlonaeb Duw.

FY nghan i byth a gaiff goffau
Am Drugareddau 'r Arglwydd;
Mor ffyddlon yw ei Air, heb gel,
Caiff oes a ddel hyſpyſrwydd.

2 Ei ſanctaidd Wirioneddau ef
Parhânt fel Nef yn hollol;
Ac os addewid gantho gawn
Siwr fydd y dawn tragwyddol.

3 Had *Dafydd* fu o Gaingc i Gaingc
Yn hir ar Faingc *Judea*;
Ond ſeliwyd gwell Cyfammod fry,
I Grift ei brif Fab mwya.

4 Cans yn dragywydd ei had ef
Ar Orſedd Nef teyrnaſant;

A'r deiliad lleia o'i ras (yn wir)
A godir i Ogoniant

5 Duw 'r lluoedd, fry gan ſeintiau ſyrdd
Dy ryfedd ffyrdd a genir :
A ſeintiau ar y Ddae'r a gân
Dy Gariad na newidir.

SALM LXXXIX 7 & Yr ail ran,
Meſur cyffredin.
Gallu a Mawrhydi Duw, neu, *Addoliad parchus.*

DEwch ſeintiau gyd a pharch yn rhwydd
O flaen yr Arglwydd-pygwch,
Gwrandewch ei Air a'i uchel arch,
Mewn ofn a pharch addolwch.

2 D' ogoniant mor ofnadwy yw
Mor ddiſglair ydyw 'th luoedd !
Pwy fel tydi fath nerth a fedd?
Neu fath Wirioned 'ddwedodd.

3 Y Gogledd a'r deheu bwynt draw
A ddeil dy Law yn ddi gryn ;
Daw dydd a nos wrth d' arch (yn wir)
O'r dwyrain i'r Gorllewin.

4 A'th Air rheoli'r gwynt ar frys,
A'r Moroedd ſtormus obry ;
Gwnai 'r Tonnau cyſglyd ruo 'n faith,
Ac ellwaith i lonyddu.

5 Nef, dae'r a Mor, ynt d' eiddo i gyd,
A'r tywyll fyd uffernol ;
Dangoſaiſt fraich dy ddial Jor,
I'r *Aipht* oedd mor wrth nebol :

6 Iawnder a Barn, yw 'th orſedd wiw,
Mawr etto yw 'th Raſlondeb :
Trugaredd a Gwirionedd glan
A'n gwawdd o fla'n dy Wyneb.

ſalm

SALM Lxxxix Adn 15 y drydedd ran Mesur cyffredin.
Efengyl sendigedig.

GWyn fyd y rhai adwaenant gais
A hyfryd lais y fengyl:
Yn heddwch a goleuni Duw
Y rhodia 'r cyfryw 'n gynnil.

2 Llawenydd gwyd eu Henaid trist
Trwy Enw *Crist* sydd benna':
Yn ei Gyfiawnder credant hwy,
Nid satan mwy gondemnia.

3 Yr Arglwydd yw ein noddfa o hyd;
Rhydd nerth a iechyd beynydd:
Israel dy frenhin byth fydd byw,
Teyrnasa 'th Dduw 'n dragywydd.

SALM Lxxxix Adn 19 y bedwerydd ran Mesur cyffredin
Teyrnas gyfryngol Crist. *neu ei natur ddwyfol a dynol.*

DUW 'r Tad hyspysu i Ras a wnaeth
Mewn Gweledigaeth dywaid,
Ar fy ngalluog Fab rhois i
Eich cymmorth chwi drueiniaid.

2 Hwn ddarfu i'm doethineb gwiw
O ddynol ryw i ethol;
Enneiniais ef a'm Holew drud,
Fy ngras a'm Hyspryd nefol.

3 Ar orsedd *Dafydd* mi a'i sicraf,
I'm Pobl yn bennaf llywydd;
Fy mraich, cait faeddu 'i elynion 'fo,
Dwyn ceiliaid iddo o newydd.

4 Bydd fy nhrugaredd wrth ei glyn,
A'm gwir fy hun a i tywys:
Tro 'n marchog trwy y tir a'r mor
Yn f' enw 'n orfuleddus.

5 Efe a'm haddet i'n ddi-wad
Ei Dduw a'i Dad tragwyddol,
Fe 'm geilw ei Graig a'i cnigfan gref,
Cynhaliaf ef yn hollol.

6 Mewn harddwch gras fy nghynfab daw
Ar fy neheula'r i eistedd:
Angylion a brenhinoedd blant
A blygant wrth ei orsedd.

7 Byth ficir fail fy amnod hon,
A'm haddewidion dedwydd:
Fe beru i had a'i orsedd e',
Fel dyddiau 'r ne 'n dragywydd,

8 A L M I XXXIX Adn 30 y bummed
ran Mesur cyffredin
Y cyfammod Gras yn anghyfnewidiol; neu,
Gerydd heb ufuddiad,

OND os had *Dafydd* medd Duw 'r Tad,
Plant fy Mab ghad a bechant,
Amherchi 'm Gras i m dig o 'n fawr,
A themtio i lawr fy ffurfiant.

2 A gwialen mi ymwela a'u bai,
Eu ffoledd, gwna 'i ddolurio;
Etto ni pheidiaf fod yn Dduw
I'r cyfryw wedi addo.

3 Fy ammod byth ni alwa'i 'n ol
F' addewid rasol cofia':
Gair fy nhragywyddol gariad pur
Tragwyddol Wir a'i rhwyma.

4 Tyngais (er mwyn eu lles au llwydd)
I'm pur fancteiddrwydd unwaith,
Y cai f' addewid ei chwplau
I *Ddafydd* a'i hiliogaeth.

5 Yr Haul a wel ei had o hyd
Trwy 'r holl fyd yn ymdannu;
Hyd y bo 'n teithio cylch y ne'
O le i le 'n llewyrchu.

6 Tra paro lleuad yn y nef
Ei deyrnas ei a bery:
Nes delo 'r amser pan ni bydd
Na nos na dydd ond hynny.

SALM LXXXIX 47 Y 6ed *Ran*, Mesur hir.
Marwolaeth a gobaith.
Salm Anglaud.

O Arglwydd, cofia 'n marwol ſtâd;
Mor fyr yw 'n bywyd ei barnad
O berchen an el, p'le mae 'r Gwr
Rhag Angau fy 'n ddiangol fiwr?

2 Wrth weld rhai 'n marw o ddydd i ddydd
Fe lef ein cnawd a'n *Rheſwm* prudd,
Ai byth teyrnaſa Angau o Dduw,
Ai 'n ofer gwnaethoſt ddynol ryw?

3 Ple mae d' addewid di i'th ſaint?
On'd troi yn llwch a llydw maent;
Ond ſydd ſy 'n gwaedd fath feddwl gwan,
A gwel hwy 'n adgyfodi i'r lan.

4 Arddercbog ddydd mawr fydd y fraint,
Hwn ymaith fych holl warth y ſaint:
A chyfiawnhair dy eiriau gwiw,
Deffrowch ein Henaid molwch Dduw.

SALM Lxxx x. 47 Y rhan ddi-weddar ſel ſalm CxlII.
Bywyd, Marwolaeth a r Adgyfodiad.

O Cofia, Dduw, am egwan d yn,
Mor f rfed yw ei oes a ffun,
Byr iawn i gyd o r Cryd i'r bedd:
Pwy ddichon diogelu 'i oes
Yn erbyn Angau llym ei Loes;
Neu ddichon diange mewn un wedd?

2 Ai byth o Arglwydd y c ir d weyd
I ddyn yn unig ga l ei wneud
I Gieiyd, Poen, a llwch y llawr?

On'd yw dy Blant o ddydd i ddydd
Yn myn'd i'w Beddau, troi yn bridd?
P'le mae dy Gariad iddynt 'n awr?

I'th Fab addewaiſt di o Dad,
Nefolaidd Goron ac i'w Hâd;
Ond Cnawd a rheſwm ammeu maen',
Bendithio 'r Arglwydd, byth a wnair,
Fod ffŷdd yn gallu darllen d' air:
Gwel'd Adgyfodiad yno 'n blaen.

Byth, moler Duw, da yw yn wir,
Sy 'n rhoi i'w Saint fath wobrwy hir
A'n eu llafarus Waith is Nen:
Llu 'r Nef, a holl drigolion llawr
Cyd folwch chwi ei Gariad mawr;
Ac uchel feinied pawb, *Amen*.

SALM XC Meſur hir.
Dyn yn farwol, a Duw yn dragwyddol;
Can alarus mewn Angladd.

TI ym mhob oes dràg wyddol Dduw,
Wyt drigfan ddiogel i ni fyw:
Dy Orſedd-faingc oedd uchel fry
Cyn gwneud y Nef na'r ddaear ddu.

Cyn dim teyrnaſu 'r oe't dy hun,
Cyn ffurfio llwch ar agwedd Dŷn;
A phery 'th Deyrnas etto 'n hwy,
Pan na bo'r Bŷd nâc amſer mwy.

Ond Dŷn, ei Eni i farw wnawd;
Pechod a gwagedd yw pob Cnawd,
Dy Farn, O Arglwydd, cyfiawn yw,
I'r llwch dychwelwch ddynol-ryw.

Mil o'n Blynyddau hwyaf ni
Sy braidd un dydd i'th gyfrif di;
Fel doe aeth heibio hwynt hwy ſydd
Neu Wylfa nos pan ddel y dydd.

Gorphwyfiad.

6 Marwolaeth fel ffrwd greſ, neu Li'
Ymmaith a'n dwg ; 'd yw 'n bywyd ni
Ond chwedl gwag, neu, freuddwyd brau
Bledeuyn gwan a wywa 'n glau.

6 I'n Hoes, ſaith deg o ſlwyddau rhoed
Mor frau yw 'r Stât, mor fyr yw 'r oed,
Ac os i wyth deng mlwydd yr awn,
Ochneidio 'n fwy na byw y wnawn.

7 Ond o mor fynych mae dy lid
Yn torri 'n hoes cyn cyrhaedd cyd ;
Gwna hyn ni grynu o bob gradd.
Ac ofni 'r llaw ſydd ein lladd..

8 Duw dyſg i'n weld mor frau yw Dŷn,
Ac eſtyn etto 'n hoes a'n ſlun :
Hyd nes trwy Ras cymmwyſer ni
I farw a byw Duw gyd a thi.

S A L M XC 1——5, Y Rhan gyntaf meſur cyffredin.

Dyn yn freuol a Duw yn dragwyddol,

EIn Duw a'n porth mewn oeſoedd maith
A'n gobaith yn ganlynol ;
Ein gwaſgod rhag y dymheſtl greſ,
A'n cartref yn dragwyddol.

2 Dan gyſgod d' orſedd di heb gêl
Bu 'th Saint yn diogel drigo :
Digonol yw dy fraich ei hun
Byth i anddiffyn d' eiddo,

3 Cyn caffael o'r Mynyddoedd maith
Na 'r Ddaear 'chwaith ei llunio ;
O dragwyddoldeb ti wyt Dduw,
Hyd byth y cyfryw etto.

4 Dy Air a yrr ein cnawd i'r llwch
Dychwelwch feibion Addaf ;

Pob

Pob Cenhedl ddychwel etto i'r dda'r.
O'r lle daeth ar y cyntaf :

5 I'th Olwg, mil o flwyddau llawn
Sydd fel pryd'nhawn ' aeth heibio
Byrr ydynt fel yr Wylfa fydd
Ar foreu-ddydd yn paſſio.

6 Holl Lwythau Cig a Gwaed o'r bron,
A'u holl drafferthon yma,
Angau a'u dwg i'r llwch yn llwyr,
Nis gwelir hwy 'r oes neſa'.

7 Mae amſer fel llif mawr, neu Don
Yn dwyn ei feibion gantho ;
Mewn angof darfod maent yn ſwrth,
Fel breuddwyd wrth ddihuno.

8 Plant Dynion ynt fel blodau 'r maes
Rai 'r boreu 'n wyrddlas fyddant ;
Tan Law 'r Pladurwr cyn pryd'nawn
Yn ebrwydd iawn y gwywant.

9 Eih Duw, a'n porth mewn oeſoedd maith
A'n gobaith yn ganlynol,
Mewn Ing bydd ini 'n noddfa gref,
A'n Cartref-yn dragwyddol.

SALM XC. 8, 11, 9, 10, 12.
Yr ail Ran. Meſur cyffredin.
Gwendidau, a Marwoldeb yr Effaith o Bechod

1 O Sarhifi 'n beiau oll, Duw *NER*,
Ac i'th gyſhawnder ſorri,
Fe lyſg dy Lid ofnadwy di
Tu hwnt ym ni 'n ei ofni.

2 Dy ddigter am un troſſedd trwch,
Sy 'n troi i'r llwch ein defnydd ;
Fe gollodd *Addaf* a'i holl had
Anfarwol ſtâd o'i herwydd.

3 Bywyd a ffŷ fel chwedlau ffol,
Neu Gerdd, neu Garol di fydd;
Ein Natur fydd yn marw 'n glau,
Byr yw, a brau 'n llawenydd.

4 'Chydig fy 'n cyrhaedd Oedran teg
Dri'gain a deg o flwyddau;
A'r cyfan dros y cyfrif hwn
Sydd flinder, pwn o ofydiau.

5 Datguddia 'th gariad in' o Dduw,
Ofnadwy yw 'th ddigllonedd;
Rho brofiad melus ini 'n frau
O *Dr*ugareddau d' Orfedd.

6 Dymunem gael dy nefol ddawn
I dreulio 'n iawn ein horiau;
I weithio 'n ddoeth tra bont yn llaw,
A byw tu draw i Angau.

S A L M XC. Adn 13. &c. Y drydedd Ran, Mefur cyffredin.
Hiraethu am y Nefoedd.

1 DUW 'r cariad, attom dychwel'dh
Lle blin i ni yw 'r Ddaear;
Pa hyd y cwyna 'th Blant fod heb
Dy Brefenoldeb hawddgar.

2 Nef wedi 'n blinder ini dod
A phoen a phechod dderfydd,
'N ol maint ein cyftydd trugarha
A byth amlha 'n llawenydd.

3 I'th Weifion dangos d' wyrthiau maith
Cyflawna 'th Waith fydd arnom;
Yna cawn wel'd d' Ogoniant mawr
A'th Gariad dirfawr attom.

4 Cawn yn dy holl brydferthwch glan
Bryd hyn o'th flaen ddifgleirio;
A'r tlawd wafanaeth wnaethom ni
A fydd i ti wobrwyo.

SALM XC Adn 5, 10 12.

Meſur byrr, neu, gyffredin,
Breuoldeb a byrdra ein bywyd,

1 DUW, pa fath ddarnau (egwan) brau
Yw 'n Cyrph mor glau ſy 'n marw
Pa beth mor dlawd a'n bywyd gwael ŷ
Prin haeddai gael yr Enw.

2 Och fi, ein priddlyd [ſerfyll) Gnawd,
Yr hwn a gawd o'r Ddaeren.
Pob mis, bob Dydd, bob mynyd awr,
Maluria i lawr drachefen.

3 Mae 'n horiau 'n ffoi (o hyd) ar frys,
Nid erys un fynydyn ;
A'n dyddiau chwyrn fel llif ddw'r maith,
A'n dwg ni ymaith gantnyn.

4 Os rhaid (fel hyn) i'n Dyddiau ffoi,
I'n golwg byddo 'u terfyn :
Yn ffyrdd doethineb treuliwn hwy,
A bryſient fwy fwy wedy'n

5 (Hwy a'n) troſglwyddant ni yn gynt,
Tros For ein helynt ſtormus ;
Cawn dirio 'n glau mewn tawel fyd
Tragwyddol fywyd happus.

SALM XCI. 1——7 Y Rhan gyntaf Meſur hir.

Diogelwch mewn clefydon a pheryglon cyhoeddus

1 SAWL a wnaeth Dduw ei noddfa gre
A drig yn ddiogel gyd ag ef
Caiff dan ei gyſgod rodio 'r dŷdd,
A'r Nos yn gorphwys yno bydd.

2 Am hyn, caf ddweyd, " fy Nuw dy rym
" Fydd Dwr ac amddiffynfa ym'
O'r llwch i'm lluniwyd, di nerth wy'
I'th Gadarn Fraich y credaf mwy.

3 O ddedwydd ddyn a gatwo Duw,
Rhag Maglau 'r heliwr, Satan yw,
Syod yn bradychu llawer myrdd,
O 'neidiau diotal fil o fyrdd,

4 Fel y mae 'r Jar, a'i 'denydd jach,
Yn dïogelu 'i chywion bach:
Rhag Adar 'sglyfaeth, felly Duw
A'i Fraich a geidw 'i rasol Ryw.

5 Os Pyft yr Haul y Dydd, neu 'i Gwrês,
A faethant heinus Dan neu dês
Duw yw eu nawdd, a'i aden E'
A'i ceidw hwyrt mewn jachus Le.

6 Os cyfyd myg-darth ganol nos,
A pheri i lawer Angeu Lo's;
Caiff *Ifrael* yn ddïogel fyw,
Bydd awyr iach lle byddo Duw.

Gorphwyfiad.

7 Pe cwympei mil wrth dy yftlys draw,
A dengmil ar dy ddeheulaw:
Fi ddewis Bobl a geidw Duw,
Ymmhlith y Meirw a'r Beddau 'n fyw,

8 Fel pan antonodd efi lawr
Ei Angel mewn llidiawgrwydd mawr
I'r *Aipht*, a lladd eu Meibion w naeth,
Ond heibio i Ddryfau *Ifrael* aeth.

9 Ond os cenhada Duw i'r Haint,
Neu 'r Tan, neu 'r cleddyf daro 'i Saint;
Ym mhlith y lleill o ddynol ryw,
Eu Poen a'u hangau dedwydd yw,

10 Ni chaiff y Tan, a'r cledd, a'r clwy'
Ond cwpla 'u prif ddymuniad nwy
O lng a Phechod eu rhyddhau
A dwyn dy Blant i'r Nef yn glau.

alm

SALM XCI. 9——16 Yr ail Ran Meſur eyffredin

Amddiffyniad rhag Angau Cadwriaeth, Angylion, Buddugoliaeth a Gwaredigaeth.

1 DEWCH Feibion dynion egwan ſy,
'N agored i bob magal;
Gwnewch Dduw i chwi 'n Breſwylfa gref
Rhowch arno ef eich gofal.

2 Lle trigoch chwi dim drwg ni ddaw,
Ac os gerllaw bydd heintiau;
Yn 'lgybo 'r drwg i uffern ddu;
I'r Nef cant godi 'r feintiau.

3 Arch iw Angylion er lleſâd,
Am Gadw 'ch Traed rhag tramgwydd;
A'ch gwyliо 'r nos ar eich gwelâu,
A'r dydd rhag drygau ddigwydd.

4 Eu dwylaw 'ch dwg rhag cwympo 'n ſwrth
A dryllio wrth y meini;
Can's gweiſion ynt, pan alwo ef
A ddont o'r nef i'ch gweini.

5 Ar ſeirph a llewod ſathru wnewch,
A Satan cewch ei faeddu;
'Rhwn ddrylliodd ben y ſarph trwy 'i Waed
Ef dan eich Traed a'i dyry.

6 Am roi 'u ſerch arnaf, Duw a dd'wed
" Myfi a'u gwared hwythau
" Dugaf eu Henaid llon uchlaw
" Diſtryw a braw y Cleddau.

7 Pan alwont hwy, eu hatteb gwnaf
" Mewn ing y byddaf barod;
" Pan gwympont mi a'u helpiaf mwy,
" A chodaf hwy o'r Beddrod.

8 Sawl edwyn yma f' enw cu,
" A barcha I try 'n y Nefoedd;

can.

" Cant wel'd fy Iechydwriaeth ddrud,
" A meddu Bywyd bythoedd.

S A L M XCII. Y Rhan gyntaf Mefur hir.

Salm ar ddydd yr Arglwydd.

1 GWaith hyfryd iawn a melus yw
Moliannu d' Enw di, o Dduw;
Son am dy Gariad foreu glas,
A'r nos am Wirioneddau 'th Ras,

2 Y *Sabbath*, hyfryd wyl yw hon
Na flin d gofal byd mo 'm bron:
Ond boed fy 'nghalon i mewn hwyl,
I el Telyn *Ddafydd* ar yr Wyl.

3 Yn Nuw, fy nghalon llawenhair
Bendithia 'i Waith, bend thia 'i Air.
Mor hardd yw Gwaith dy Ras o Dduw!
A'th Gyngor pa mor ddyfned yw!

4 Ynfydion deall nid yw 'r rhai'n,
Fel ngrybliaid byw a marw maen'
Maent iel llyfieuyn teg ei wawr,
Nes chwythech hwy i ddiftryw 'lawr.

5 Ond mi gâf Ogoneddus Ran,
Pan buro Gras fy nghalon wan,
Mae gwi Lawenydd uwch y nen
Ac olew pur i lonni mhen.

6 Pechod fy ngelyn gwaetha o'r bla'n,
Ni flina 'm cuft na 'm golwg lan;
Fy holl Elynion lleddir hwy;
A'm heddwch ni thyrr Satan mwy.

7 Caf wel'd a chlywed yno 'nghyd,
'R hyn a ddymunais yn y byd
A'm Henaid oll caiff felus waith,
Yn y tragwyddol fywyd maith.

SALM XCII Adn 12 &c Yr ail *Ran* Meſur hir
Yr Eglwys yw Gardd Duw.

1 PEth hyfryd iawn yw bod a byw,
Mewn Gardd a blennaiſt ti o Dduw
Gwna fi o fewn Cynteddau 'th Ras,
Fel teg gedrwydden iraidd las.

2 Trwy 'th Fendith yno (mawr yw 'r fraint
Mewn ffydd a Chariad tyfy Saint
Nid *Liban* a'i holl goedwydd gwych
Sydd debyg oll mor hardd ei ddrych.

3 Planhigion Gras dros byth fydd byw
Adfeilia natur, tyf Gras Duw,
Amſer ammharu pob peth mae :
Dyd hwy flodeuo a theghau.

4 Mewn Henaint ffrwythlawn ydyw rhain
Daioni Duw ei ddangos maen'
Ni chaiff a wylio wrth byrth y nef
Ddweyd mai anffyddlon Dduw yw ef

SALM XCIII. Meſur hir.
Y tragwyddol ar pen llywydd Duw.

1 JEHOFA ſy 'n teyrnaſu o hyd
Mawrhydi a Gras mae 'n wiſgo'nghyd
Y byd yr hwn a greawdd ef
Ni 'ſyſl odd' ar ei ſeilfaen gref.

2 Ond cyn i'r ehang fyd gael bod,
Neu ei ſeilfeenu gynta erio'd ;
O dragwyldeb d' orſedd yw,
A'th hunan y byth, fywiol Dduw.

3 Fel llif mae llidiog bobl y byd
Yn rhuo 'n erbyn Duw ynghyd ;
Lif gwag ymgodi cuwch nid gwiw,
Paid tonnau 'r Mor wrth Gerydd Duw.

4 Dy orſeddfainge a berry byth,
A'th lan addewid ſaif yn ſyth ;

ſanct

Sancteiddrwydd hefyd, Arglwydd fy
Yn gweddu byth i bawb o'th dŷ.

S A L M XCIV 2. 7. 14
Y Rhan gyntaf Meſur cyffredin.

Ceryddu 'r ſaint a diniſtrio Pechaduriaid: neu, gyſtyddiau addyſgiadol.

1 O Dduw 'r hwn bia 'r dial prid,
Ar lled dy Lid cyhoedda:
A'th allu adgyweiria 'n cam.
Tal feilchion am eu traha.

2 Dwe'vd maent ni wêl ac ni chlyw 'r Jon,
O na baent ddoethion, ffyliaid:
A byddar ydyw ef a dall?
Wnaerh cluſt heb ball a llygaid.

3 Gwyr eu meddyliau o'er ſeith,
Cant deimlo 'i nerth i'r eitha;
Eu Henaid mewn diſymmwyth awr
A blinder mawr fe 'i gwana.

4 O nd, od yw 'th ſaint yn haeddu ſen
Mae mwynach Gwialen' eiddod
Dy Air a th Kaglyniaethau glan,
A'u dygan i'th adnabod.

5 Gwyn-fyd y Gŵr geryddech di.
I'w ddwyn ef i th Waſanaeth;
Dy Wialen dyſg hi 'n ddoeth dy blant,
Os gado wnant dy Gyfraith.

6 Ond Duw, ni wrthyd byth mo 'i ſaint,
Ni phall un fraint addawodd;
Fe faddeu feiau 'i blant yn ſiwr,
Er mwyn y Gŵr a'u prynodd.

S A L M XCIV. Yr ail ran, Meſur cyff.

Duw, ein Cynhaliaeth a'n Cyſur, neu. ymwared eddiwrth Brofedigaeth ac Erledigaeth.

1 PW Y gwyd, a phledia f' achos pur
Yn erbyn drygwyr diffaith?
Daearol ac uffernol Lu,
Sy 'n cyd wrth nebu 'Ngobaith.

Oni

2 Oni buaſai i Dduw o'r nen,
Ddal t' egwan ben i fynu.
Trigaſai f' oes a'm henaid byth,
Ym mhlith y meirwon ob y.

3 Och! gwaeddais, llithro mae fy nhra'd,
D' Addewid râd a'm daliodd;
Dy Râs oedd agos, ac o'm tu.
Dy Yſpryd fynu 'm cododd.

4 Pan fo 'n fy Mynwes I yn gwau,
Lu o teddyliau trymion,
Dy Gariad mawr ſy 'n meddeu' mai,
Nes lawenhau ty nghalon.

5 Gall Plant anwiredd lunio 'n dyn
Gam ddreddfau 'n erbyn f' Einioes;
Ond Noddfa im yw Brenhin nef,
Amddiffyn ef fy achos.

6 Gadewch i falais ruo ar led,
A gwawdied cablwyr diffaith;
Duw mawr, a farna 'r beilch ar fyrr
A'r drwg fe 'i tyrr ef ymaith.

S A L M XCV. Meſur cyffredin.
O flaen Pregeth. (Sanct

DEwch ſeiniwch tawl i'n Harglwydd
A Hymnau o ogoniant cenwch;
JEHOFA yw 'n goruchel Dduw,
A'n Brenhin yw gwybyddwch.

2 Y Dyſnder ffurfiodd ef, ein *JOR*,
A rhoes ir Môr derſynau:
Y Dyfroedd oll ynt eiddo fo,
A'r ſych-dir, Bro, a Bryniau.

3 Dewch iw addoli (fawr a mân)
Plygwch o'i fla'n ar gyhodd;
Ei waith ef ym, nid eiddo 'n hun,
A'i Air, bob un fe 'n ffurfiodd.

4 Clywch heddyw ei Leferydd iach
A i Wialen, na chynnyrfwch;

Dewc

Dewch fel ei ddewiſedig Ryw
Eich graſlawn Dduw addefwch.

5 Ond os eich clyſtiau wrthyd laith,
Ei Fengyl odiaeth raſol.
A'ch calon g'ledu yn y ſan,
Fel *Iſrael* anghrediniol.

6 Yr Arglwydd mewn ymddial ddaw,
A chwyd ei Law gan dyngu,
" Di'ſtyr'ſoch fy Ngorphwyſfa lân
" Ni chewch ddim cyfran yntny,

SALM, XCV. 1, 2 3, 6, Meſur hir. *Coll.* Canaan *trwy Anghrediniaeth neu, Rybydd i Beehaduriaid·Iydd yn oedi dychwelyd.*

DEWCH cyd gyfodwn bawb ein Cân
O barchus gloc i'n Harglwydd glân,
Duw ſy ben Llywydd dae'r a nef:
Moliannwn a dyrchafwn ef.

2 Dewch ac addolwn Dduw 'n gyttun,
Yr hwn a'n gwnaeth a'i Air ei hun:
Ei Ddefaid ym, a'n Bugail yw,
Ac ar ei Borfa 'r ŷm yn byw.

3 Dewch heddyw, ar ei lais gwrandawn
Ac iw Gynghorion ufuddhawn:
Na boed i'n Calon galed gau,
I ddwyn fel *Iſrael* arnom Blaau.

4 *Iſrael* er gweled gwaith ei *Rás*
Temtiaſant ef a u Pechod cas,
Anffyddlon, anghrediniol Ryw:
Blinaſant hîr ammynedd Duw,

5 Fel hyn medd, Duw, " anffyddlon ynt
" Anghofio 'm nerth a'm Cariad gynt
" Dibriſient fy Ngorphwyſfa lan,
" I hon mi dyngais byth nid â'n.

6 Mewn braw, fy enaid edrych 'n ol
Gwel ddiwedd Gwrthryfelwyr ffol:
Tro 'n cynnig, derbyn heddyw i Ras
Na choll o'r lles trwy oedi 'n llâs.

7 Dal afael ar addewid Duw,
Tu a Seion Byrth dos f' enaid byw
Cred, cymmer yr orphwysfa glyd,
Ac ufuddha, bydd gwyn dy fyd.

SALM XCVI. 1. 10. &c. Meſur cyffredin. *Y cyntaf ac ail Ddyfodiad* Criſt.

1 CEnwch i'r Arglwydd Wledydd maith
Pob llwyth pob laith ymadrodd,
Ei newydd ddatguddiedig *Ras*
Seiniwch i ma's ar gyhoedd.

2 Wrth Bobloedd d'wedwch fod Mâb Duw
'N teyrnaſu mewn Gorfoledd;
Dal fynu 'r Byd a'i nerth y mae,
A Gras amgylcha 'i Oſſedd.

3 Cyhoeddwch ei ddyfodiad 'ſo,
Trwy 'r Ddaear bo llawenydd;
Diſgleiried holl Ddinaſoedd Cred
A llawenh'ed y Maeſydd.

4 Trwy 'Nyſoedd pell y mor un wedd,
Boed mawr ortoledd hylwydd;
Pob Bryn a phant cydwaltadhewch
Ffordd barod gwnewch i'r Arglwydd.

5 Wele, mae 'n dyfod nawr i'n plith,
A Bendith a thrugaredd;
I ddangos ei Gyfiawnder clau
I'r Bobloedd, a'i Wirionedd.

6 Ond pan ſo 'i Lef yn galw 'r Bŷd
A'r meirw i gyd i fynu;
Och, fel yr ofna 'r euog rai,
Ac fe 'n neſau i'w barnu.

SALM XCVI. fel Salm 113. Duw *'r Cenhedloedd.*

1 BOed i'r holl Ddaear godi eu llef,
Mewn Salm o foliant hyd y nef,

1 Enw mawr *JEHOFA* ein Duw:
Rhowch ei Ogoniant efi mai,
Ei Wyrthiau a'i achubol Ras,
Fel clywo Pobloedd o bob rhyw.

2 Gogoniant Duw a eglurhair,
Cenhedloedd darllen maent ei air,
Ym *Mrydain* adnabyddus yw:
Eulynod nid addolwn mwy
Gwaith Dwylaw Dynion, ffwrdd a hwy,
JEHOFA yw ein hunig Dduw.

3 Fe wnaeth y Glob a'r Wybrol Len,
A'r Bydoedd diſglair ſydd uch ben,
Teyrnaſu yno mae ein Duw;
Ei fawredd a'i Ogoniant ef
A'i degwch ſydd yn llanw 'r Nef;
Ei Demel pa mor hyfryd yw!

4 O doed y gogoneddus ddydd,
Pan gaſio 'r holl Genhedloedd ffydd
I gredu yng Nghriſt Jachawdwr Byd;
A dynoi ryw cydnabod wnan'
Brydferthwch ei gynteddau glan:
A'i Ras clodforant yno o hyd.

S A L M XCVII 1, 5. Y rhan gyntaf Meſur hir.

Criſt *yn teyrnaſu yn y nef, ac yn dyſod i'r* farn.

TEyrnau mae 'n Jachawdwr glân,
Rhowch fawl mewn efangylaidd gân,
Boed i'r holl Ddaear lawenhau,
A chaned 'Nyſoedd pell bob rhai.

2 Ei ddirgel gyngor tywyll yw,
Ond Gras a Gwir ddeil gorſedd Duw:
Er t'w'lled yw ei ffyrdd di-lyth
Cyfiawnder yw eu ſeilfaen byth.

Mewn gwiſgoedd Barn daw Mab Dyn,
Y Beddau hyllt, a'r Ddae'r a gryn,

Tan

Tân Yſſol 'lyſg o flaen ein J O R,
Nes toddi 'r bryniau, a ſychu 'r Mor.

4 Mewn dychryn ei Elynion fydd
A'm ffoi o'i wydd gan ofni 'r Dydd;
Ond codwch ſaint eich Pennau 'n glau,
Can's mae 'ch hymwared chwi 'n neſau.

§ A L M XCVII. 6---9. Yr ail Ran Meſur hir.
Cnawdoliaeth Criſt.

1 YR Arglwydd ddaeth, cyhoedded nef
Ei Enw a'i Enedigaeth ef;
Cyfrwyddo 'r ffordd mae Seren wiw
I ddwyn y Doethion at eu Duw.

2 Holl ddiſglair dyrfa 'r Nefoedd fry,
Ewch i addoli 'ch Prynwr cu:
Brenhinoedd ac Angylion nef,
A'r Duwiau oll addolwch ef.

3 Boed i Eulynod gwympo i lawr,
Aci'w haddolwyr wridio 'n fawr?
Ond llawen ganed holl Blant Duw,
Can's Brenhin Nef a Daear yw.

§ A L M XCVII Y 3edd ran, Meſur hir.
Gras a Gogoniant.

1 YR Arglwydd yn teyrnaſu ſy',
Tros Ddaear faith a'r Nefoedd fry;
Er bod Cymmylau 'n cuddio i dra'd,
Ei drigfan yw Gorſeddfa 'i Rad.

2 O chwi ſy 'n caru 'i Enw glan,
Caſewch Ddrygioni fawr a man:
Eneidiau 'i Saint ei cadw mae,
Rhag Maglau uffern ſy 'n trofau.

3 Goleuni a llawenydd gwiw
Mewn t'w'llweh hauwyd i blant Duw;

Cyfyd yr hadau hyn ryw ddydd,
Cynhauaf dedwydd etto fydd.

4 Yn Nuw, chwi 'r cyfiawn llawenhewch,
A'i bur Sanctteiddrwydd ef coffewch;
Nid neb ond Enaid grasol byw
All lawenhau n Sanctteiddrwydd Duw.

SALM XCVII. 1, 3, 5, 7, 8.
Mesur cyffredin.
Cnawdoliaeth Crist a'r farn ddiweddaf.

1 BOED i'r Ynysoedd lawenhau,
Teyrnasu mae ein Ceidwad;
Ei air fel Tan 'wna 'i ffordd yn hawdd,
Pob bryn fe 'i tawdd yn wastad.

2 Ei olwg sawdd bob uchel Fryn,
Pob Pant a Glyn fe 'i dyrcha:
Caiff Enaid isel wel'd ei Wen,
A'r Balch o'i hangen trenga.

3 Ei allu ga'dd ei eglurhau,
A'r Eulun Dduwiau o ddau tu,
Gwnaent i'w haddolwyr G'wilydd mawr,
A syrthien lawr dan grynu.

4 Pan aned, daeth Angylion nef
I'w faneg ef a'i 'ddoli;
Pan ddel i farnu 'r Byd ryw ddydd,
Angylion fydd i'w weini.

5 Cryn ei Elynion rhag ein Jôr,
A'r Bryniau a'r Mor a giliant
A'i Blant i'r nef ehedeg wnan'
A'r byd a'r Dân gadawant.

6 Hâd Gwynfyd a Gogoniant llawn
Hauwyd i'r cyfiawn yma;
Mewn nefol fyd egino wnant;
A dygant lawn gynhaua',

S A L M XCVIII. Yr rhan gyntaf.
Meſur cyffredin.
Mawl am yr Efengyl.

1 I'R Arglwydd cenwch newydd Gan,
O foliant glan, ar gyhoedd:
Ei Ras a'i Jechyd wriaeth gref,
'Ddatguddiodd ef i'r Bobloedd.

2 Wrth *Abrah'm* d'wedodd gynta 'r gair
A'r Gras gwplair mewn amſer:
Cenhedloedd credu iw Enw wnant,
A dyſgant ei gyfiawnder.

3 Ei Gariad trwy 'r holl Ddaear faith
Ym mhob rhyw laith cyhoedder;
Ac Enw mawr ein Harglwydd glan
Mewn melus Gan moliannet.

S A L M XCVIII Yr ail Ran.
Meſur cyffredin.
Dyfodiad a Brenhiniaeth y Meſſia.

1 LLawenydd, fo i'r Ddaear faith,
Eich brenhin daeth, derbyniwch;
Partoed pob Calon iddo le,
Y ddae'r a'r Ne' cydgenwch.

2 Ein Prynwr mawr teyrnaſu mae,
Doed Dynion a'u caniadau:
Llifeiriaint, Maeſydd, Creigiau, clywch,
Yn llon dadſeiniwch chwithau.

3 Pechod a Drain ni flina 'r tir
Fe ſymmyd *Jeſu* 'r felldith;
Mor bell ag y bu hon ar led
Ei 'Fengyl 'red a'i Fendith.

4 Mae 'n llywio 'r byd, a'i wir a'i Ras,
Caiff Pobloedd flas a Phrofiad,
O'i bur Gyfiawnder ef a'i hedd,
A gwaith ei ryfedd Gariad.

S A L M XCIX. Y Rhan gyntaf,
Meſur cyffredin.
Brenhiniaeth Criſt *a'i Fawrhydi.*

1 JEHOFA ſy 'n teyrnaſu o hyd
Holl bobl y byd dychrynwch ;
Cryned yr Enwir ger ei Fron,
A'r Saint yn llon ymgrymmwch.

2 Teyrnaſu mae ein *Jeſu* da,
Y Dd ae'r addola 'th Arglwydd ;
Cerubiaid ger ei Fron a gair,
Yn gwneud ei Air yn ebrwydd.

3 Yn Seion mae Gorſeddfa 'i Ras,
Mawr yw ei Urddas yno ;
A'i Wyrthiau draethir yn ei Dŷ,
A'i Ogoniant ſy 'n diſgleirio.

4 Mor ſanctaidd yw ei Enw gwiw :
Ofnadwy yw ei Foliant :
Yng waith ei Ras. cyfiawnder pur,
A Barn, a Gwir, cyſſylltant.

S A L M XCIX. Yr ail *Ran*,
Meſur cyffredin
Duw Sanctaidd i'w addoli gyd a pharch:

EIN Harglwydd Dduw, pawb ef mawr-
Plygwch wrth draed ei fawredd : (haed
Sanctaiddrwydd oll yw Natur Duw,
Trugaredd yw ei Orſedd.

2 *Iſrael* pan fu yn Eglwys hoff,
Ac *Aaron* yn Offeiriad.
Pan lefei *Moſes* dros eu bai,
Y bobl a gai Orphwyſiad.

3 Mynych faddeuodd Duw i'r rhain,
Ac nis dimſtrai 'n hollol,
A mynych goſpai 'u pechod càs,
'Amharchei i Ras rhagorol.

Dyach

4 Dyrchefwch bawb ein Harglwydd Dduw,
Ei Ras 'r un yw yn waſtad;
A *Duw* yw o ſancteiddrwydd llawn,
Eiddigus iawn o'i 'Ddoliad.

SALM C. Y Meſur cyntaf.
Cyfieithad eglur. Mawl i'n Creawdwr

Cenhedloedd yr holl ddaear, dewch
A llawenhewch ger bron ein Duw;
Gwaſanaethwch ef a chalon rwydd,
Yr Arglwydd eich Penllywydd yw.

2 Yr Arglwydd ſydd yn Dduw, fe 'i hun,
Sy 'n rhoddi Bywyd, ffûn a bod;
Ei waith ef ym a'i Ddefaid gwâr,
Byw 'r ydym ar ei Borfa a'i nod.

3 O ewch i'w Byrth dan lawenhau,
Ac i gynteddau teg ei Dŷ
Rhowch yno Glod i'w Enw glan,
Fe haeddei 'ch Can a'ch diolch cu.

4 Can's, da yw 'r Jon, a mwyn un wedd,
Ac i'w Drugaredd pall nid oes;
Caiff dynion wel'd ei Wir di-au.
Byth yn parhau o Oes i Oes.

SALM C. Yr ail feſur.
Eſponiad

1 I 'R Arglwydd cenwch hyfryd Gân,
Pob gwlad rhowch fawl i'w Enw glan
Fryttaniaid a'ch Calonnau a ch llef
Dyrchefwch chwi ei enw ef

2 Neſewch ger bron ei Faingc yn brudd,
Mewn ofn a gwir Lawenydd ffŷdd:
JEHOFA yw 'ch harglwydd chwi, bob grad
Ei air all greu, ei Air all ladd.

3 Gyd a'i Orchymmyn gallu aeth,
Y Byd o ddim mewn bod a ddaeth;

dewch

Dewch Greaduriaid oll o'i fla'n,
Clodforwch eich Creawdwr glan.

4 Saint, molwch ef, yr hwn a'ch gwnai
O'r pridd cyffredin fel pob rhai;
A phan grwydrasoch megis ŵyn
I'w Gorlan darfu iddo 'ch dwyn.

5 Chwi yw ei ofal ef o hyd,
Eich Henaid byw a'ch cyrph i gyd:
Pa Barch ddangoswch chwi yn awr
I Enw ein *JEHOFA* mawr:

6 I'w byrth, a chan ddiolchgar dewch,
A chodi 'ch llef uwch nef a wnewch;
Ond ni all holl Delynau r nef
Byth hanner ei foliannu ef.

7 Trwy 'r holl fyd mae llywodraeth Duw,
Ei Gariad ef tragwyddol yw:
A'i lan Wirionedd saif yn syth,
Heb lygru na chyfnewid byth.

SALM CI. Mesur hir.
Salm i Lywodraethwr Gwlad.

1 TRugaredd yw, a Barn fy nghan,
Y ddau i ti perthynu wnan'
I'm grasol Dduw a'm brenhin mawr
'R wy 'n dwyn fy addunedau 'n awr.

2 Os codwyd fi i ddwyn y cledd,
Caiff d' air fy ffordd i ym mhob gwedd,
Dy Ras a'th bur Gyfiawnder di
Fydd Patrwni 'm Gweithredoedd i.

3 I'm tywys, gwir Ddoethineb boed,
A chyd a mi, fy Nuw, arhoed;
Ac agos attaf fi ni thrig
Ddim drwg ag all cyffroi dy ddig.

4 Nid Meibion Enllib (drwg eu moes)
Na chynnen fydd Cymdeithion f' oes;

Y

Y Galon falch, na 'r olwg ſyth
Ni thrig o fewn fy Nryſau byth.

5 Y cyfiawn a gyfodaf fi,
I le o 'mddiried a Parch a Bri;
Y rhai a wnant d' Ewyllys glân
Fydd fy nghyfeillion, fawr a man.

6 Ni chaiff rhai enwir ymfawrhau,
Trwy weniaeth, llid, na chwedlau gau,
Amddiffyn 'wnaf y gwirion cu,
A choſpaf y troſeddŵr hy.

7 Y rhai terfyſglyd llawn o frad,
Ymguddio cant, neu ado 'r Wlad
A phawb a dorro 'r Heddwch mawr,
Lle gallwyf cadwaf hwynt i lawr.

8 A L M. CI. Meſur cyffredin.

Salm i Bon-teulu'

1 GRAS a Chyfiawnder fydd fy nghân'
F' adduned lân a daiaf;
A 'th Ras a'th ſawnder dyſg fi, Dduw,
A 'm Tŷ a lywodraethaf.

2 Tyred i' m Pabell, lle 'r wy 'n byw,
Gwna 'th was yn wiw ddeallus;
Ni chaiff dim 'attaf fi neſau,
F'o 'n anfoddhau d' 'Wllys.

3 A wnelo a'i Gymmydog gam,
Trwy dwyll neu amrafaelu;
Yr olwg falch, y Tafod cas,
M'i ' tafla ' ma's o'm Teylu.

4 Am ddynion ffyddlon cyfion call,
Rai duwiol diwall, chwiliaf;
Y rhai 'n yw 'r ffryns eu coelio wna',
A'r Gweiſion a gyflogaf.

5 Y dŷn twyllodrus cyfrwys hy,
Ni thrig i'm Tŷ mo 'r noſwaith;
Celwyddog dafod a gaſaf;
O'm gwydd y gyrraf ymaith.

6 I buro' nheulu 'r 'wy ,n ymroi
Gw na' i'r enwir ffoi yn ebrwydd,
A'm Tŷ fydd byth i ti trwy Ras,
Yn drigfan addas, Arglwydd.

S A L M. CII. 1, 13, 26 28.
Y rhan gyntaf, Mefur cyffredin.
Gweddi 'r Cyfuddiol

1 CLYW fi o Dduw, rho wel'd heb nâg
Dy Wyneb, rhag im drengu;
Oni chyfodaiſt Orſedd Gras
I wrando addas Weddi?

2 Treuliodd fy nyddiau gan dy ŵg,
Ar dawdd fel mwg mewn awyr,
Sychodd fy Nerth, a'm Calon wan
Sy 'n ſoddi dan anghyſur.

3 Fy yſpryd wywodd fel Gwellt glàs,
Fy 'n goddef lâs neu Boethfa,
Mewn Griddfan treulio f' oriau 'r wyf,
Hyd nes anghofiwyf fwytta.

4 Fel 'deryn to ar ben y tŷ,
Sy 'n unig fry yn cwynfan,
Pell ydwyf oddiwrth Bebyll Hêdd,
Yn eiſtedd ac yn griddfan.

5 Mae f' enaid fel rhyw Goedwig glôs
Lle adar nos ſy 'n wban;
Y *Gigfran* bendriſt yno drig,
Y *Pelig* a'r *Ddylluan*.

6 Meddyliau blin, ac ofnau ſynn
I 'm Calon ſy 'n llettya:
Tra 'm clwyfir âg enllibiau llym,
Fel nad oes ym Orphwysdra.

7 Fy Nïod, eymmyſg yw a 'm Gwae,
Fy ngwledd yw Dagrau (ſywaeth)
Fy mara' aeth fel llydw cas,
Yn llwyr ddi-flas i,m Harchwaeth.

Ni

8 Ni lonna 'r Bŷd mo 'm Henaid gwan,
Sy 'n teimlo 'th anfodlonrwydd:
Dy Law a 'm cododd 'fynu 'n fawr,
A thaflodd lawr fi, Arglwydd.

9 Fel dail, gwywedig yw fy mhryd,
A 'm Bywyd a 'i oleuni,
Lleſgâu mae fel cyſgodau 'r hwyr,
I nos fy 'n llwyr ddiflannu.

10 Ond tithau, Arglwydd, yn ddi-lyth,
Parhai di byth yr un modd;
Oeſoedd a ddaw, d' adnabod cant,
A thraethant dy Weithredoedd.

11 Fe gwyd a thrugarha fy Nuw,
Nid oeda 'r cyfryw orchwyl:
Tu hwnt i awr ei Ras ryw bryd,
Y dŷdd wyf cyd yn ddilſgwyl:

12 Fe glyw ei Saint, mewn Ing fe 'i gwel,
A thrwy ffyrdd dirgel gweryd
Garcharwyr oedd i farw 'u trau,
A mawl i'w Genau geſyd.

SALM CII. Yr ail ran, Meſur cyffredin,
Gwrando Gweddi, ac adferyd Seion.

1 SEION a'i phlant cant lawenhau,
Duw, trugarhau mae wrtnı,
Gwrandawodd ei galarus lef,
A dengys ef ei allu.

2 Ei llŵch, a'i holl Fagwyrydd hi,
Yn fawr ym ni 'n eu priſio:
Adeilir hon yn deg ei phryd,
A'i llŵch a gyfyd etto.

3 *Caerſalem*, cyfyd Duw hi 'n llawn,
Saif yno mewn Gogoniant
Plyg Pobloedd ger ei fron ar goedd,
Brenhinoedd a'i gwaf 'naethant.

Mae

4 Mae 'n eiſtedd ar Orſedd-faingc Nefi
Ac yntho ef doſturi.
Clyw Riddfan Carcharorion prudd,
A Chluſt a rydd i'w Gweddi.

5 Rhyddhau Plant Angau a wna 'fo,
A phan achwyno'i Seintiau,
Ni chaiff neb ddweyd mai ofer yw
Gweddio Duw yn ddiau.

6 Pan drengom ni, bydd hyn o beth,
Mewn coffadwriaeth etto;
Fel y darlleno 'r Oes fy n ôl
Waith Duw, a'i ganmol efo.

SALM, CII, 23, 28. Y drydedd ran Meſur hir. *Marwoldeb Dyn, a thragwyddoldeb* CRIST, *neu Saint yn marw, ond* CRIST *a'r Eglwys yn byw*

1 YR Arglwydd ſydd a'i Law 'n gwanhau
Ein cryfder ar y ffordd mor frau;
Gyrr haint ac Angau llym ei Loes
I 'n dal a thorri 'n fyrr ein Hoes.

2 Duw, arbed ni, clyw 'n Gweddi brydd,
Ein Haul na oſtwng ganol dŷdd;
Un bythol ddŷdd yw 'th flwyddau di,
A'i marw 'gynted raid i ni?

3 Etto ynghanol Angau a Gwae,
Y meddwl hwn ſy 'n eſmwythau;
Ein Tâd a'n Prynŵr ſydd yn fyw,
Y *Jeſu* 'r un yn waſtad yw.

4 Fe ddoddodd ſeilfaen Daear lawr,
A'i Law a wnaeth y Nefoedd fawr,
Heneiddia'r Ddae'r, diffianna 'r Nef,
Newidiant wrth 'i Orchymyn ef.

Serennog Lenni 'r Wybren fry,
A droir ſel henwiſg o'r naill du;

Ond d' Orſedd di a ſaif yn ſyth,
A'th Eglwys bur a erys byth.

6 Dy Eglwys ger dy fron gaiff fyw,
Teyrnaſa 'th Blant ar d' Orſedd wiw,
Hwy fyddant byw pan drengo 'r byd,
A chwyd y ſeintiau meirw i gyd.

SALM CIII. 1. 7. Y rhan gyntaf Meſur hir.

Bendithio Duw am ei Ddaioni i Enaid a Chorph.

1 O F' Enaid, mawl y bywiol Dduw,
A'th holl Bwerau, teilwng yw,
Meddyliau gwibiog galw i dref,
Gwaith ſanctaidd yw 'i addoli ef.

2 Mawl i Dduw 'r Gras, fy Enaid dod,
Mae 'i ffaſor ef yn cleimio 'th glod;
Pa ham y caiff ei Gariad 'fo
Fynd mewn Diſtawrwydd byth dros go'?

3 'Fe, f' enaid, yrrei 'Fâb i'r Byd
I Farw am dy Feiau i gyd;
Mae 'n maddeu am y lawn a roes
Ein ffoledd ni, bob awr o'n Hoes.

4 Diwygio beiau 'r meddwl mae
A Heintiau natur mae 'n lachau,
Gwaredu 'n Henaid, rhoi 'ni hedd,
A chadw 'n Bywyd brau o'r Bedd.

5 Ein Hoes mae 'n adnewyddu 'n llon,
A'i Gariad mae 'n Coroni hon;
Ein Genau â Bwyd a leinw ef,
A'n Henaid pyrth a Bara o'r nef.

6 Mae 'n gweld y gorthrymmedig rai,
A mynych yn eu heſmwythau:
Ond ei gyſiawnder allan dyd
Yn fwy pan ddêl i farnu 'r Byd.

7 Ei nerth trwy *Foſes* eglurh'odd.
I *Iſrael* ei Orchmynion rhodd;
Ond trwy ei Fab anfonodd Duw,
Ei Wir a'i Ras i ddynol ryw.

8 Doed holl Genhedloedd Daear lâs
I addoe 'i nerth a moli ei Ras;
Yr *Iuddew* a'r *Cenhedlig* ddyn,
A phawb i addoli Duw 'n gyttun.

S A L M CIII. 8——18
Yr ail Ran Meſur hir.
Cerydd tirion Duw; neu, *ei dyner drugaredd i'w Bobl.*

MAE ffyrdd ein Duw yn rhyfedd iawn,
Siwr ei addewid mawr ei ddawn,
Ar Faingc trugaredd fry y ſai,
Oddi yno 'i Ras mae 'n eglurhau.

2 Nid hanner cyfuwch ydyw nen
Y Nef ſerennog uwch ein Pen,
Ag yw ei Gariad ef yn bod
Uwchlaw ein Gobaith ni a'n clod.

3 Er pelled yw ſefyllfa a ſail,
Y Wawr oddi wrth fachludiad Haul,
O'i Ras, dau pellach ſymmyd mae
Feynyddiol beiau 'i anwyl rai.

4 Mor araf ennyn Dig ein Duw;
Parottach i Drugaredd yw:
Ac os ei ddig a gaiff gyffroi,
Mae 'n ebrwydd i Doſturi 'n troi.

5 Ynghanol Llid mae 'n trugarhau,
Yſgafnach yw ei goſp na 'n Bai;
A thra ceryddo 'i Saint yn fwyn
Ei Gluſt a wrendy ar eu cwyn.

6 Fel Tadau 'n coſpi' Plant, er budd
A dwylo tirion, golwg brudd,

Pan

Pan wylo 'r Plant, ac adde 'u Bai
Bydd Calon Tadau 'n trugarhau.

Gorphwyſiad.

Y Doeth a'r Cyfiawn Dduw a wyr
Mai llwch yw 'n Defnydd ni yn llwyr,
Dim Beichiau arnom ni ddyd ef,
Tu hwnt i'r Nerth a rydd o'r nef.

Fe wyr mor wan yw 'n natur ni
Pob Awel ſy 'n ei deifio hi,
Gwywedig ym fel Blodau 'r maes,
Y Boreu 'n llon Brydnawn yn llaes.

Ond ei dragwyddol Gariad mae
I bawb o'i Saint fyth i barhau;
A'i 'ddewid ſydd i Blant eu Plant
Gobeithio 'n ofer byth ni chant.

SALM CIII. 1——7. Y rhan gyntaf Meſur cyffredin.

Mawl am Drugareddau yſprydol a thymhorol.

BEndithia 'r Arglwydd, f' enaid byw,
A'm holl du fewnol rannau
Cydrowch i'w Enw ſanctaidd fawl,
Am ei ryfeddawl ddoniau.

Bendithia 'r Arglwydd, ac na âd
Ei Gariad a'i drugaredd,
Yn angof heb dy ddiolch di,
A marw 'n ddi-glodforedd.

Efe ſy 'n maddeu dy holl fai,
Ac yn iachau dy ddolur;
Adferu 'th oes, pan fe'ch ar drangc,
Yn ifangc fel yr Eryr.

Dy Fywyd, mae 'n waredu o'r Bedd,
Trugaredd a'i corona:
Yr hwn a brynodd f' enaid drud,
All achub hyd yr eitha.

5 Diwallu 'r tlawd a'i gyfoeth mae,
Ac eſmwythau 'r blinedig:
Fe farna 'r beilch fe ddyru Borth
I'r rhai ſy 'n orthrymmedig.

6 Ei ryfedd Waith a'i ffyrdd ar hynt,
Trwy *Foſes* gynt hyſpyſodd;
Ond trwy ei Fab i'r ddeau las
Ei Wir, a'i Ras anfonodd.

S A L M CIII. 8.--18. Yr ail Ran, Meſur cyffredin.

Toſturi Duw yn *amlhau*; neu, *Drugaredd, Ynghanol Barn.*

1 FY Enaid datgan fawl dy Dduw
Can's mawr yw ei Drugaredd:
Hwyr yw ei Lid ef i gyffroi,
A chlau mae 'n troi 'n dangnefedd.

2 Nid byth 'cerydda 'r Arglwydd ni,
A'i Wialen hi pan deimler
Yſgafnach yw ei goſp na 'n bai,
A'r Briw yn llai o lawer.

3 Cuwch ag yw 'r Nefoedd fry yn wir,
Uch law y Tîr 'r ym arno,
Mae 'i Ras cyn belled yn ddiau
Uchlaw ein Tybiau 'm dano.

4 Gorchfygu 'n Pechod mae a'i rym,
Euogrwydd llym mae 'n ſymmyd,
Mor bell a'r Dwyrain oleu hin,
Oddi wrth Orllewin Fachlud.

5 Y mae Toſturi 'n Harglwydd da,
I bawb a'i hofna 'n ufudd
O'r fath a fedd Tâd da neu Fam:
Mae 'n gwybod am ein defnydd:

6 Fe wyr nad ym ond llwch ſy 'wan,
A chwelir gan Awelau;
Ei ddig a all fel corwynt cry
Ar frys ein gyrru i Angau.

Fel

7 Fel Glaſwellt îr yw dyddiau Dyn,
Neu fel blodeuyn boreu;
Os un poeth awel droſto â,
Mewn awr fe wywa 'n ddiau.

8 Ond dy Drugaredd yn ddi lyth
A Bery byth heb newid:
A phlant y Plant cant wel'd, o Dduw,
Mai ſicir yw d' Addewid.

SALM CIII. 19--22.

Y drydedd ran Meſur cyffredin,
Hallel Arglwyddiaeth Duw; neu, Angylion Molwch yr Arglwydd.

1 YR Arglwydd, Brenhin Nef a llawr,
Ei Orſedd fawr, gwnaeth uchod;
Mae 'n llywodraethu 'r Byd uwch ben,
A'r holl Ddaearen iſod.

2 Chwy chwi Angylion mawr eu grym,
A chyflym i gyflawni
Ei wyllys glan a gwrando i lef,
Bendithiwch ef yn heini.

4 Boed i'r llu diſglair gyd a pharch
Sy 'n diſgwyl arch eu Llywydd,
A gwylio ei Eglwyſi glan
Gydſeinio can o glodydd.

4 Tra fyddo 'i holl ryfeddol waith
Trwy 'i Deyrnas faith yn traethu
Gogoniant *Duw*, fy Enaid cai
Ei Drugareddau ganu.

SALM CIV. Meſur hir.

Gogoniant Duw ynghreadigaeth a rhagluniaeth

1 DO Dſ Enaid i tn Greawdwr tawl,
Pan wiſger yn ei neſol wawl
Ymddangos byeld yn fawr dros ben
Gogoniant llawn o'i gylch fel lien.

2 Y Neſoedd yw Cwrtenni 'n JOR;
A'i Wely fy 'n y dwfwn For;
Cymmylau yw ei Gerbyd cry,
A'r Gwynt pan fo'n marchogaeth fry,

3 Angylion ei Genhadon glan,
Sy 'n gweini iddo 'n fflamiau tan;
A chlau fel meddwl yw eu llu;
I ddwyn ei Gosp neu 'i Gariad cu.

4 Seilfeini 'r Bŷd 'gyd bwysodd e',
A'i Law, na sysiant byth o'u lle;
A'r Mor mewn Cadwyn 'rwyma 'nghyd,
Rhag iddo etto soddi 'r Bŷd.

5 Pan oedd y diluw 'n cuddio 'r llawr,
'R hwn oedd goruŵch pob Mynydd mawr
Taranedd ef, a'r Cenfor ffodd,
I'w le pwyntedig, ac arhodd.

6 Eu terfyn 'wŷr y tonnau o hyd;
A rhodiant yn eu cylchau 'gyd:
Oddi yno trwy ffyrdd dirgel cant
Eu dwyn i'r Bryniau, a'r Fro dwfrhant.

7 Eirch i'r ffynhonnau grisial clir
Ddylifo a llonni 'r dyffryn dir;
Y Fuwch 'dyrr yno 'i syched brwd,
A'r asyn gwyllt 'fref am y ffrwd.

8 O'r Coedydd hyfryd uwch eu llaw
Y Lincs a'r ychedydd 'ddaw,
Ac yfant, canant fawl i'r Jon,
I ni 'r hon' senn am dewi son.

Gorphwysiad. I

9 Duw o'i stafelloedd a ddwfrhâ
Y sychdir a chasodydd da:
Yr Ardd a'r Maes a'r goedwig wyrdd
A ront i ni Fendithion fyrdd.

10 Gwna 'r Ddaear dysu, yna cwyd,
I'r Anifeiliaid borfa a Bwyd;
A llysiau i ddyn, amrywiol rai,
I faethu natur ne'i hiachau.

11 Gwinwydden, ffrwyth rhagorol rhydd,
A'r Oliwydden firiol ſûdd
A gwin y Galon llawenhair,
Ag olew 'r Wyneb a deghair.

12 *Fryttaniaid*, molwch Dduw 'n gyttun,
Am Fara i gynnal natur dyn,
Tr'o Bara 'n nerthu 'ch Rannau byw;
A Chalon gref gwaſ'naethwch Dduw.

Gorphwyſiad. II.

13 Wele 'r Gedrwydden uchel draw
Mewn Coedwig cododd hon a'i *Law*;
Am Nawdd i'w changau 'r adar ffy
A gwnant eu nythau 'n ddïogel fry.

14 Yr Afr a ddring i'r Creigiau draw;
Cre'duriaid llai ſydd is ei llaw
Yn gwneud eu cell wrth Droed y bryn,
Mae Duw 'n eu dyſgu 'n ddoeth iel hyn.

Fe roes i'r Haul ei Dro-gylch clau
I'r Lleuad hithau llanw a'i thrai;
A phan ddel T'w'll-nos galw mae
Fwyſtfilod 'maes i hela 'u Prae.

16 Daw 'r llew a'r lled a'i ifaingc Ryw,
A rhuant, ceiſiant fwyd gan Dduw,
Ond pan gyfodo 'r Haul yn glau,
Y Bwyſtfil rheipus ffy i'w ffau.

17 Ac yna Dyn i'w Orchwyl aed,
Y Nos i orphwys iddo wnaed,
Rhodd Duw yw cwſg a melus hoen,
Oddi wrth ein Llafur blin a'n Poen,

18 Mawr yw dy Waith a rhyfedd iawn,
Pob lle o'th gyfoeth ſydd yn llawn,
Doethineb Duw ſy' wel d trwy 'r Byd,
O honot llawn yw 'r Dda'r i gyd.

19 Nid llai 'th Ogoniant di, ein JOR,
Ym myſg y Pyſg ſydd yn y Mor,

Y rhai ſy 'n ſymmyd yma a thraw,
Yn Llwybrau 'r dyſnder îs ein llaw.

20 Ac yno nofia Llongau 'n glau,
Ac Anghynfilod yrrau 'n gwau;
Ac yno mae 'r *Leſiathan* mawr,
Yn chwareu yn yr Eigion lawr.

Gorphwyſiad III

21 Dy waith o Dduw yn faith a gair.
Holl Natur 'orphwys ar dy Air;
A'r holl Greaduriaid ym mhob man,
Sy 'n diſgwyl cael o'th Law eu Rhan.

22 Pob un ſy 'n derbyn bwyd gan Dduw,
A'u Gwedd ſy 'n datgan mai da yw;
Eryrod, *Eirth*, *Morfilod* fyrdd,
Clodforant di mewn amryw ffyrdd.

23 Ond pan ymguddio 'th Wyneb pryd,
Triſtânt, a thront i'w llŵch i gyd;
Dŷn ac anifail ni bydd byw,
Eu Hanadl rhoddant fynu i Dduw.

24 Ond ti all chwythu ar Lŵch drachen
Ac adnewyddu 'r Bŷd mewn treſn;
Dy Air a all y cyfan greu,
Fu Angau ac Amſer yn ddileu.

25 Mae 'i hoffder a'i hyfrydwch maith,
Yn ei alluog Wyrth a'i Waith;
Mor Ogoneddus yw ffyrdd Duw!
Ac yn ei Fawl o'nadwy yw.

26 Y Ddae'r a gryn, os tery a'i Law,
Os cwrdd à'r Eryniau mygant draw:
Er hyn gall Enaid dlawd yn fwyn,
Gael gweld ei Wedd a dweyd ei gwyn.

27 Gobeithiaf yntho ef tra bwy,'
Mytyrio 'm dano 'n felys 'r wy':
I'w foli rhof fy Anadl chŵyth,
Nes delwyf i'r llawenydd byth.

Pan

48 Pan drengo Pechaduriaid trwch,
Eu parch a gleddir gyd a'u llŵch;
Caf finnau ganu i'm Brenhin cu,
Dragwyddol *Aleluia* fry.

SALM, CV. Wedi 'byrrhau, Mesur cyffredin. *Duw yn tywys Iſrael, a Phlaau 'r Aipht*

1 CLLDFORWCH Dduw a'i Enw glân,
Rhowch allan ei Raſoldeb;
A'i glodfawr waith trwy 'r Bŷd, fel 'bo
I bob dŷn geiſio ei Wyneb.

2 Cidw 'i Gyfammod gynt a wnaeth,
I Oeſoedd maith 'aeth heibio,
I Oeſoedd ddaw caiff hwnnw ddal,
Mewn grym yn gyſtal etto.

3 Tyngodd i *Abraham* a'i Hàd,
A'r Fendith wnad yn ſicer,
Cenhedloedd darllen maent ei Air,
A'i ddewid cair yn gywir.

4 "Trwy 'th Had bendithir Pobloedd oll,
(Oedd Gair Duw holl effeithiol)
"Tir *Canaan* eu Gorphwyſfa fydd,
"Teip o'r llawenydd netol.

5 Mawr oedd y Gras a'r caniadhâd,
Caent *Ganaan* Wlad yn drigtan:
Pan oent ddieithred yn y lle,
Yn fintai dene egwan.

6 Fel Pererinion trwy 'r holl dir;
Dïogel hir bu 'u Teithiau
Brenhinoedd beich o'u plegid hw,
Yn arw fe 'i ceryddai.

7 "Cyffyrddwch a'm heneiniog rai,
"A'm Brawch yn chwai a ddal:
"Caiff drygwyr fy Mhrophwydi gwiw,
Weld cadarn Dduw gan *Iſrael*.

8 *Am hyn attalied Gwyr y Byd*
Eu terfyſg ynfyd llidïog:
Iſrael *ei Eglwys byth fydd byw,*
Dan ofal Duw *gallog.*

Gorphwyſiad. I

9 Duw mawr, pan ſlinei Pharao 'i ſaint,
Cyffroi 'i ddigofaint ſwy ſwy:
Anfonei *Foſes* wrth eu lleſ,
A'i Wïalen gref ofnadwy:

10 Am d'w'llwch galwei, t'wllwch ddaeth,
Gorchuddio 'wnaeth y cyfan;
Pob llyn ac afon yno a 'gaed,
Fe 'u troes yn Waed yn ſuan.

11 Rhoes arwydd, cymmyſg bla a ddaeth,
Trwy 'r dalaith yn gyffredin:
A chododd Llyffaint fynu 'n llu
O amgylch Gwely 'r Brenhin.

12 Trwy faeſydd, Treſi, a llyſoedd teg,
Ei Farnau, ddeg ſu 'n hedeg:
Locuſtiaid yſſai 'r Coed yn chwai,
A'r cenllyſg laddai 'u Gwartheg.

13 A chanol nos daeth angel *Duw.*
Gwnaeth yno ddiſtryw 'ſceler,
Blaen ffrwyth pob tŷ ſe 'i torrai 'n lawr
Eu hymffroſt mawr a'u Balchder.

14 *Bellach attalied Gwyr y Byd,*
Eu terfyſg ynfyd llidieg,
Iſrael *ei Eglwys byth fydd byw*
dan ofal Duw *galluog*

Gorphwyſiad. II

15 Fel hyn rhyddhawd y llwythau 'n wir,
O'r *Aipht*, y caeth-dir cethin:
Pawb a rhyw Yſpail gantho o'r Wlad,
Un lleſg ni cha'd o'r Werin.

Duw

16 Duw mawr ei hun a luniei 'u taith,
Trwy Diroedd diffaith dyrys:
Y dŷdd rhoes Gwmmwl niwl o'u blaen,
Y nos rhoes dan i'w tywys.

17 Sychedu wnaent, a Dwfr a ddaeth.
O'r Graig yn helaeth llifodd:
I'w cynnal ar eu taith yn ffrwch,
Trwy r holl Anialwch rhedodd.

18 O rhyfedd Deip! o nefol Ras!
Sy 'n llifo ma's heb attal,
O Grist ein bythol Graig o hyd,
Trwy r anial fŷd i'n cynnal.

19 Fel hyn hwy gadwyd trwy law Dduw
A'r Llwythau byw meddianent,
Wlad *Canaan* fras 'r addawodd fo,
Ac yno y gorphwyſent,

20 *Am hyn attalied Gwyr y Byd*
Eu terfyſg ynfyd llidiog;
Iſrael *ei eglwys byth fydd byw,*
dan ofal Duw *galluog.*

S *A* L M CVI. Meſur hir
Mawl i Dduw, neu, *Cymmuudeb a'r ſaint*

1 I R mawr a'r byth fendigaid Dduw,
Dyrchafer Cân o ogoniant gwiw;
Byth pery ei drugaredd hael,
Rhowch iddo 'r Glod, mae'n haeddu 'gael.

2 Pwy edwyn nerth, a ffyrdd ein Duw,
Pwy all fynegu 'i foliant wiw:
Gwyn fyd y rhai ſy 'n d' ofni o hyd,
A gwneud dy 'w'llys a'u holl fryd.

3 O cofia 'th hen drugaredd rad,
I *Iſrael* dy ddewiſol had:
A'r unrhyw Jechydwriaeth hael
Bendithia bob ymbiliwr gwael.

4 Dy Bobl a welwy 'n llawenhau,
Cyd-lawenhaf a'r cyfryw rai

Cyd

Hyn, Arglwydd, yw 'ngogoniant i
Bod gyd a'th ſaint gerllaw i ti.

S A L M CVI. Yr ail Ran Meſur cyffredin, adn 7, 8, 12, 14. 43, 48, *Ceſpi* Iſrael *a'u pardynu* : neu, *Gariad anghyfnewidiol* Duw.

1 DUW y tragwyddol Gariad rhad,
Ein ffyrdd an-aſtad ydynt!
Ca's *Iſrael* fynych brawf er hyn
O'th Ras yr un tuag attynt.

2 Gwelſant dy Ryfeddodau hy,
A'th Fawl bryd hynny canent
Ond clau angofient hwy dy nerth,
A'u Tafod ferth grwgnachent.

3 'N awr credu wnaent i'w air yn ſiwr
Tra lliſei Dw'r o'r Creigiau;
A'u Chwantau temtient Dduw mhen tro
Ac yna ſo u goſtyngai.

4 Ond pan alarent am eu bai,
Gwrandawei eu hachwynion:
Ei hen Gyfammod ddug i go',
Fe 'u galwai etto 'n Feibion.

5 Fu Henwau yn ei lyfyr oedd,
Fe 'u cadwodd rhag Gelynion:
Er iddo 'u coſpi lawer tro,
Ni adodd mo'i Etholion.

6 Bendithied *Iſrael* Dduw a'i gwnaeth,
Eu hen rywiogaeth carodd,
Boed i Griſtnogion trwy 'r holl fyd
Ei foli' gyd ar gyhoedd.

S A L M CVII Y Rhan gyntaf Meſur hir.

Dwyn Iſrael i Ganaan *a'r ſaint i'r Nef*,

MOlwch yr Arglwydd, Brenhin nef,
Can's mawr yw ei drugaredd ef,
Ca'

Ca's Oesoedd gynt o honi Braw',
Ac felly caiff y Rhai a ddaw.

O boed i Waredigion *Duw*,
Adgofio'i Ras a'i Wyrthiau gwiw;
Sef, *Israel* ei ddewisol Hâd,
O Law 'r gelynion ga's Ryddhad.

Pan 'ddrylliodd ef a'i Fraich yn frau
Eu rhwymau caeth a'r aiphtiaidd lau,
O amgylch crwydro wnaent yn hir;
'Rhyd anghyfanedd anial Dir.

Ni chaent un Brif-ffordd ar eu Taith,
Na Dinas i breswylio 'chwaith;
Na Bwyd, na dw'r i dorri grym
Eu Syched ilosg a'u Newyn llym:

Yn eu cyfyngder galwent Dduw
Eu Ceidwad fy a'u Cwysog gwiw,
Arweinodd hwynt o ddautu 'n hir,
Yr uniawn ffordd i *Gaanan* Dir.

Felly, pan ein ryddhair trwy Ras
O Rwymau 'r Fall a phechod cas;
Trwy 'r anial Fyd mae'n ffordd i dre,
Peryglus a blinderus Le.

Ein Porthi a'n gwisgo gantho cawn,
Trwy r daith, a'n tywys i'r ffordd lawn;
A'i gadarn Law fe n ceidw'n wir,
Adwg ni 'n iach i'r nefol dir.

O boed i'r Saint adgoffa a Sôn
Am gariad a Daioni 'r I O N;
Mor fwyn ei ffyrdd! mor fawr ei waith!
Pob tafod f'o 'n ei foli 'n faith.

A L M CVII yr ail ran mesur hir

Cerydd am Bechod a rhyddhad trwy Wedd.

¶ O L W C H ei Enw o Oes i Oes
I Dduw a'i Ras dim trai nid oes:

Porthi 'r newynog Enaid wna,
Diwallu 'r tlawd â phob peth da.

2 Ond os eu Calon, cyndyn yw,
A wrthryfela 'n erbyn Duw,
Os gwrthod wnant ei nefol Air,
A'r mwyn Gynghorion' gantho 'gair.

3 Fe oſtwng eu Hyſprydoedd gwael,
Ni bydd achubwr iddyn' gael;
Fe'u llwytha a Gofyd o bob tu
Yng nghyſgod Angeu a thwllwch du.

4 Yna at Dduw dyrchafant Lef,
Fe wawria arnynt hwy o'r Nef,
Fe waſgar yr holl dywyll Len,
Fu'n crogi 'n drwm o gylch eu pen.

5 Fe ddryllia 'r Barrau pres yn ddau,
Caiff carcharorion eu rhyddnau;
Fe dynn y Baich o Euogrwydd prydd,
I'r Enaid blin, Diddanwch rhydd.

6 O Boed i Feibion Dynion ddwyn
Mewn cof ddaioni 'r Arglwydd mwyn!
A'i Ryfeddodau iddynt hwy!
Fel y moliannont ef yn fwy.

SALM, CVII. y drydedd Ran meſur hir. *Coſpi Arghymmedroldeb; a'i bardynu neu Saim i'r Gwyth a'r meddwyn*

DYN gwag, trwy felus chwant, a'i wŷs
Sydd yn darparu 'i Goſp ei hun,
Pa Boen pa ffraidd haint a gwyd
O arfer gormod Bîr a Bwyd.

2 Y meddwyn ſy'n ymdreulio ar frys,
Ei lechyd fawdd i foddio 'i flys;
Nes collo 'i holl alluoedd ffiwch,
A'i fywyd lleſg ar fynd i'r llwch.

3 Y Gwyth a riddfan, ni fwyttai,
Ei Enaid gwrthod moethau mae,

Natu

Nattur dan ormod faich a fydd
Yn chwennnych Angau i fynd yn rhydd.

4 Ac yna 'r Pechaduriaid ffo'nt
At Dduw am Help dan lefain dont,
Fe wrendy 'u Gwaedd fe'i hachub hwy,
Rhag Angau a'r Bedd cant oes yn fwy.

5 Nid phyſygwriaeth wnaethai 'r gwaith,
Mor glau, mor hawdd, mor ddiogel chwaith
Y farwol farn mae Duw 'n ddileu,
A'i Air mae 'n anfon i'w hiachau.

6 O na adgofiei Dynol ryw
Waith rhyfedd a Daioni Duw!
Ac am ei Drugareddau ddwyn
Eu Hebyrth mawl i'w Crewr mwyn.

SALM, CVII. y bedwaredd Rhan, meſur hir. *Gwaredigaeth oddiwrth ſtormydd a llong darylliad neu, Gan y morwr.*

O Dy'ch am weld Gwaith Duw o'r nef
A'i Ryfeddodau 'mhell o Dref,
Ewch gyd a'r morwyr yn ddi fraw,
I drammwy 'r hyd y moroedd draw.

2 Gadawant eu trigfannau gynt,
Meddiannant ffafar gan y Gwynt;
Nes galwo Duw am Dymheſt gref
I godi'r tonnau tua'r Nef.

3 Yr awrhon eſgyn fynu wnânt,
Drachefn i lawr i'r Dyfnder ânt;
Y morwyr ifaingc er ymroi,
Gan ofn, fel meddwon yn pen droi.

4 Tro tir ymhell, ae Angau wrth glun,
At Dduw dyrchafant Lef bob un:
Fe wrendy eu Herfyniad mawr,
Ac enfyn lechydwriaeth 'lawr

5 Fe bair i'r gwyntoedd ddoſi 'u llid,
A'r Tonnau beidio rhuo i gyd;

Mae 'i 'n dawel, fe ddaw 'r morwyr mwy
I'r Porthladd ; a ddymunent hwy.

6 O na oſodai Dynol ryw
Mewn cof ddaioni rhyfedd Duw !
A dwyn eu hoffrwm fawr a màn,
I'w foli yn ei Eglwys lân.

SALM CVII Rhan olaf meſur hir.
Bendithio Cenhedlaethau a'u coſpi.

PAN ddigier Duw â Drygau hir,
Y rhai breſwyliant yn y tir,
Eu maeſydd try 'n ddi-ffrwyth di-rad,
A ſych afonydd fynu o'r Wlad.

2 Ffynhonnau eilwaith wrth ei Air
A dardd, a'r Brynniau 'n wyddon wnair
Caſe dydd Bendith enfynie',
Cynhau fau fydd mewn anial le.

3 Lle 'roedd bwyſſilod, rheibus ryw,
A Dynion gwaeth na hwythau 'n byw,
Y Tlawd a'r gorthrymmedig Rai
Cyfodant Dreſydd yno a thai.

4 Hwy hauant faeſydd, plannant Wŷdd,
A ffrwythau 'r rhain i'w cynnal fydd ;
Eppiliant oddiwrth ffrwythlon Wraidd,
Cynhydda 'u golyd gyd a'u praidd.

Drachefn os pechant hwy, ar lled,
Fe ollwng 'mewn y rhai di gred,
Lu creulon i anrheithio 'u Gwlad,
A lladd eu Gwyr, Frenhinol Hâd.

6 Eu Plant yn gaethion cant eu dwyn,
Mewn Dirmyg crwydrant yn ddi gwyn
A'u gwlad yn llom heb ffrwyth nac ŷd,
yn anghyfannedd drofti 'gyd.

7 Ond os edifarhânt, er hyn,
Ei Law ofnadwy ymaith tyn ;

Pan

Pair i'w Dinafoedd lwyddo 'n dda,
A'u lleſg Eglwyſi fe 'i bywha.

8 Y Cyſiawn gyda theimlad byw
'Ryfedda Waith *Rhagluniaeth* wiw;
A ſafnau *Ath'iſtiaid* cant eu cau,
Rhag cablu 'r Duw, ym ni 'n fawrhau.

9 Oh! leied ſy 'n adgofio 'n jawn,
Weithredoedd rhyfedd Duw a'i Ddawn:
Ond dynion pwyllog, gwelant Dduw,
Mai Sanctaidd, cyſiawn, a da yw.

SALM CIX ad 1, 5. 31. Meſur cyffredin. *cariad i Elynion oddiwrth Ejampl Criſt*

O Dduw fy nawdd, a'm Moliant gwiw
D' Ogoniant yw fy nghanıad;
Er cablu o Bechaduriaid cas
Dy ryfedd Ras a'th Gariad.

2 Pan oedd dy Fab mewn agwedd dŷn,
Yn rhodio'i hun y Ddaeren,
Amgylchwyd ef gan ddŷnion drwg,
A chelwydd, Gwg, ac Abſen.

3 Ymdeimlo a'u trueni wnai,
A'u Heddwch ceiſiai 'n waſtad;
Talaſant ddrwg am dda, bob cam,
Caſineb am ei Gariad.

4 Heb achos y terfyſgai 'llid
Er hyn i gyd gweddiodd
Dros rai a'i lladdodd ar y Groes,
Yn Angau loes bendithiodd.

5 A'i 'n ofer caiff 'd Eſamplau glan
Ddiſgleirio o'm bla'n yn gyſlon,
Rho, Enaid fel dy eddo di
I garu fy ngelynion.

Yr Arglwydd Saif o'm tu yn ſiwr,
Yn Enw Mhryniwr mimau,

Orchfyga 'r llid a'u Balchder hwy,
A'u Hathrod trwy 'Ngweddiau.

SALM, CX. Y Rhan gyntaf mesur hir. Criſt *yn cael ei ddyrchafu, a llawereedd yn cael eu trei, neu Lwyddiant yr Efengyl.*

FE dd'wedai 'r Tad Tragwyddol mawr
Wrth Griſt ei Fab; dring, eiſte i lawr
A'r fy Neheulaw, nes i'th Dad
" Roi dy Elynion dan dy draed.

2 Dy nerthol Air o Seion, 'ddaw,
" Bydd fel Teyrn-Wialen yn dy Law,
" I waedu Calon cyndyn Rai,
" A'u plygu hwynt i ufuddhau.

3 Dy nerth bryd hyn mawr fydd ei faint,
" Yn ewyllyſger, daw dy faint,
" A Phechaduriaid dorf i'th Dŷ,
" Harddwch ſanctteiddrwydd yno ſy',

4 O glodfawr nerth, o ddedwydd ddydd!
Pa ſuddygoliaeth fawr a fydd;
Pan ſo dychwelwyr yn ein plith
Tu hwnt i rif boreuol Wlith.

SALM CX. Yr ail Ran.
Mesur hir.
Brenhiniaeth ac Offeiriadaeth Criſt.

1 ARglwydd, y Ddae'r a'r Mor cyn hyn
A dyngodd wrth ei Fab yn llyn
" Saif d' Offeiriadaeth byth heb ball,
" Heb newid mwy o'r llaw i'r llall.

2 *Aaron* a'i Feibion, Trengant oll:
" Ond Tri ſ' a bywyd byth heb goll,
" I achub pawb a ffy trwy ffydd,
" Am noddfa rhag y llid a fydd,

3 *Melkiſe'c* ar y ddae'r cyn hyn,
" Fu n Frenhin ac Offeiriad ym;

Ceiſ

" Cei dithau yn y Nef y Fraint,
" Iddadleu dros, a llywio 'm ſaint.

4 Aeth Jeſu i'w Faingc mewn graſol Wedd
A chyngor o dragwyddol Hedd,
Aeth rhwng y Tad a'r Mab ymla'n
Mewn llwyddiant ac anrhydedd glan.

5 Trwy 'r Ddaear oll Teyrnaſu wna,
A dryllia 'r ſawl nid uſuddhâ;
Ac wed'yn barn e 'r Meirw i gyd,
I Uffern gyrr e' 'r euog fyd.

6 Ond ar y ffordd, (dros bawb o'i hâd)
Fe yfodd Gwppan dagrau'a Gwa'd,
Cododd drachefn o farw i fyw,
Ac eiſte wnaeth ar Orſedd Duw.

SALM CXI; Y Rhan gyntaf, Meſur cyffredin.

Doethineb Duw *yn ei Weithredoedd.*

1 CAN o anfarwol Glod di lyth
A Berthyn byth i'm Harglwydd;
Fy nghalon can, a'm Tafod dod
Ar led ei Odidawgrwydd.

2 Mor fawr yw Gwaith ei ddwylo gwych,
Mor hardd i edrych arno!
A hoffder Rhai 'mhob oes yn faith
Oedd chwilio 'i Waith a'i ſtudio.

3 Gwaith natur, pa mor gywrain yw,
Mor ddoeth yw 'r *Duw* goruchaf;
Ni newid ef na 'r Farn na 'r modd
Arfaethodd ar y cyntaf.

4 Gwaredu 'i Bobol gynt a wnai,
A chadarnhau 'i Gyfammod;
Gorchymynion ei Weſuſau glan
Dros fyth parhan' heb ddarfod.

5 Holl natur, Nef a Daear faith,
Sy 'n traethu 'th Waith tra hoyw

Ar

A'r ffordd i ni yn ddoethion fod
Yw dyſgu 'nabod d' enw.

6 Ofni dy ddig, credu i'th Ras,
Sydd ddeall addas Duwiol;
A'r hwn a wnel Ewyllys Duw
Y doethaf yw o'r Bobol.

S A L M CXI. Yr ail Rân,
Meſur cyffredin,
Perffeithrwydd Duw.

MAwr ydyw 'r JON, a'i waith a'i (nerth
A eilw 'n prydferth foliant:
Boed i Gymmanfa 'r ſaint ynghyd
Roi iddo i gyd Ogoniant.

2 Mawr yw trugaredd ein Duw ni,
Ei Blant mae 'n borthi 'n ddiwid;
Yn waſtad cofio 'i air y wna,
A gwneu'd yn dda 'i Addewid.

3 Ei Fab, ein Prynwr mawr a ddau,
I gadarnhau 'i Gyfammod:
Ei Enw ſydd yn Sanctaidd iawn,
A'i ffyrdd yn gyfiawn hynod.

4 A fynno fod yn ddoeth i fyw,
Yn ofan Duw rhaid dechreu;
Prawf eglur o'n Gwybodaeth yw
Caſau pob rhyw Bechodau.

S A L M CXII. Meſur cyffredin.
Haelioni yn cael ei Wobrwyo.

GWYN fyd yr hwn ſy 'n ofni 'r JON
A gwneud ei Eirchion odiaeth,
Echwyno i'r dlawd, neu rydd yn hael,
Heb ddiſgwyl cael tal'digaeth.

2 Gan fod toſturi dan ei Fron,
At bawb o reidion eiſiau;

Ei Had ef a fendithia Duw,
Mewn Atteb i'w Weddiau.

3 Newyddion drwg nid ofna 'n fyn,
Mae 'i Galon yn ſefydlog;
Ymddiried mae 'n yr Arglwydd nef,
Am hyn bydd ef di ofnog.

4 Yn amſer trallod, gwyn ei fyd,
Fe gyfyd rhyw oleuni,
Dengys i'r Byd mae cyfiawn yw,
A heddwch Duw caiff broſi.

5 Ei dduwiol Waith a'i Gariad rhwydd
O flaen yr Arglwydd erys;
Bendithion yma, a Gwynfyd Nef,
Fydd ei Wobr ef yn ddilys.

SALM CXIII.

Mawrhydi ac ymoſtyngïad Duw.

GWaſ-naethwyr Duw molwch yr JON,
Gwnewch am ei *Ras* a'i fawredd ſon,
Bendithiwch byth ei Enw pur:
Ple bynna dengys Haul trwy 'r Byd
Ei lewyrch foreu a hwyr o hyd,
Dyrchafer ef ar For a Thir.

2 Nid amſer, lle, na Phellder chwaith
Ddyd terfyn iw Arglwyddiaeth faith,
Ei Fawredd ſy' goruwch y Nef:
Na boed i un Creadur byw
Gyſtadlu a'n tragwyddol Dduw,
Nerth di greuedig ſ' iddo ef.

3 Ymoſtwng mae 'i Fawrhydi ef,
I edrych Gwaith Angylion Nef,
A meddwl am Drigolion Byd;
Mae 'n codi 'r Tlawd a'i wiſgo 'n dlws
A'r Rheidus mae 'n ei ddwyn o'r Drwſ,
Hwy gŷd a Phendeſigion dyd.

I ddyn

4 I Ddynion heb ddim Plant a fu,
Y Fendith o Etifedd rhy',
I gadw 'u henwau hwy mewn bod;
Y Fam yn llawn Gorfoledd llon
Ei foli 'n ddiolchgar 'ddylei hon:
Boed i bob oes ddyrchafu 'i Glod.

S A L M CXIII. Mefur hir.
Duw *yn ben llywydd ac yn rafol.*

1 CHwi Weifion Brenhin mawr y nef
Cenwch bob Oes ei foliant ef:
P'le bynna treiglo 'r Haul ei dro,
Cenhedloedd cant ei foli 'fo.

2 Uwch Dae'r, tu hwnt i'r Wybren fry
Gorfeddfaingc ei fawrhydi fy',
Ni attal lle nac amfer chwaith
Mo'i allu na 'i Lywodraeth faith.

3 P' ûn o Blant *Addaf*, egwan eryw,
Neu Angylion faidd gyftadlu a'u Duw?
'I Ogoniant ef mor ddiffiglair fy'
Trig i'w oleuni 'i hunan fry.

4 Fe blyg o'i Gariad, ac a dry
I edrych Gwaith y nefol Lu:
Ymoftwng mae ef etto 'n twy,
I edrych hynt Plant dynion hwy.

5 O Lwch, a lluaift, lleoedd fal,
Mae 'i *Ras* yn codi 'r tlodion gwa'l:
Anrhydedd Plant i'r rhai'n rhydd ef,
Ac a'i cymmwyfa 'i Deyrnas Nef.

6 Un Gair o'i Enau, ef a wnai
I deulu diblant lawenhai:
Yn Naw deng mlwydd dug *Sara* had.
Trwy rym Addewid Duw a'i rad.

7 Y Fam fydd llon gael Plentyn byw,
A thraetha ryfedd Waith ei Duw:
Ffydd all gryf hau, os cnawd wanha,
Addewid Duw a wnair yn dda.

fal

S A L M CXIV, Meſur hir.

Gwrthiau yn cyd-fyned a thaith Iſrael.

1 PAN gafodd *Iſrael* gynt ryddhad ;
A 'mado a *Pharaoh* draws a'r Wlad :
Eu llywydd hwy oedd Brenhin Nef
A *Juda* ei Orſeddfainge ef.

2 Trwy 'r Mor yr oedd eu taith i dre
Gwahanodd i roi iddynt le;
Canſu 'r *Iorddonen* hwy a throdd
Oddiar eu ffordd, i'w gwrthol ffodd.

3 Mynyddau a Bryniau, neidient draw,
Fel Hyrdd ac Wyn, gan ofn a braw :
Ni fafodd *ſinai* yn ddi grŷn,
Pan oedd mawr allu Duw wrth glun:

4 Pwy allai wneud i'r cenfor ffoi ?
Ac i'r *Iorddonen* wrthol droi ;
Pam Fryniau bach y llammech chwi ?
Pam *ſinai* y dychrynaiſt ti ?

5 Rhaid i bob Mynydd a phob lli,
Ffoi oddiar ffordd ein Harglwydd ni
Duw, Brenhin *Iſrael* yw o'r Nef,
Cryn ddaear ac addola ef,

6 Natur 'driſta pan dryſtio fry,
Y Graig yn llyn o ddw'r fe 'i try,
A'r Gallefter yn ffynonnau byw
A'r Tan a'r Dwfr addefant *D*duw.

S A L M CXV meſur hir.

Y Gwir Dduw *ein neddfa*; neu, *Eulun-Addoliaeth yn cael ei geryddu.*

1 NId i nyni ſy' Lwch, o Dduw,
Gogoniant yn ddyledus yw,
Ti yw 'r tragwyddol unig un
Sy' gyfiawn, doeth, a grafol Gun.

Mewn

2 Mewn dychryn ymddiſgleiria ar led,
Pa'm y caiff Tafod y di gred ?
ddweyd wrthym i'n gwradwyddo o hyd,
Pa le mae 'r Duw waſnaeth'ſoch cyd ?

3 Y Duw ym ni'n waſnaethu ſy,
A'i Orſedd-fainge uwch wybren fry,
Trwy ddaear gwnair ei 'Wllys ef,
Edwyn ein Llais a gwrendy 'n llef.

4 Ond hwy addoli delwau maen',
Rhyw Gyffion meirw o Bren neu faen;
Neu 'r Goreu o Fettel loyw a wnair,
Sef Sant o Arian, *Duw* o Aur.

5 Gwnant iddynt Gluſtiau a Llygaid Syn,
Byddariaid, deillion ynt er hyn
Aberthu i'r rhai n ſydd o'er waith,
Nid gwiw gweddio arnynt chwairh.

6 Eu Traed ni wnaed i Symmyd dim ;
I'w dwylo i achub nid oes grym,
'Sawl ſy 'n addoli 'r fath rai hyll,
Byddariaid, deillion ynt un ddull.

7 Ond *Iſrael*, cred di yn dy Dduw,
Dy Borth, dy Nawdd, a'th darian yw;
Fe gwyd dy anghyſannedd le,
Bugail a rhaidd fendithia 'fe.

8 Y Meirw ni 'th foliannant mwy,
Mewn diſtaw fedd gorweddant hwy,
Ond ni gawn ſy w i foli 'th Ras,
A thraethu 'th Nerth i'r byd i ma's.

S A L M CXVI. Y rhan gyntaf
Meſur cyffredin. *Gwellhad o Gleſyd.*

1 CARAF yr Arglwydd, clybu 'm llef,
Toſturioedd ef tu ag attaf
Pan ddel trallodion tra fw'i byw
At Orſedd *Duw* y rhedaf.

Cara.

Caraf yr Arglwydd, clybu nghwyn,
Pan fum yn achwyn wrtho ;
O na wanhaed fy Nghalon byth
Tr'o ynnof chwyth weddio.

Fy nghnawd a'm hyſpryd ſyrthiai 'n ſwrth
Bum agos wrth y Beddrod ;
O'm mewn Poen Angau oedd yn gwau,
Ac ofnau Uffern iſod.

Fy Nuw, mi lefais, gwared fi,
" Da ydwyt ti a chyfiawn ;
" Ti all o'r Bedd fy nghadw 'n gu,
" 'R wy 'n credu i'th allu cyfiawn.

Yr Arglwydd, gwelodd gyſtydd f' oes,
I'm Blinder rhoes ſymmudiad ;
Tro f' enaid i'th Orphwyſfa wiw,
Can's profaiſt Dduw a'i Gariad.

Rhag Angau cadwodd f' enaid cu,
A ſychodd 'fynu 'm dagrau ;
Rho'i f' anadl i'w ſoliannu 'n brudd,
A'r gweddill ſydd o'm dyddiau.

S A L M CXVI. Adn. 12. &c.

Yr ail Ran. Meſur cyffredin.

Ddunedau a wnaed mewn trallod, eu talu yn Eglwys ; neu, *ddiolchgarwch cyhoeddus am Waredigaeth ddirgel.*

PA beth i'm Duw a dala 'i 'n awr,
Sef, am ei fawr drugaredd ?
Ynhraed a gant dramiwyo i'th *Dŷ*,
A'm Cân ddyrchafa i'th Orſedd.

Ym mhlith y Saint i'th Dŷ fy 'n d'od,
F' offrymmau o glod a delir :
Rho cwpla' i 'r addaned brudd
A roes yn nydd fy nolur.

Mor hoff yw gennyt drugarhau,
O Dduw, wrth rai mewn adfyd ?

Mor gu yw 'th Saint i'th olwg wiw,
Mor werthfawr yw eu bywyd.

4 Mor ddedwydd yw 'th holl Weiſion di;
Mor fawr i mi 'th drugaredd;
Fy 'mywyd 'gedwaiſt ar bob tro,
Wyf fi 'n gyflwyno i'th fawredd.

5 Bellach a byth dy eiddo wy',
Ni newid mwy mo 'm bwriad:
Dattodaiſt rwymau 'm blinder cry',
A rhwymaiſt fi a'th Gariad.

6 F' addunedau talaf yn dy Dŷ,
A chofia' i 'th drugarogrwydd;
Y Saint a'm clyw yn dyſtion fo,
Os bydd im' ado 'r Arglwydd.

S A L M CXVII Meſur cyffredin

Mawl i Dduw *oddi wrth yr holl Genhedloedd.*

1 O Chwi Genhedloedd o bob rhyw
Yr Arglwydd byw moliennwch;
Dyſgwch ei air ef ym mhob lle,
A'i Enw e' bendithiwch,

2 Mae ei Drugaredd trwy bob Gwlad,
Ei Gariad rhad cyhoeddwch;
A'i air ef byth ſafadwy yw,
Y ffyddlon Dduw clodforwch.

S A L M CXVII Meſur hir.

1 C Lodforer y Creawdwr mawr
Gan holl drigolion llwch y llawr:
A moler Enw 'r Jeſu 'n faith
Trwy 'r gwledydd oll ymmhob rhyw laith.

2 Tragwyddol yw trugaredd Duw,
A'i air ef byth, gwirionedd yw;
Seinir ei fawl o for i for,
Tra paro Hewyrch Haul a Lló'r.

SALM CXVIII. Y Rhan gyntaf mesur cyff. *Gwaredigaeth o Derfysg.*

1 YR Arglwydd imi 'n helpiwr fydd,
Nid yw fy ffydd yn ofni
Pa beth a wnel Plant dynion mwy,
Tr'o 'fe 'n gynhorthwy imi.

2 Gobeithio yn fy Nuw fy' well,
A'i gael yn gyfell imi;
Na 'mddiried yng wyr mawr y tir
Nac ar eu Gwir hyderu.

3 O'm cylch y daeth Gelynion hy,
Fel Gwenyn Lu tra llidiog:
Ond maeddaf eu Cynddaredd oll
Trwy fraich yr hollalluog,

4 Trwy Dduw mae nghalon i'n cryf hau,
Ac yntho mae 'm llawenydd:
Tra canwyf lechydwriaeth Duw
Mor firiol yw 'm lleferydd.

5 Fel gwenyn doent o'm cylch yn gaeth,
Ond Duw pan ddaeth, hwy ffoisant:
Fel drain a losgir yn y tan,
Dan gleccian diffoddafant.

6 Hedd a gorfoledd fy i blant Duw,
'Fe 'n unig yw eu ceidwad:
I'w ras galluog, *Israel* dod
Am hynny glod yn wastad.

SALM CXVIII. Yr ail Ran. Adn. 17-21
Mawl-cyhoeddus am Waredigaeth rhag Angau

DUW clywaist Waedd dy Was o'r nef
O'r Bedd cadd ef ei wared
Nid marw fydd, caiff bellach fyw,
A Gwaith ei Dduw myneged.

2 Dy foliant beunydd ar bob tro
Mynychach fo 'n ei Enau:

Dy Law 'ceryddodd ef mor fawr
A'i ceidw 'n awr rhag Angau.

3 Agorwch *Seion* byrth i ni,
Dewn i glodfori 'th fawredd;
Y tŷ yr â'r holl dduwiol rai,
Duw 'i goffau 'th Drugaredd.

4 Yng Nghymmanfoodd dy Seintiau glan
Dyrchafwn Gan ddiolchgar:
Dweyd yno 'n Cwyn, Duw, wrthyt cawn
A'th foli wnawn yn llafar.

SALM CXVIII. Y drydedd Ran Adn 22, 23. Mesur cyffredin.
Crist *seilfaen ei Eglwys.*

1 O Wele 'r seilfaen, cadarn yw,
Yn *Seion* Duw a'i gesyd:
I'n weithio 'n gobaith arno ef,
A'i foliant yntef hefyd.

2 Duw a'i hetholodd gwerthfawr yw
Gan bob dyn byw a'i 'dnebydd,
'Rhai gredant yn ei enw ef
Ni chant ddioddef c'wilydd.

3 *Juddewon*, adeiladwyr ffol,
A'i taflei 'n ol yn ddibris:
Ar y Graig hon yr Eglwys, trig
Er gwaetha 'u dig a'u mal'is.

4 Pe holl Byrth uffern a'i gwrthsai'
Cysodi wnai 'r adeiliad,
Hyn Arglwydd, yw dy waith dy hun,
A rhyfedd i'n golygiad.

SALM CXVIII Adn 24, 25 26.
Y bedwaredd ran mesur cyffredin.
Hosanna, dydd yr Arglwydd neu, adgyfodiad Crist, a'n hiechydwriaeth ninnau.

HWN ydyw 'r dydd a wnaeth ein Duw,
Mae 'n galw 'r cyfryw 'n eiddo:

Plant

Plant dynion llawenhawn am hwn,
A gorfoleddwn yntho.

Dydd 'cododd *Criſt* o'r bedd i'r lan
A theyrnas ſatan, cwympodd;
A Dydd y gorfoledda 'i *Saint*,
A'i wyrthiau maent yn adrodd.

3 *Hoſanna* i *Griſt* Enneinîog Duw,
Mab *Dafydd* yw ein Brenhin;
O cymmorth, Arglwydd; tyr'd i lawr
A th Ras yn awr i'r Werin.

4 Bo i'n Harglwydd fawl, ſy 'n dwyn i ni
Ei Gennadwri ddawnus;
Sy 'n d'od yn enw 'i Dad, ſef Duw,
I gadw 'n Rhyw gamwedddus.

5 *Hoſanna* 'n awr ag uchel Lef
Fo iddo ef trwy 'r ddae'ren:
Ac yn y Nef gorſeddfa 'r ſanct
Rhoir iddo foliant amgen.

SALM CXVIII, 22——27 Meſur hir
Hoſanna *ar ddydd yr Arglwydd*; neu, *Gan newydd o lechyduriaeth trwy* Griſt.

WEle 'r fath werthfawr Gongol-faen,
Y ſeiri gynt eu lyſu wnaen'.
Ond Duw ar hwn ei Eglwys dyd,
Er gwaetha ſatan a'i holl lid.

1 Duw mawr, dy Waith di oll yw hyn,
I'n golwg rhyfedd yw a ſyn;
Hwn yw dy ddydd o Ras a hedd,
Y darfu 'n Prynwr godi o'r bedd.

3 Chwi Bechaduriaid llawenhewch,
A'r ſaint yn llon i'w ganmol, dewch
Rhowch foliant fil i'w enw ef
Hoſanna feiniwch hyd y Nef.

4 Mae 'n d'od i ddwyn yn enw 'i Dduw
Hywyd a gras i Ddynol ryw :
Cyfeſawed yr holl Eglwys lan
Ei Brenhin gyd a mawl a chan.

S A L M CXIX, Y rhan gyntaf,
mesur cyffredin.
Dedwyddyd ych y ſaint, a thrueni Pechaduriaid.

Adn 1 2. 3.

1 GWyn fyd y Dyn o galon bur,
Sy 'n cadw clir Gydwybod ;
A'th Cyfraith nid yn rád, o Dduw,
Ond fly rhag pob rhyw bechod.

2 Gwyn fyd y rhai ſy 'n cadw 'th air
A th ddeddfau diſglair dyſgant,
A'u Calon cll dy geiſio wnan'
A'u dwylo glan d' w'ſnaethant.

Adn 165,

3 Mawr yw eu hedd, mor ſicr y ſai'
Sawl ſy 'n mawrhau dy gyfraith,
Nid Profedigaeth hy all droi
Eu Traeđ i cſgoi ymaith,

Adn 6

4 Llawenydd mawr i'm calon fydd,
Rhag gwradwydd prudd i'm cedwir ;
Pan ufuddhawſ i'th Air bob rhan
A'th knw anrhydeddir.

Adn 21. 118.

5 Ond dynion heilch, Duw a'u caſâ,
Dan ſelldith trenga 'r anwir :
A meibion Trais a dichell drwch
Hwyntt hwy i'r llwch a ſethrir.

Adn 119, 115.

6 Fel ſored gwael yw 'r anwir Rai
Sy 'n gádo 'th Lwybrau hyfryd ;
Gwcld Jechydwriaeth cant o bell,
Heb fod yn well o'i phlegid.

Salm

SALM CXIX. Yr ail ran Meſur cyff. *Duwiolder dirgel, a ſyniad yſprydol, neu, ymarfer gwaſtadol a* Duw.

Adn 147, 55.

CYN Goleu 'r Wawr, Duw, arnat ti,
Gweddiaſ fi; ac eilwaith
Myſyrio 'r Nos ar d' Enw wnaf,
A'r dydd, mawrhaf dy Gyfraith.

Adn 81.

2 Lleſgau mae f' enaid lawer pryd,
Am weld dy Jechydwriaeth:
Ond hyd nes del, d' addewid ſy
Yn dal i ſynu 'ngobaith.

Adn 164.

3 Saith waith y coda 'i Nwylaw 'r dydd,
Rhof ddiolch prudd i'th Enw:
Mawl myrnych mae 'th ddaioni di
Oddi wrthyf fi yn alw.

Adn. 62,

4 Pan ſo tywyllwch ganol nos
Yn Orchudd dros yr Wybren,
'R wy 'n galw 'i go' 'th Weithredoedd di,
Ac yn dy foli 'n llawen.

SALM CXIX Y drydedd ran meſur cyffredin *Cyffes o ddiragreith wydd Ediſeirwch ac ufuddod.*

Adn 57, 60.

O Arglwydd Dduw, ti yw fy rhan,
Dy ffordd di pan adweunais,
I ufuddhau i'th Air di lys
Y gwneuthym frys nid oedais,

Adn 30 14.

2 Dewiſais ffordd gwirionedd JOR,
Yn hon 'r wy 'n gorfoleddu;
Nid holl dryſorau 'r ddaear gron,
A'm gwnant mor llon o'u meddu,

3 Dy raſol dyſtiolaethau glan
Rhois hwy o fla'n fy llygaid:

oddi-

Oddi yno tynnaf nerth bob dydd,
A chyſur fydd i'm henaid.

Adn 59

4 Od af o'th Lwybrau glân un waith,
Dy ffyrdd (Duw) eilwaith coſiaf:
At dy Orchmynion trof fy nhra'd;
A'th Bardwn rhad gobeithiaf,

Adn 94, 114

5 Dy eiddo byth wyf fi, trwy Ras,
Duw, cadw 'th Was rhag Bariaeth:
Can's Tarian wyt a lloches ym,
Yn d' air mae grym fy Ngobaith.

Adn 117.

6 Fy nghalon ti ogwyddaiſt hon
I gadw 'th union ddeddfau,
Fel hyn, cyflawni 'th 'wyllys di
Ddymunwn 'i hyd angau:

S A L M CXIX. Y bedwaredd ran meſur cyffredin. *addyſg o'r Yſgrythur.*

Adn 9,

PA fodd y ceidw le'nctid gwag
Eu buchedd rhag pob pechod?
Rhydd d' air Reolau pur o'u bla'n
I gadw glan gydwybod,

Adn 130

2 Pan el i mewn i'r meddwl d' air
Rhydd hwn fath ddiſglair olau:
Caiff enaid gwaelaf addyſg wiw,
A chwyd at Dduw feddyliau.

Adn 105

3 Mae ſel yr Haul a'i olau ſydd
Ar hyd y dydd i'n t'wyſo;
A'r Nos trwy bob peryglon blin
Fel lluefrn i'n goleuo.

Adn 99 100

4 Sawl fy 'n myfyrio yn dy air
A'i gadw, cair e'n ddoethach,

Na'i holl athrawon, ficcir yw,
Mae 'n 'nabod Duw 'n rhagorach.

Adn 104 113.

D' Orchymynion gwnant fi 'n ddoeth yn
Ffyrdd anwir a ffieiddiais; [wir
Meddyliau ofer cas gen' i,
Dy gyfraith di a hoffais.

Adn, 89, 90 91,

I'th Reol ufuddhau mae 'r Ne',
A chadw 'i lle mae 'r ddae'ren;
Arhai'n dy Weifion ddydd a nos
Sy 'n dangos d' allu cywre'n.

Ond etto 'th ddeddf a'th 'fengyl ei
Mae amgen werfi ganthynt:
Nid ficrach faif y ddae'r na 'th air
Nid Sêr mor dd fglair ydynt.

Adn 140, 9, 116.

Dy air di fy' dragwyddol Wir,
Pob rhan fy' bur di wammal;
Mewn le'nctid ein hyfforddwr yw,
A thra fom byw, fe 'n cynnal.

PSALM CXIX Y bymmed *Ran* mefur
ffredin. *Hyfrydwch yn yr Yfgrythurau*:
neu, *air* Duw *yn ares ynnom*.

Adn 17,

